**Aberystwyth University**

*Gweledigaeth Ar Gyfer Cymru Wledig: Yr Adroddiad Dystiolaeth*
Woods, Michael; Heley, Jesse; Goodwin-Hawkins, Bryonny; Howells, Helen

*Publication date:*
2021

*Citation for published version (APA):*
Woods, M., Heley, J., Goodwin-Hawkins, B., & Howells, H. (2021). *Gweledigaeth Ar Gyfer Cymru Wledig: Yr Adroddiad Dystiolaeth*.

**Document License**
CC BY-NC

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 11. Dec. 2021



# Gweledigaeth Ar Gyfer CYMRU WLEDIG

## Cymunedau Llewyrchus ar gyfer y Dyfodol

---

## YR ADRODDIAD DYSTIOLAETH

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ROBUST

CLILC • WLGA

Ysgrifennwyd gan Michael Woods gyda Jesse Heley, Helen Howells a Bryonny Goodwin-Hawkins

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD yn Aberystwyth

Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Prifysgol Aberystwyth

Aberystwyth

SY23 3DB

www.cwps.aber.ac.uk

www.aber.ac.uk/dges

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mawrth 2021

Mae'r ymchwil hon wedi'i gwneud fel rhan o Labordy Byw Cymru o brosiect ROBUST

www.rural-urban.eu

Mae ROBUST yn cael cyllid gan raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd o dan ddiwygiad grant Rhif 727988.

Barn yr awduron yn unig a adlewyrchir yn y ddogfen hon. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir ar yr wybodaeth y mae'n ei chynnwys.

© Yr awduron, 2021

Caniateir ailddefnyddio'r deunydd yn yr adroddiad hwn gyda phriodoliad at ddibenion anfasnachol o dan drwydded CC BY-NC.

# Tabl Cynnwys


**1. Y cefndir** .................... 2
**2. Y broses** .................... 4
**3. Diffinio'r Gymru Wledig** .................... 5
**4. Y Gymru Wledig Heddiw** .................... 9
Poblogaeth, Mudo a Demograffeg .................... 9
Strwythur yr Economi a Chyflogaeth .................... 15
Amaethyddiaeth a'r Sector Bwyd .................... 21
Twristiaeth .................... 26
Gweithgynhyrchu .................... 28
Cyfalaf Naturiol a'r Economi Gwyrdd .................... 29
Tlodi ac Amddifadedd .................... 33
Mynediad at Wasanaethau a Seilweithiau .................... 36
Tai .................... 40
Y Gymraeg .................... 44
Cydadwaith Gwledig – Trefol .................... 47
Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Brecsit) .................... 48
Effaith COVID-19 .................... 54
**5. Edrych Ymlaen: Llunio'r Weledigaeth** .................... 61
**6. Y Ffordd Ymlaen: Y Tu Ôl i'r Cynigion** .................... 70
Amrywio'r sail economaidd gyda dull economi cylchol ar gyfer cynnyrch gwledig naturiol .................... 72
Rhaglen ieuenctid wledig wedi'i thargedu i fuddsoddi, gwella sgiliau, denu a chadw pobl ifan disglair a medrus mewn cymunedau gwelig .................... **Error! Bookmark not defined.**
Ychwanegu gwerth at isadeiledd gwledig .................... 77
Twristiaeth cynaliadwy sy'n cefnogi cymunedau, busnesau a phobl .................... 81
Tai i adlewyrchu anghenion cymunedau lleol .................... 83
Trefi gwledig clyfar a ffyniannus .................... 84
Adeiladu Cyfoeth Cymunedol a mynd i'r afael â'r Canol Coll .................... 86
**7. Cyflawni'r Weledigaeth** .................... 90
**Geirfa: Termau Allweddol** .................... 92
**Cyfeiriadau a Ffynonellau** .................... 97

# 1. Y cefndir

1.1 Comisiynwyd y Weledigaeth Wledig gan Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) – sy'n cynrychioli naw awdurdod lleol sy'n wledig yn bennaf: Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Powys, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Sir Fynwys, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn,– i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer polisi sy'n effeithio ar y Gymru wledig yn y dyfodol ac i nodi gofynion polisi allweddol ar gyfer Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

1.2 Mae'r Weledigaeth Wledig yn adlewyrchu'r heriau cyffredin sy'n wynebu aelodau Fforwm Gwledig CLlLC a'u tiriogaethau, o ddwysedd poblogaeth is, pellter o ganolfannau poblogaeth mawr a seilwaith trafnidiaeth, costau uwch darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac effeithiau tueddiadau cymdeithasol ac economaidd eang ar gymunedau gwledig.

1.3 Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Brecsit) wedi atgyfnerthu prydlondeb cymryd trosolwg cynhwysfawr ar anghenion cymunedau gwledig Cymru a mynegi gweledigaeth holistig newydd. Nid yn unig y bydd Brecsit a ffurf unrhyw gytundeb ar ôl Brecsit gyda'r UE yn creu goblygiadau o bwys i'r economi gwledig yng Nghymru, ond mae'n gofyn am weithredu polisïau a rhaglenni newydd mewn meysydd, gan gynnwys cymorth amaethyddol, datblygu gwledig a buddsoddiad economaidd rhanbarthol, sydd wedi bod yn destun polisïau a rhaglenni'r UE o'r blaen. Dyma gyfle i fabwysiadu dull integredig newydd, gan gysylltu seilos polisi a arferai fod ar wahân, ond mae hefyd yn peri risg y gallai polisïau newydd wanhau cydlynedd ac arwyddocâd y 'gwledig' fel amcan arbennig ar gyfer ymyrraeth gan y llywodraethau.

1.4 Mae ysgogiad pellach ar gyfer ffocws polisi newydd ar y Gymru wledig wedi codi o effaith pandemig COVID-19 yn 2020 a'r mesurau rheoli perthynol, sydd wedi cyflwyno heriau i bob sector economaidd yn y Gymru wledig ac wedi effeithio ar incwm a diogelwch aelwydydd mewn cymunedau gwledig ledled Cymru, yn ogystal â pwysleisio'r anghydraddoldebau presennol o ran mynediad at wasanaethau a seilwaith. O ganlyniad, mae'r cynigion a gyflwynir yn y Weledigaeth Wledig yn bwysicach byth fel map ar gyfer adferiad gwledig yng Nghymru ar ôl y pandemig.

1.5 Cynhyrchwyd y Weledigaeth Wledig drwy broses gynhwysol wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'n cyflwyno consensws sy'n amlinellu blaenoriaethau a chynigion polisi sydd â chefnogaeth eang ar draws y sbectrwm gwleidyddol a gynrychiolir yn Fforwm Gwledig CLlLC ac ymhlith amrywiaeth eang o randdeiliaid gwledig sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu. Gan hynny, cydnabyddir y gall fod materion a chynigion polisi sydd y tu allan i'r rhai a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig y mae mwy o wahaniaeth barn arnynt, ac nid yw hepgor y rhain o reidrwydd yn arwydd eu bod yn amhriodol nac yn anymarferol.

1.6 Bwriad y Weledigaeth Wledig yw ategu'r gwaith datblygu ar wahân gan Lywodraeth Cymru ar fframweithiau polisi ar gyfer cymorth amaethyddol ac amaeth-amgylcheddol a rheoli tir, a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*,[1] ac ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, a grynhoir yn y *Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*.[2] Rhagwelir na fyddai angen strwythurau cyflawni newydd ar gyfer y camau a'r cymorth arfaethedig a gyflwynir yn y Weledigaeth Wledig, ond y caent eu gweithredu'n bennaf drwy strwythurau sy'n bodoli, gan gynnwys Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Chronfa Bargeinion Twf a

[1] *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, Dogfen Ymgynghori, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2019, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Ein Hymateb*, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2020.
[2] *Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2020.

Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag yn uniongyrchol drwy’r awdurdodau lleol.

1.7 Mae'r Adroddiad hwn ar y Dystiolaeth yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n bresennol yn y Weledigaeth Wledig. Mae'n amlinellu tystiolaeth ar sefyllfa sosio-economaidd bresennol y Gymru wledig, yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan Brecsit, ac effaith COVID-19, ac yn ystyried senarios ar gyfer pwysau posibl ar gymunedau gwledig dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r adroddiad wedyn yn crynhoi'r rhesymeg dros y blaenoriaethau a'r cynigion penodol a gyflwynir yn y Weledigaeth Wledig, gan roi manylion dangosol am sut y gellid eu datblygu a'u gweithredu, gan eu darlunio ag astudiaethau achos o enghreifftiau perthnasol o’r arferion da presennol.



# 2. Y broses

2.1 Mae’r gwaith i ddatblygu'r Weledigaeth Wledig wedi’i wneud gan CLlLC a Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth fel rhan o brosiect ROBUST, a ariennir gan raglen ymchwil Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd.[3] Roedd y gwaith yn cynnwys coladu a dadansoddi tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, trafodaethau cwmpasu a mireinio cynigion drwy gyfres o weithdai ac arolwg ar-lein, ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

2.2 Cafodd y broses gychwynnol o nodi materion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu cymunedau gwledig ac awdurdodau lleol gwledig yng Nghymru ei chyflawni drwy gyfweliadau â swyddogion mewn awdurdodau sy'n aelodau o Fforwm Gwledig CLlLC yn 2018 a 2019. Daeth dau weithdy, ym mis Medi 2019 a mis Ionawr 2020 (a gyd-drefnwyd gyda'r Rhwydwaith Gwledig), â chyfranogwyr o awdurdodau lleol, ymarferwyr datblygu gwledig, prifysgolion a’r gymdeithas sifil wledig ynghyd i ystyried pryderon, ofnau a dyheadau ar gyfer y dyfodol ac i fyfyrio ar y polisïau a’r rhaglenni a’r strwythurau presennol ar gyfer gweithredu a llywodraethu.

2.3 Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r cyfweliadau a'r gweithdai i fwydo’r broses gychwynnol lle nododd y tîm ymchwil egwyddorion allweddol ar gyfer y Weledigaeth Wledig, senarios posibl a meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu polisi. Mewn arolwg ar-lein ym mis Gorffennaf-Medi 2020, gwahoddwyd y cyfranogwyr i werthuso'r senarios a nodwyd, cynnig sylwadau ar heriau a chyfleoedd cysylltiedig, ac awgrymu camau polisi ac ymyriadau o dan y meysydd blaenoriaeth. Cafwyd cyfanswm o 60 o ymatebion gan amrywiaeth o gyfranogwyr unigol a chorfforaethol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

2.4 Defnyddiwyd yr ymatebion i'r arolwg gan y tîm ymchwil i lunio datganiad gweledigaeth drafft a rhestr o ofynion allweddol a chynigion polisi. Trafodwyd y drafft mewn gweithdy ar-lein pellach ym mis Hydref 2020 gan 27 o gyfranogwyr o amrywiaeth o awdurdodau lleol a rhanddeiliaid. Cafodd y ddogfen Gweledigaeth Wledig ei diwygio a'i mireinio wedyn mewn ymateb i adborth o'r gweithdy ac o gyfarfodydd gyda Grŵp Swyddogion Fforwm Gwledig CLlLC; ymgynghorwyr arbenigol yn CLlLC mewn meysydd sy'n cynnwys addysg, yr amgylchedd a chynllunio; a rhanddeiliaid allweddol.

2.5 Yn ychwanegol, mae tystiolaeth i gefnogi datblygiad y Weledigaeth Wledig wedi'i choladu a'i dadansoddi o ystadegau swyddogol, ymchwil flaenorol sydd wedi’i chyhoeddi ac sydd heb ei chyhoeddi ac adroddiadau a gyhoeddwyd, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd Grŵp Swyddogion Fforwm Gwledig CLlLC a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol Fforwm Gwledig CLlLC. Mae'r grwpiau hyn wedi cyfrannu'n benodol at fonitro a dadansoddi effaith COVID-19 a mesurau rheoli perthynol.

2.6 Mae aelodau Fforwm Gwledig CLlLC wedi cael eu briffio'n rheolaidd ar gynnydd y Weledigaeth Wledig, ac mae adborth yr aelodau wedi bod yn werthfawr o ran llywio cyfeiriad y Weledigaeth Wledig a'r gwaith paratoi.

[3] Rural-Urban Outlooks: Unlocking Synergies (ROBUST), Cytundeb Grant Rhif 727988. Gweler www.rural-urban.eu

# 3. Diffinio’r Gymru Wledig

3.1 Nid oes un diffiniad swyddogol o'r Gymru wledig. Ar raddfa’r awdurdodau lleol, deellir yn gyffredin bod y 'Gymru wledig' yn cynnwys ardaloedd y naw sir wledig yn bennaf a gynrychiolir yn Fforwm Gwledig CLlLC, sef Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Powys, Sir Benfro, Sir Ddnbych, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn (Ffigur 3.1). Gyda'i gilydd, mae'r naw sir yn cynnwys 82 y cant o arwynebedd tir Cymru ac maent yn gartref i 1,022,000 o bobl, neu 32 y cant o boblogaeth Cymru.[4]

3.2 Ceir pocedi o diriogaeth wledig hefyd mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae 137 o wardiau mewn awdurdodau lleol y tu allan i'r naw sir wledig yn bennaf a gymhwysodd fel 'wardiau gwledig' ar gyfer cymorth o dan Raglen Datblygu Gwledig yr UE (RhDG) 2014-2020 (Ffigur 3.1), a ddiffinnir yn bennaf yn ôl y dosbarthiad gwledig-trefol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler Paragraffau 3.4 a 3.5).[5] Mae gan y wardiau hyn boblogaeth gyfunol o 476,000 o drigolion, neu 15 y cant arall o'r boblogaeth genedlaethol

3.3 Ar y naill ddiffiniad neu'r llall, mae'r Gymru wledig yn diriogaeth amrywiol sy'n cwmpasu cymunedau mewn lleoliadau gwahanol iawn. Mae'r OECD yn ei adroddiad diweddar ar Lesiant Gwledig yn rhannu ardaloedd gwledig yn dri chategori: ardaloedd gwledig o fewn ardaloedd trefol swyddogaethol; ardaloedd gwledig y tu allan ond yn agos at ardaloedd trefol swyddogaethol; ac ardaloedd gwledig anghysbell, bob un yn wynebu heriau penodol (Tabl 3.1).[6] Mae Cymru'n cynnwys pob un o'r tri math o ardal wledig, gyda rhychwant yr RhDG yn ymestyn i wardiau o fewn ardaloedd trefol swyddogaethol yn y De a’r Gogledd-ddwyrain, yn ogystal ag ardaloedd gwledig gerllaw'r rhain, tra byddai llawer o diriogaeth yr awdurdodau sy'n aelodau o Fforwm Gwledig CLlLC yn dod o fewn y categori gwledig anghysbell.

3.4 Ceir cyfatebiaethau rhwng teipoleg driphlyg yr OECD o ardaloedd gwledig a dosbarthiad gwledig-trefol y SYG, a ddefnyddir i ddiffinio cymhwyster ar gyfer yr RhDG, sy'n cael ei adeiladu ar ddau ddimensiwn. Yn gyntaf, mae ardaloedd bach yn cael eu dosbarthu yn ôl math o anheddiad a phoblogaeth yn bedwar grŵp: cytrefi (nad oes dim ohonynt yng Nghymru); trefi mawr â phoblogaethau dros 10,000; trefi bach â phoblogaethau o dan 10,000, ac ymylon trefi mwy; a phentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig. Yn ail, mae ardaloedd wedyn yn cael eu dosbarthu yn ôl dwysedd poblogaeth a hygyrchedd, yn rhanbarthau 'tenau eu poblogaeth' a 'llai tenau'.[7]

3.5 Yn y categori ‘trefol’ mae’r SYG yn cynnwys unrhyw anheddiad sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000 o bobl, ac mae’n dosbarthu pob ardal arall, gan gynnwys trefi bach ac ardaloedd ymylol mewn lleoliadau tenau eu poblogaeth a llai tenau eu poblogaeth, fel rhai 'gwledig'. O dan y diffiniad hwn, mae trefi Aberystwyth, Caerfyrddin, Caergybi a'r Drenewydd yn cael eu dosbarthu fel rhai 'trefol'. Mae ardaloedd gwledig yn y dosbarthiad hwn yn cynnwys 35 y cant o boblogaeth Cymru.

---

[4] *Mid-Year Population Estimates for 2019*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020. Cyfanswm y boblogaeth wedi'i dalgrynnu i'r fil agosaf.

[5] *United Kingdom Rural Development Programme (Regional) – Wales*, Y Comisiwn Ewropeaidd 2014, a *Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020: Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd*, Llywodraeth Cymru, 2015.

[6] *Rural Wellbeing: Geography of Opportunities*, OECD, 2020.

[7] Ardaloedd bach yw ardaloedd 'tenau eu poblogaeth' (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn yr 20% o ardaloedd sydd â’r dwysedd poblogaeth isaf (personau fesul cilometr sgwâr) yng Nghymru a Lloegr o fewn radiws o 10 km, 20 km a 30 km.




Ffigur 3.1: Y Gymru Wledig – Aelodau Fforwm Gwledig CLlLC a Wardiau Eraill sy'n Gymwys i gael Cymorth yr RhDG, 2014-20.

| **Math o ranbarth** | **Heriau** | **Cyfleoedd** |
|---|---|---|
| Gwledig o fewn ardal drefol swyddogaethol (FUA) | • Colli rheolaeth dros y dyfodol<br>• Gweithgareddau'n canolbwyntio yn y craidd trefol<br>• Rheoli pwysau ar werth tir<br>• Paru sgiliau | • Dyfodol mwy sefydlog<br>• Potensial i ddal manteision trefol tra'n osgoi'r anfanteision |
| Gwledig y tu allan i FUA ond yn agos ati | • Gwrthdaro rhwng trigolion newydd a phobl leol<br>• Osgoi blerdwf<br>• Cystadleuaeth am dir a chadw'r dirwedd | • Potensial i ddenu aelwydydd incwm uchel sy'n chwilio am ansawdd bywyd gwell<br>• Mynediad cymharol hawdd at wasanaethau uwch a diwylliant trefol<br>• Mynediad da at gludiant |
| Ardal wledig anghysbell | • Economïau arbenigol iawn sy'n agored i chwim dwf a chwalfa<br>• Cysylltedd cyfyngedig a phellter mawr rhwng aneddiadau<br>• Costau uchel gwasanaethau am bob pen | • Mantais absoliwt wrth gynhyrchu allbynnau naturiol ar sail adnoddau<br>• Deniadol i gwmnïau sydd angen mynediad i ardal drefol ond nid bob dydd<br>• Yn gallu cynnig amgylcheddau unigryw a all fod yn ddeniadol i gwmnïau ac unigolion |

Tabl 3.1: Asesiad yr OECD o Heriau a Chyfleoedd yn ôl Teipoleg Wledig (Ffynhonnell: Rural Wellbeing: Geography of Opportunity, OECD, 2020).

3.6 Yn ei *Guide to Analysing Deprivation in Rural Areas,* mae Llywodraeth Cymru yn cynnig addasiad i'r dosbarthiad hwn, gan awgrymu ei fod yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru yn fwy cywir.[8] Yma, mae pob ardal mewn rhanbarthau tenau eu poblogaeth a 'phentrefi, pentrefannau ac aneddiadau gwasgaredig' mewn rhanbarthau llai prin yn cael eu dosbarthu'n wledig, ac mae trefi bach a mawr mewn rhanbarthau llai tenau eu poblogaeth wedi'u cynnwys yn y categori trefol. O dan yr addasiad hwn, mae Aberystwyth, Caerfyrddin, Caergybi a'r Drenewydd yn symud o drefol i wledig, ond mae Biwmares, Dinbych, Trefynwy a Brynbuga yn cael eu dosbarthu'n drefol.

3.7 Gallai addasiad arall sy'n dilyn cylch gwaith ymarfer y Weledigaeth Wledig yn agosach gyfuno’r dosbarthiad ar raddfa awdurdodau lleol a’r dosbarthiad ardaloedd bach, gan ddynodi 'Cymru Wledig' fel pob ardal yn y naw sir wledig yn bennaf (gan gynnwys ardaloedd a gategoreiddiwyd fel rhai 'trefol' yn nosbarthiad y SYG ac yn y dosbarthiadau wedi'u haddasu gan gynnwys Bangor a llain arfordirol y Gogledd o Landudno i'r Rhyl, Hwlffordd ac Aberdaugleddau, Llanelli, y Fenni, Caldicot a Chas-gwent), ynghyd ag ardaloedd sydd wedi’u dosbarthu fel 'pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig' mewn awdurdodau lleol eraill (Ffigur 3.2).

3.8 Mae'r Weledigaeth Wledig yn ymdrin yn bennaf ag anghenion y siroedd gwledig yn bennaf a gynrychiolir gan Fforwm Gwledig CLlLC, gan gynnwys trefi yn y siroedd hyn sy'n gwasanaethu'r cefnwlad fwy gwledig. Bydd rhai o'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd a'r camau a gynigir yn berthnasol hefyd i ardaloedd gwledig mewn siroedd mwy trefol. Yn yr un ffordd, mae rhai o'r materion a ddisgrifir a'r atebion a gynigir yn y Weledigaeth Wledig wedi'u targedu at gymunedau penodol yn y siroedd gwledig yn bennaf, megis ardaloedd yr ucheldir, cymunedau’r glannau, trefi bach, neu gymunedau sydd â chyfrannau uchel o drigolion Cymraeg eu hiaith.

3.9 Gallai ystadegau a thystiolaeth arall a gyflwynir yn yr Adroddiad hwn ar y Dystiolaeth gyfeirio at ddiffiniadau gwahanol o’r Gymru wledig, gan ddibynnu ar y ffynhonnell. Er mwyn rhoi eglurhad am y diriogaeth sydd o dan sylw, gwahaniaethir yn y ffordd y disgrifir y data. Pan ddisgrifir data fel data sy'n ymwneud â *siroedd gwledig,* mae'n cyfeirio at ardal y naw awdurdod lleol sy'n aelodau o Fforwm Gwledig CLlLC. Pan ddisgrifir data fel data sy'n ymwneud ag *ardaloedd gwledig,* mae’n cyfeirio fel arfer at ddosbarthiad yr SYG, oni nodir yn wahanol.

[8] *Welsh Index of Multiple Deprivation 2014: A Guide to Analysing Deprivation in Rural Areas*, Erthygl Ystadegol gan StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 2015.




Ffigur 3.2: Teipoleg ardaloedd yng nghefn gwlad Cymru gan ddefnyddio dosbarthiadau'r SYG o fath yr anheddiad a lleoliad.



# 4. Y Gymru Wledig Heddiw

4.1 Mae'r Weledigaeth Wledig yn edrych ymlaen o sefyllfa bresennol y Gymru wledig yn 2020. Mae'r adran hon yn amlinellu tystiolaeth ar waelodlin y Weledigaeth Wledig, gan ddisgrifio nodweddion sosio-economaidd a diwylliannol presennol y Gymru wledig a llwybr y datblygiadau diweddar

## Poblogaeth, Mudo a Demograffeg

4.2 Mae poblogaeth y Gymru wledig yn cynyddu, ond ar gyfradd arafach nag yn gynharach yn y ganrif. Ers 2000, mae poblogaeth gyfunol y naw sir wledig yn bennaf wedi cynyddu 6.8 y cant, ond yn ystod y deng mlynedd diwethaf ers 2009 mae cyfanswm y twf wedi bod yn 1.7 y cant, er bod arwyddion o gynnydd yn y tair blynedd diwethaf ers 2016.[9] Mae patrwm daearyddol newid mewn poblogaeth yn anwastad, gyda'r cynnydd mwyaf yn Sir Fynwy, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, tra bod yr amcangyfrif o boblogaeth Ceredigion yn 2019 yn is na'r hyn a welwyd yn 2000 (Ffigur 4.1 a Thabl 4.1). O ganlyniad, mae'r anghydbwysedd yn y newid yn y boblogaeth wedi cyfrannu at newid bach yn nosbarthiad daearyddol poblogaeth y Gymru wledig tuag at yr ardaloedd gwledig mwyaf hygyrch yn y De.

4.3 Mae'r gwahaniaethau ym mhatrwm daearyddol y newid yn y boblogaeth i'w gweld ymhellach ar lefel wardiau (Ffigur 4.2). Mae nifer sylweddol o wardiau gwledig wedi gweld gostyngiad yn y boblogaeth ers Cyfrifiad 2011, yn arbennig ar hyd glannau bae Ceredigion a Bae Caerfyrddin, ac yn y Canolbarth a rhannau o Fannau Brycheiniog ac Eryri. Mae rhai o'r gostyngiadau mwyaf yn y boblogaeth wedi'u gweld mewn cymunedau ar y glannau sydd â niferoedd cymharol uchel o ail gartrefi a gosodiadau gwyliau, gan gynnwys Abersoch (-14%), Aberdyfi (-12%), ward De Dinbych-y-pysgod (-12%), Cei Newydd (-8%) ac Aberaeron (-6%).[10] Mae'r wardiau â chynnydd sylweddol yn y boblogaeth ers 2011, o 10 y cant neu fwy, yn tueddu i fod yn agos at drefi, gyda'r cynnydd mwyaf mewn ardaloedd ar ymylon trefi gyda datblygiadau tai newydd sylweddol.[11]

4.4 Prif sbardun y cynnydd yn y boblogaeth yn y Gymru wledig dros y degawd diwethaf oedd mudo mewnol o rannau eraill o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig (Ffigur 4.3). Mae newid naturiol yn y boblogaeth (cydbwysedd genedigaethau a marwolaethau) dros y cyfnod hwn wedi bod yn negyddol ac ar lwybr sy'n dwysáu, gyda chyfanswm colled net o bron 20,000 o bobl. Gostyngodd ymfudiad mewnol net yng nghanol y degawd ond mae wedi gwella'n gryf ers 2016 gydag enillion net dros y degawd o fwy na 25,000 o bobl.[12]

4.5 Roedd yr ymfudo rhyngwladol net i'r siroedd gwledig yn fwy na'r ymfudo mewnol net yn 2012-13, 2014-15 a 2015-16, ar ôl bod yn negyddol ar ddechrau'r cyfnod o ddeng mlynedd yn 2009-10. Cyrhaeddodd ymfudo rhyngwladol i'r Gymru wledig ei uchafbwynt yn 2007-08 gyda 4715 yn cyrraedd y siroedd gwledig, yn bennaf yn sgil ymfudo o aelod-wladwriaethau newydd yr UE yng nghanol a dwyrain Ewrop. Cafwyd gostyngiad yn dilyn y dirwasgiad yn 2008, gan aros yn uwch na'r lefelau cyn 2004 ond cafodd ei wrthbwyso gan fwy o allfudo rhyngwladol. Mae ymfudo

[9] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, StatsCymru, 2020.

[10] Sylwch fod y gostyngiadau mwyaf yn y boblogaeth i'w gweld mewn wardiau yn Aberystwyth a Bangor sydd â phoblogaethau mawr o fyfyrwyr ac yn adlewyrchu newidiadau yn nifer y myfyrwyr a ymrestrodd yn y prifysgolion perthnasol.

[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2011: Census small area statistics a 2019 Mid-year Population Estimates for Wards in England and Wales.

[12] Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, StatsCymru, 2020.

rhyngwladol net wedi cynyddu ers 2017 a gyda 3946 o newydd-ddyfodiaid yn y siroedd gwledig yn 2018-19 mae wedi dychwelyd yn agos i'r lefelau a welwyd yng nghanol degawd cyntaf y ganrif.




Ffigur 4.1 : Amcangyfrif canol blwyddyn o boblogaeth siroedd gwledig Cymru, 1995-2019

Ffynhonnell: StatsCymru

| | Newid 10 mlynedd 2010-2019 | Newid 20 mlynedd 2000-2019 | Newid 25 mlynedd 1995-2019 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | +0.3% | +3.2% | +2.4% |
| Gwynedd | +2.8% | +6.7% | +6.0% |
| Conwy | +2.1% | +7.9% | +7.6% |
| Sir Ddinbych | +1.6% | +3.4% | +6.4% |
| Powys | -0.3% | +5.0% | +8.7% |
| Ceredigion | -3.4% | -3.0% | +2.7% |
| Sir Benfro | +3.2% | +11.8% | +12.1% |
| Sir Gaerfyrddin | +3.2% | +9.2% | +10.4% |
| Sir Fynwy | +3.9% | +12.0% | +12.2% |
| **Cyfanswm y Gymru wledig** | **+1.8%** | **+6.8%** | **+8.1%** |

Tabl 4.1: Newid ym mhoblogaeth siroedd gwledig Cymru dros gyfnodau o 10, 20 a 25 mlynedd

Ffynhonnell: StatsCymru




Ffigur 4.2: Newid poblogaeth mewn wardiau gwledig, 2010-2019

(Siroedd gwledig ynghyd â 'wardiau gwledig' sy'n gymwys ar gyfer yr RhDG; sylwch fod ardaloedd cyfun wedi'u defnyddio ar gyfer Ynys Môn oherwydd newidiadau yn y ffiniau. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)




Ffigur 4.3: Cydrannau newid poblogaeth siroedd gwledig Cymru, 2009-2019
Ffynhonnell: StatsCymru

4.6 Mae poblogaeth y Gymru wledig gryn dipyn yn fwy unffurf o ran ethnigrwydd na phoblogaeth Cymru gyfan, ond mae'n dod ychydig yn fwy amrywiol (Tabl 4.2). Cynyddodd y boblogaeth nad yw'n wyn yn y siroedd gwledig o 1.03 y cant yn 2001 i 2.33 y cant yn 2011, ac mae'r boblogaeth wyn ethnig hefyd wedi dod yn fwy amrywiol yn ôl cefndir.[13] Gostyngodd cyfran y trigolion mewn siroedd gwledig a anwyd yng Nghymru o 69.9 y cant yn 2001 i 62.6 y cant yn 2011. Roedd hyn yn adlewyrchu cynnydd bach yn nifer y trigolion a anwyd yn Lloegr, ond cynnydd mwy sylweddol yn nifer y trigolion a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon, o 1.32 y cant yn 2001 i 3.96 y cant yn 2011 (Tabl 4.3).[14] Mae astudiaethau wedi cofnodi cyfraniadau sylweddol ymfudwyr rhyngwladol i gymunedau gwledig a threfi bach, gan gynnwys llenwi swyddi galwedigaethol allweddol, yn ogystal â chymorth cymunedau i ymfudwyr, yn enwedig ffoaduriaid o Syria ar ôl 2015.[15] Er hynny, mae ymchwil hefyd wedi amlygu heriau integreiddio a mynediad at adnoddau diwylliannol ar gyfer ymfudwyr rhyngwladol gwasgaredig mewn rhannau gwledig o Gymru.[16]

4.7 Mae poblogaeth y Gymru wledig yn hŷn o ran proffil nag ardaloedd trefol, ac mae'n dod yn fwy oedrannus. Yn 2019, roedd 25.4 y cant o drigolion y siroedd gwledig yn 65 oed neu'n hŷn, i fyny o 19.6 y cant yn 2000, ac yn cymharu â 18.9 y cant o'r trigolion yn y siroedd nad ydynt yn wledig. Trigolion rhwng 16 a 24 oed oedd 9.5 y cant o drigolion y siroedd gwledig yn 2019, ond 11.4 y cant o drigolion y siroedd nad ydynt yn wledig (Ffigur 4.4). Mae'r anghydbwysedd demograffig tuag at genedlaethau hŷn yn arbennig o amlwg yn y wardiau mwyaf gwledig, gan gynnwys 117 o wardiau lle mae mwy na 30 y cant o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn, yn enwedig yn y Canolbarth ac ar hyd glannau Bae Ceredigion (Ffigur 4.5). Mewn dwy ward, Diserth a Thre-coed ym Mhowys, a Gorllewin Porthmadog yng Ngwynedd, mae mwy na 40 y cant o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Ar y llaw arall, mewn 78 o wardiau mae llai na 10 y cant o'r boblogaeth rhwng 18 a 29 oed, yn enwedig yn ne Powys a rhannau o Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy a Sir Benfro, o'i gymharu â 15.3 y cant o boblogaeth Cymru gyfan (Ffigur 4.6).

[13] Grŵp ethnig yn ôl awdurdod lleol, Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, Ffynhonnell: Nomis.
[14] Gwlad enedigol yn ôl awdurdod lleol, Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, Ffynhonnell: Nomis.
[15] '"It's that kind of place here": Solidarity, place-making and civil society response to the 2015 "refugee crisis" in different localities in Wales, UK' Taulant Guma et al., *Social Inclusion*, cyfrol 7, tt 96-105, 2019.
[16] 'Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig a Chymoedd De Cymru', Arsyllfa Wledig Cymru, 2014.

| | Ardaloedd gwledig | Ardaloedd trefol |
|---|---|---|
| ***Grwp ethnig*** | | |
| Gwyn | 98.37% | 94.23% |
| Ethnigrwydd cymysg | 0.61% | 1.23% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 0.70% | 3.07% |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0.16% | 0.81% |
| Grwp ethnig arall | 0.16% | 0.66% |
| ***Gwlad enedigol*** | | |
| Cymru | 67.39% | 75.24% |
| Gweddill y Deyrnas Unedig | 29.24% | 18.25% |
| Gweddill yr Undeb Ewropeaidd | 1.60% | 2.50% |
| Gweddill y Byd | 1.77% | 4.01% |

Tabl 4.2: Nodweddion poblogaethau gwledig a threfol Cymru, 2011, yn ôl ethnigrwydd a gwlad enedigol (dosbarthiad gwledig-trefol SYG)
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, NOMIS.

| | 2001 | 2011 |
|---|---|---|
| Cymru | 64.9% | 62.6% |
| Lloegr | 30.9% | 31.7% |
| Gweddill y Deyrnas Unedig | 1.3% | 1.3% |
| Iwerddon | 0.5% | 0.5% |
| Aelodau eraill yr UE yn 2001 | 0.8% | 0.8% |
| Gwledydd eraill | 1.6% | 3.1% |
| *Gan gynnwys aelod-wladwriaethau newydd yr UE 2004 a 2007* | | *0.8%* |

Tabl 4.3: Gwlad enedigol trigolion siroedd gwledig Cymru, 2001 a 2011.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, NOMIS

4.8 Mae’r heneiddio yn nemograffeg y Gymru wledig yn deillio o gyfuniad o ddisgwyliad oes hirach, mewnfudwyr sydd wedi ymddeol ac allfudiad pobl iau.[17] Yn y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2011, gwelodd pob sir wledig allfudiad net gan y grŵp 16-24 oed a mewnfudiad net yn y grŵp oedran dros 65 oed, heblaw Ceredigion a Gwynedd lle mae’r ffigurau'n cael eu hystumio gan fyfyrwyr ym mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor (Tabl 4.4). Mae allfudo gan bobl ifanc yn cael ei yrru'n gyffredin gan symud ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gychwynnol, yn ogystal â dyheadau ynglŷn a ffordd o fyw. Canfu ymchwil gan Arsyllfa Wledig Cymru fod llawer o bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn dweud yr hoffent symud yn ôl i'w hardal gartref ar ôl addysg neu hyfforddiant, ond bod argraffiadau ynglŷn a chostau ac argaeledd tai a’r cyfleoedd cyfyngedig am gyflogaeth briodol yn rhwystrau arwyddocaol.[18]

[17] ‘Age-Balanced Communities in Rural Wales: Final Report to the National Assembly for Wales’, Newidiem, 2004.
[18] ‘The Experiences and Aspirations of Young People in Rural Wales’, Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.




Ffigur 4.4: Poblogaeth 65 oed a throsodd mewn wardiau gwledig yng Nghymru, 2019 (Siroedd gwledig ynghyd â 'wardiau gwledig' sy'n gymwys ar gyfer yr RhDG. Ffynhonnell: StatsCymru)




Ffigur 4.5: Poblogaeth 18 i 29 oed mewn wardiau gwledig yng Nghymru, 2019 (Siroedd gwledig ynghyd â 'wardiau gwledig' sy'n gymwys ar gyfer yr RhDG. Ffynhonnell: StatsCymru)

| | Grŵp Oedran 16-24 | | | Grŵp Oedran 65+ | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewnlif | All-lif | Net | Mewnlif | All-lif | Net |
| Sir Gaerfyrddin | 1582 | 1758 | -176 | 434 | 328 | +106 |
| Ceredigion | 4209 | 1947 | +2262 | 318 | 230 | +88 |
| Conwy | 867 | 1222 | -355 | 677 | 353 | +324 |
| Sir Ddinbych | 847 | 1146 | -299 | 352 | 315 | +37 |
| Gwynedd | 3112 | 2079 | +1033 | 636 | 288 | +348 |
| Ynys Môn | 579 | 702 | -123 | 297 | 197 | +100 |
| Sir Fynwy | 717 | 1361 | -644 | 371 | 254 | +117 |
| Sir Benfro | 821 | 1285 | -464 | 408 | 291 | +117 |
| Powys | 984 | 1662 | -678 | 632 | 433 | +199 |

Tabl 4.4: Ymfudo i mewn ac allan o siroedd gwledig Cymru ymysg y grwpiau oedran 16-24 a 65+, Ebrill 2010-Ebrill 2011. Ffynhonnell: NOMIS (Data Cyfrifiad 2011)

4.9 Mae mewnfudo i'r Gymru wledig ar ôl ymddeol yn ffenomen sefydledig ac yn un sy'n cael ei gysylltu'n gyffredin â phryderon ynghylch mwy o faich cymharol ar wasanaethau'r Awdurdodau Lleol a darparwyr eraill. Caiff hyn ei fynegi'n aml yn nhermau ateb galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd ac yn enwedig yn y mannau gwledig mwyaf anghysbell a 'dwfn'. Felly, daeth corff cynyddol o ymchwil i gydnabod yr angen i ddatblygu ymatebion polisi cynnil i'r ffenomenon 'cefn gwlad llwyd' sy'n cynnwys ateb anghenion cynyddol gymhleth pobl hŷn yng nghefn gwlad, ond sydd hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi'r amrywiaeth o gyfraniadau y mae pobl hŷn yn eu gwneud i gymunedau gwledig. Yn y modd hwn, nodwyd bod pobl hŷn ac ymfudwyr hŷn yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynnal a datblygu sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn galluoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r cyfraniadau hyn yn dibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys amser a phrofiad, ac yma mae mewnfudwyr gwledig wedi'u cydnabod fel ffynhonnell gwybodaeth, arbenigedd ac arloesedd.[19]

## Strwythur yr Economi a Chyflogaeth

4.10 Cymysg yw strwythur economaidd y Gymru wledig, heb un diwydiant blaenllaw. Mae rhyw un rhan o bump o fentrau'r siroedd gwledig yn gweithredu yn y categorïau 'cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu' a 'gwasanaethau ariannol a busnes' yn y drefn honno, gydag 16.5 y cant mewn adeiladu a 14.6 y cant mewn amaethyddiaeth (Ffigur 4.6). Er hynny, mae'r ffigurau hyn wedi'u hystumio am nad yw'r sector cyhoeddus wedi'i gynnwys ac oherwydd maint bach llawer o fentrau yn y sectorau amaethu, adeiladu a manwerthu. O ran cyflogaeth, mae dros dri chwarter y gweithlu a gyflogir yn y siroedd gwledig yn gweithio mewn diwydiannau gwasanaethu, gyda llai nag un rhan o ddeg yn gweithio ym maes amaethyddiaeth, adeiladu a chynhyrchu (Tabl 4.5)

[19] 'Practices of participation and voluntarism amongst older people in rural Wales', Laura Jones a Jesse Heley, *Sociologia Ruralis*, 2015; 'Community, rurality and older people: critically comparing older people's experiences across different rural communities', Shane Doheny a Paul Milbourne, *Journal of Rural Studies*, 2017; 'The impact of residential immobility and population turnover on the support networks of old people living in rural areas. Evidence from CFAS Wales', Vanessa Burholt ac Alexandra Sardani, *Population, Space and Place*, 2018.




Ffigur 4.6: Mentrau yn siroedd gwledig Cymru yn ôl diwydiant, 2019.
Ffynhonnell: Cofrestr Busnesau Rhyng-adrannol yr SYG, drwy StatsCymru.

| | Siroedd gwledig | | Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Canran |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 35,000 | 7.4% | 2.8% |
| Cynhyrchu | 41,300 | 8.75% | 11.4% |
| Adeiladu | 37,300 | 7.9% | 7.0% |
| Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd | 123,300 | 26.1% | 23.9% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 7,100 | 1.5% | 2.2% |
| Gwasanaethau ariannol ac yswiriant | 4,900 | 1.0% | 2.4% |
| Gwasanaethau eiddo tiriog | 10,000 | 2.1% | 1.7% |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 48,700 | 10.3% | 12.9% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd | 138,000 | 29.2% | 29.9% |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 28,100 | 6.0% | 5.6% |

Tabl 4.5: Y diwydiant sy’n cyflogi’r boblogaeth yn siroedd gwledig Cymru, 2019
Ffynhonnell: Arolwg Cyflogaeth Cofrestr Busnes yr SYG, drwy StatsCymru.

4.11 Mae economi'r Gymru wledig yn pwyso'n drwm ar feicrofusnesau. Mae gan fwy na naw o bob deg menter sy'n gweithredu yn y siroedd gwledig lai na 10 o weithwyr, ac mae'r busnesau hyn yn cyflogi bron hanner gweithwyr y siroedd gwledig ac yn cyfrannu rhyw un rhan o saith o gyfanswm trosiant busnes. Er nad yw dosbarthiad maint mentrau’r siroedd gwledig yn annhebyg i'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan, mae cyfran y gyflogaeth a briodolir i feicrofusnesau gryn dipyn yn uwch yn y siroedd gwledig nag yn yr ardaloedd trefol.[20] Mae arwyddocâd meicrofentrau yn amrywio rhwng siroedd y Gymru wledig. Maen nhw’n fwyaf amlwg yng Ngheredigion a Phowys, gyda chyflogaeth mewn mentrau mawr (dros 250 o weithwyr) yn uwch yn Sir Gaerfyrddin a mentrau

[20] Mentrau yn ôl band maint, ardal a blwyddyn, StatsCymru.

mawr yn cyfrannu'r rhan fwyaf o drosiant busnes yn Sir Benfro (Tabl 4.6).[21] Mae'r gwyriad tuag at feicrofusnesau yn y siroedd gwledig yn adlewyrchu lefel iach o entrepreneuriaeth ac yn darparu rhywfaint o wydnwch gyda llai o niwed i benderfyniadau gan gorfforaethau mawr, ond mae meicrofentrau yn fwy cyfyngedig o ran eu gallu i fuddsoddi cyfalaf, uwchraddio offer a phrosesau, ehangu swyddi'n sylweddol a darparu cyfleoedd hyfforddi.

4.12 Mae rhyw un o bob chwe gweithiwr yn siroedd gwledig Cymru yn hunangyflogedig (17.4 y cant), o'i gymharu â 14 y cant o weithlu Cymru yn gyffredinol. Mae hunangyflogaeth yn arbennig o uchel yng Ngheredigion (28.1 y cant o'r gweithlu), Powys (25.2 y cant) a Gwynedd (22.0 y cant).[22]

4.13 Bu nifer y busnesau newydd sydd wedi'u creu ('genedigaethau busnes') yn siroedd gwledig Cymru yn uwch na'r nifer a gaewyd ('marwolaethau busnes') am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf, gyda 38,380 o fentrau gweithredol yn 2019, sef cynnydd o 3.6 y cant ers 2010 (Ffigur 4.7). Mae mwy o fentrau gweithgar o'u cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio yn siroedd gwledig Cymru nag yn yr ardaloedd trefol, gyda'r cyfraddau uchaf ym Mhowys (770 o fentrau i bob 10,000 o drigolion o oedran gweithio), Sir Fynwy (765 o fentrau i bob 10,000 o drigolion o oedran gweithio) a Sir Benfro (697 o fentrau i bob 10,000 o drigolion o oedran gweithio).[23]

4.14 Yn y rhan fwyaf o siroedd gwledig Cymru, mae cynhyrchiant fel y'i mesurir yn ôl Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen, yn is nag yn yr ardaloedd trefol, ond roedd wedi bod ar gynnydd drwy'r degawd diwethaf (Ffigur 4.8). O'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, roedd GVA y pen yn 2018 yn amrywio o 52.7 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn Ynys Môn i 78.0 y cant yn Sir Fynwy, gyda dim ond Gwynedd a Sir Fynwy yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (Ffigur 4.9). Mae lefelau cynhyrchiant is yn ardaloedd gwledig Cymru wedi'u priodoli i strwythur yr economi, sy'n gwyro tuag at fusnesau llai, sydd â mwy o amaethyddiaeth yn bresennol ynddo, ac sy'n ymylol o ran ei leoliad.24 Mae gwaith dadansoddi ar gyfer Panel Cynghori Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cymru yn dangos bod yna ostyngiad o 0.7 y cant ar gyfartaledd yng nghynhyrchiant ffyrmiau am bob cynnydd o 10 y cant mewn amser teithio i gytrefi mawr y Deyrnas Unedig.[25]

---

[21] Sylwch mai ffigurau ar gyfer pob menter sy'n gweithredu o fewn ardal yr awdurdod lleol yw'r ffigurau yn Nhabl 4.6. Gan fod rhai mentrau'n weithredol mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol, does dim modd agregu'r ffigurau'n uniongyrchol.

[22] Statws personau cyflogedig yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur, y flwyddyn i fis Mehefin 2020. StatsCymru.

[23] Ystadegau demograffeg busnes, StatsCymru.

[24] 'Firm perfromance in Wales – an analysis of productivity using company accounts', Catherine Robinson et al., Cyfres Papurau Gwaith WISERD, WISERD/WPS/007, 2012.

[25] 'Productivity in Wales: the impacts of peripherality on spatial patterns of productivity', Martin Boddy, Adroddiad i'r Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010.

| | Nifer y mentrau | | | | Cyfran o gyflogaeth | | | | Cyfran o drosiant busnes | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meicro 0-9 | Bach 10-49 | Canolig 50-249 | Mawr 250+ | Meicro 0-9 | Bach 10-49 | Canolig 50-249 | Mawr 250+ | Meicro 0-9 | Bach 10-49 | Canolig 50-249 | Mawr 250+ |
| Ynys Môn | 94.2% | 3.2% | 0.7% | 1.9% | 45.9% | 18.6% | 9.1% | 26.4% | 20.9% | 18.1% | 11.3% | 49.6% |
| Gwynedd | 94.6% | 3.1% | 0.7% | 1.6% | 44.1% | 16.1% | 10.9% | 28.8% | 20.4% | 14.2% | 21.1% | 44.3% |
| Conwy | 91.0% | 4.7% | 1.3% | 3.0% | 39.1% | 20.2% | 13.0% | 27.7% | 21.4% | 25.4% | 11.7% | 41.4% |
| Sir Ddinbych | 92.7% | 4.2% | 1.0% | 2.1% | 41.6% | 20.5% | 11.4% | 26.8% | 21.4% | 19.1% | 14.1% | 45.4% |
| Ceredigion | 94.5% | 3.2% | 0.6% | 1.7% | 50.2% | 18.1% | 8.0% | 23.7% | 29.2% | 21.2% | 10.4% | 39.3% |
| Powys | 95.5% | 2.7% | 0.7% | 1.1% | 53.1% | 17.0% | 10.6% | 19.3% | 31.1% | 17.4% | 14.4% | 37.1% |
| Sir Benfro | 94.1% | 3.7% | 0.8% | 1.4% | 48.5% | 20.4% | 11.5% | 19.4% | 6.1% | 3.6% | 10.1% | 80.2% |
| Sir Gaerfyrddin | 93.2% | 3.9% | 1.0% | 1.9% | 40.8% | 17.2% | 11.8% | 30.3% | 21.3% | 21.3% | 13.9% | 51.3% |
| Sir Fynwy | 95.0% | 2.7% | 0.8% | 1.5% | 47.0% | 15.1% | 11.4% | 26.2% | 17.3% | 12.3% | 14.5% | 55.8% |
| *Cymru gyfan* | *95.0%* | *3.6%* | *0.8%* | *0.6%* | *34.9%* | *15.2%* | *12.4%* | *37.6%* | *13.0%* | *11.1%* | *13.7%* | *62.1%* |

Tabl 4.6: Maint y mentrau yn gweithredu mewn siroedd gwledig, 2019, yn ôl nifer, cyfran o gyflogaeth a chyfran o drosiant busnes.
Ffynhonnell: StatsCymru, Mentrau yn ôl Band Maint, Ardal a Blwyddyn.




Ffigur 4.7: Genedigaethau busnes a marwolaethau busnes yn siroedd gwledig Cymru, 2010-2019
Ffynhonnell: Ystadegau demograffeg busnes, StatsCymru.




Ffigur 4.8: Cynhyrchiant (GVA y pen, £) siroedd gwledig Cymru, 2011, 2015 a 2018
Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol yr SYG, drwy StatsCymru.




Ffigur 4.9: Cynhyrchiant (GVA y pen, £) siroedd gwledig Cymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, 2018
Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol yr SYG, drwy StatsCymru.

4.15 Y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am 27.2 y cant o gyflogaeth siroedd gwledig Cymru, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (27.6 y cant), ond gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig (22.2 y cant). Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth yn Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill y llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol (gan gynnwys ysgolion) a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ynghyd â galwedigaethau milwrol a chyflogaeth mewn prifysgolion yn Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Mae arwyddocâd cyflogaeth y sector cyhoeddus yn amrywio rhwng y siroedd, gyda'r cyfraddau uchaf yn Sir Gaerfyrddin (32.0 y cant), Ceredigion (30.9 y cant), Ynys Môn (30.7 y cant) a Gwynedd (30.2 y cant).[26] Gall lefel uchel o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus roi swyddi sefydlog, medrus sy'n talu'n dda mewn ardaloedd gwledig, gyda llai o amlygiad i bwysau'r farchnad, ond gall hefyd chwyddo effaith gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a all effeithio ar gymunedau gwledig, megis torri gwasanaethau a cholli cyflogaeth.[27]

4.16 Er bod lefelau cymwysterau unigolion sy'n byw yn y rhan fwyaf o'r Gymru wledig yn gymharol uchel, mae yna bryderon ynghylch paru sgiliau'r gweithlu ag anghenion busnesau, ac yn enwedig felly anghenion diwydiannau sy'n dechrau dod i'r amlwg.[28] Mae'n amlwg bod angen strategaeth sgiliau bwrpasol ar gyfer y Gymru wledig, gan fod y ddarpariaeth a'r adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn dameidiog ac yn anghyflawn ar hyn o bryd fesul sector ac ardal. Gwelodd arolwg o fusnesau'r siroedd gwledig gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2013 fod 53 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno ei bod yn anodd recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol.[29] Mae maint bach cyfartalog y mentrau gwledig ac absenoldeb cymharol clystyru o fentrau tebyg yn lleihau cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn gwaith ac yn cynyddu costau hyfforddiant mewn gwaith. Mae rhai bylchau

[26] 'Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru', y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2020, StatsCymru.
[27] 'Arwyddocâd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru', Catherine Walkley et al., Arsyllfa Wledig Cymru, 2006.
[28] 'Lefel uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl awdurdod lleol', y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2020, StatsCymru.
[29] 'Arolwg Busnes Gwledig 2013', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.

llafur wedi'u llenwi drwy recriwtio'n rhyngwladol – ar gyfer swyddi gwag medrus arbenigol ac ar gyfer swyddi â chyflog isel gyda nifer cyfyngedig o bobl yn manteisio arnynt yn lleol – gan gynnwys o ganol a dwyrain Ewrop ar ôl ehangu'r UE yn 2004, yn enwedig mewn prosesu bwyd, adeiladu, lletygarwch, iechyd a gofal cymdeithasol a rhai meysydd gweithgynhyrchu.[30]

4.17 Mae anghenion am sgiliau newydd wedi'u nodi hefyd mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu economaidd a nodir yn y cytundebau twf rhanbarthol, gan gynnwys biotechnoleg a thechnoleg werdd. Mae'r diwydiannau amddiffyn hefyd wedi'u nodi fel sector twf yn y Gymru wledig gyda gofynion sgiliau penodol, ac mae'r rhanbarth yn gymharol addas ar gyfer hyfforddiant a phrofion ymchwil, yn enwedig o ran gofod awyr diogel. Bydd twf yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gadwyni contractio a chyflenwi arbenigol, a bydd yn debygol o glystyru o amgylch canolfannau sy'n bodoli eisoes ym Mharc Aber-porth, Ceredigion, ac Ardal Hyfforddi ac Ysgol Brwydrau Troedfilwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhowys. Er mwyn llawn wireddu'r manteision a ddaw i'r poblogaethau lleol o fuddsoddi yn y sectorau hyn, mae dadansoddiad cwmpasu wedi dangos bod angen hyfforddiant mewn sgiliau dylunio, sgiliau peirianneg a sgiliau technegol i'r gweithlu lleol er mwyn lleihau dibyniaeth ffyrmiau technoleg uwch ar gymudwyr pellter hir a mewnfudwyr yn gysylltiedig â swyddi.[31]

## Amaethyddiaeth a'r Sector Bwyd

4.18 Yn draddodiadol, amaethyddiaeth sydd wrth wraidd bywyd gwledig Cymru ac mae'n dal yn bwysig yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae cyflogaeth uniongyrchol mewn amaethyddiaeth wedi gostwng yn sgil mecaneiddio a chydgrynhoi ffermydd ac yn 2018 roedd yn gyfrifol am 7.4 y cant o gyflogaeth yn siroedd gwledig Cymru.[32] Er hynny, mae cyflogaeth amaethyddol gryn dipyn yn uwch ym Mhowys (15.7 y cant) a Cheredigion (12.0 y cant), ac mae 14 ward lle roedd cyflogaeth mewn amaethyddiaeth, ynni a dŵr yn fwy nag 20 y cant o'r boblogaeth gwaith yn 2011 (Ffigur 4.10).[33]

4.19 Yn yr un modd, cyfrannodd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota 1.1 y cant o GVA Cymru (£693 miliwn) yn 2018, a 3.5 y cant o'r GVA yn y siroedd gwledig, ac eithrio Sir Fynwy,[34] ond nododd Llywodraeth Cymru ei fod yn ddiwydiant sy'n economaidd weithgar drwy ei wariant.[35] Cyfrifwyd bod gwariant canolradd amaethyddiaeth Cymru ar fewnbynnau a gwasanaethau yn £1138 miliwn yn 2017. Mae hyn yn cynnwys bwydydd anifeiliaid, peiriannau, gwrteithiau, llafur a gwasanaethau contract, gwasanaethau milfeddygol a meddygol a chynnal a chadw ffermydd. Mae ffermydd Cymru fel arfer yn prynu dros 80 y cant o'r mewnbynnau a'r gwasanaethau yn eu hardal leol,[36] a dywedodd traean o'r ffermwyr ucheldir a arolygwyd gan NFU Cymru yn 2020 eu

---

[30] 'Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig a Chymoedd De Cymru', Laura Jones a John Lever, Arsyllfa Wledig Cymru, 2014

[31] 'Growing Mid Wales: Evidence Based Programmes of Intervention Baseline Report.' AECOM ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, 2018.

[32] Sylwch mai ffigurau ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yw'r ffigurau a ddyfynnir, er mai amaethyddiaeth yw elfen fwyaf y categori hwn. Ffynhonnell: 'Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang', 2018, StatsCymru.

[33] Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS. Sylwch fod y 14 ward yn cynnwys cyn ward Mechell ar Ynys Môn, a'i bod yn debygol mai cyflogaeth yn atomfa'r Wylfa yw'r gydran fwyaf yn y categori hwn.

[34] 'Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardaloedd NUTS3 yng Nghymru a diwydiant', 2018, StatsCymru. Mae Sir Fynwy wedi'i heithrio am fod ei data'n cael ei agregu gyda Chasnewydd.

[35] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019.

[36] 'Dadansoddiad o Effaith Economaidd Gymdeithasol Diwygiadau i'r PAC ar Gefn Gwlad Cymru', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.

bod yn prynu oddi wrth rhwng 21 a 50 o fusnesau.[37] Mae cyfraniad ehangach amaethyddiaeth i economi Cymru yn cael ei ddisgrifio gan luosyddion economaidd Math II, sydd wedi'u dynodi fel 1.54 ar gyfer allbwn ac 1.21 ar gyfer cyflogaeth.[38]




Ffigur 4.10: Wardiau yng Nghymru â mwy na 10% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth neu bysgota, 2011.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.

4.20 Ffermio da byw sydd amlycaf yn amaethyddiaeth Chymru, gyda 58 y cant o ddaliadau fferm yn magu gwartheg biff neu ddefaid a 7 y cant arall yn gweithredu fel ffermydd llaeth (Tabl 4.7). Mae strwythur amaethyddiaeth Cymru yn cael ei bennu'n bennaf gan amodau'r amgylchedd a'r tir, ond mae'r nifer cymharol fach o ddaliadau âr a garddwriaethol yn cyfyngu ar hunangynhaliaeth Cymru o ran cynhyrchu bwyd ac yn cynyddu amlygiad sector ffermio Cymru i'r tueddiadau a ragwelir mewn da byw tuag at lai o gig a llaeth a goblygiadau hynny ar gyfer y farchnad.

4.21 Mae'r mwyafrif o ddaliadau fferm Cymru yn perthyn i'r dosbarth 'bach iawn', gyda throsiant blynyddol o lai na €25,000. Ffermydd bach iawn yw 58 y cant o ddaliadau fferm Cymru, ond dim ond 14 y cant o'r tir a ffermir, a llai na 6 y cant o gyfanswm trosiant ffermydd. Rheolir yr elfen fwyaf o dir a ffermir, 42 y cant gan 'ffermydd bach' â rhwng €25,000 a €125,000 o drosiant, tra bo traean o gyfanswm trosiant y fferm yn cael ei gyfrannu gan y 500 o ffermydd mawr iawn (2 y cant o ddaliadau fferm) sydd â throsiant blynyddol o fwy na €500,000.[39]

[37] 'Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru', NFU Cymru, 2020.
[38] Ibid.
[39] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019 (y ffigurau o Arolwg Amaethyddol Cymru 2016).

| Math o Fferm | Nifer | % o gyfanswm y daliadau fferm | % sy'n 'fach iawn' (trosiant < €25k) |
|---|---|---|---|
| Gwartheg a defaid (ALFf ac iseldir) | 14,310 | 58.3% | 46.0% |
| Llaeth | 1,703 | 6.9% | 7.2% |
| Cymysg | 1,165 | 4.7% | 67.0% |
| Dofednod arbenigol | 1,163 | 4.7% | 88.5% |
| Garddwriaeth | 839 | 3.4% | 77.2% |
| Grawnfwydydd | 379 | 1.5% | 29.3% |
| Ffermydd moch arbenigol | 262 | 1.1% | 96.6% |
| Cnydau cyffredinol | 152 | 0.6% | 33.6% |
| Eraill | 4,577 | 18.6% | 96.3% |
| Pob math o fferm | 24,550 | 100.0% | 57.6% |

Tabl 4.7: Daliadau fferm yng Nghymru, 2017, yn ôl y math o fferm
Ffynhonnell: Arolwg Amaethyddol Cymru 2017, drwy StatsCymru.

4.22 Mae incwm cyfartalog busnesau fferm yng Nghymru wedi amrywio ers dechrau'r ganrif yn fras rhwng £25,000 a £40,000 y flwyddyn, yn ôl prisiau 2017-18.[40] Mae incwm cyfartalog yn sylweddol uwch yn y sector llaeth nag ar ffermydd defaid a gwartheg, ond maent hefyd wedi bod yn fwy amrywiol o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2018-19, incwm cyfartalog busnesau fferm ar gyfer ffermydd llaeth yr iseldir oedd £52,080 o'i gymharu â £24,765 ar ffermydd defaid mynydd a £18,477 ar ffermydd gwartheg a defaid yr ucheldir (Ffigur 4.11). Gostyngodd yr incwm o'i gymharu â 2017-18 ar draws yr holl gategorïau o ffermydd defaid, gwartheg a llaeth, ac eithrio ffermydd gwartheg a defaid yr iseldir, gyda gostyngiad o 42 y cant mewn incwm ar gyfer ffermydd llaeth ar dir isel.[41]

4.23 Mae incwm ffermydd yn dod o bedair ffynhonnell: incwm sy'n seiliedig ar y farchnad ar weithgareddau amaethyddol, incwm o weithgareddau amrywiol (anamaethyddol), taliadau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol, a Chynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)/Cynllun y Taliad Sengl.[42] Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr o'r farn mai gweithgareddau'r farchnad yw eu ffynhonnell incwm bwysicaf,[43] ond mae data'r Arolwg Busnesau Fferm yn dangos mai'r BPS yw'r gyfran fwyaf o incwm fferm nodweddiadol yng Nghymru (heblaw ffermydd llaeth) (Tabl 4.8). Heb dderbyniadau'r BPS, byddai incwm cyfartalog ffermydd yn 2016-17 yn gostwng o £24,502 i £5,146. Dywedodd rhyw 15 y cant o'r ffermydd eu bod wedi gwneud colled gyffredinol yn 2017-18, ond gwnaeth tua 40 y cant golled ar weithgarwch amaethyddol yn unig.[44] Yn ôl astudiaeth gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2013 nododd un rhan o bump o ffermwyr y byddent yn gadael ffermio pe bai taliadau cymhorthdal uniongyrchol yn gostwng 20 y cant neu fwy, a byddai 9 y cant arall o ffermwyr yn lleihau eu gweithgareddau amaethyddol.[45]

[40] Ibid.
[41] Arolwg Busnesau Fferm Cymru, 2018-19, Prifysgol Aberystwyth.
[42] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019.
[43] 'Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru', NFU Cymru, 2020.
[44] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019 (y data o'r Arolwg Busnes Ffermydd).
[45] 'Dadansoddiad o Effaith Economaidd Gymdeithasol Diwygiadau i'r PAC ar Gefn Gwlad Cymru', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.




Ffigur 4.11: Incwm busnes fferm cyfartalog yng Nghymru yn ôl y math o fferm, 2017-18 a 2018-19
Ffynhonnell: Arolwg Busnesau Fferm 2018-19

| Incwm cyfartalog o: | Pob fferm | Ffermydd llaeth | Gwartheg a defaid ALFf |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau amaethyddol | £ 5,900 | £ 62,400 | - £ 5,200 |
| Gweithgareddau arallgyfeirio | £ 3,200 | £ 1,600 | £ 3,100 |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol | £ 4,900 | £ 1,700 | £ 6,300 |
| Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) | £ 20,500 | £ 16,700 | £ 22,700 |

Tabl 4.8: Incwm fferm cyfartalog yng Nghymru o'r prif gydrannau, 2017-18, yn ôl y math o fferm
Ffynhonnell: 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru 2019

4.24 Mae prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod yn cyflogi 24,315 o bobl mewn ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru ac roedd ganddynt drosiant o £5.2 biliwn yn 2019, gan gyfrannu £1.6 biliwn i GVA Cymru yn 2017. O fewn y sector, roedd prosesu cig a chynhyrchion cig yn cyflogi 5,380 o bobl ar draws 65 o unedau busnes yn 2019, gyda throsiant o £1.2 biliwn yn 2019 a chyfraniad o £355 miliwn i GVA yn 2017. Mae prosesu llaeth yn cyflogi 1,535 o bobl ar draws 55 o unedau busnes, gyda throsiant o £611 miliwn yn 2019 a chyfrannodd £116 miliwn i GVA yn 2017.[46]

4.25 Mae 384 o safleoedd trwyddedig ar gyfer prosesu, pacio a storio bwyd yng Nghymru, ac mae 238 ohonynt mewn siroedd gwledig (62 y cant) (Ffigur 4.12). Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd torri cig a lladd-dai, gweithfeydd prosesu ar gyfer cig, cynnyrch llaeth a physgod, safleoedd pacio a storfeydd oer. Mae tua dwy ran o dair o'r unedau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd yn cael eu dosbarthu fel meicro-fentrau gyda 10 neu lai o weithwyr, ond mae'r rhan fwyaf o'r gyflogaeth wedi'i chanoli mewn nifer o gwmnïau mwy.

[46] 'Arfarniad Economaidd o Sector Bwyd a Diod Cymru – Diweddariad 2019', Bwyd a Diod Cymru, 2019.




Ffigur 4.13: Safleoedd Prosesu Bwyd Trwyddedig yng Nghymru
Ffynhonnell: Asiantaeth Safonau Bwyd. Y data'n gywir ar 20 Tachwedd 2020.

4.26 Cyfanswm allforion bwyd, diod ac anifeiliaid byw o Gymru oedd £537 miliwn yn 2018, gan wneud 3.0 y cant o'r holl allforion o Gymru yn ôl gwerth. Roedd hyn yn gynnydd o 47.5 y cant mewn gwerth allforio ers 2015 i'r sector, yn ogystal â chynnydd yn y gyfran o gyfanswm allforion Cymru.[47] O fewn y sector, roedd allforion cig a chynhyrchion cig o Gymru yn werth £121 miliwn yn 2019, ond mae'r ffigur hwn yn is na gwerth cyfunol allforion 'cig eidion yn tarddu o Gymru' a 'chig oen yn tarddu o Gymru' (£187.5 miliwn), sy'n dangos gwerth o Gymru ar hyd y gadwyn gyflenwi.[48] Mae'r diwydiant ffermio defaid yn arbennig yn gwyro at o allforio. Dim ond 5 y cant o'r cig o ŵyn a godir yng Nghymru sy'n cael ei fwyta yng Nghymru, gyda 55-60 y cant yn cael ei werthu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a 35-40 y cant yn cael ei allforio, yn bennaf i'r Undeb Ewropeaidd.[49] Cododd cyfanswm gwerth allforion cig oen o Gymru o £57 miliwn yn 2004 i £124 miliwn yn 2017, gyda chymorth gwerth ychwanegol y dynodiad PGI.[50] Mae statws PGI a thargedu marchnadoedd arbenigol hefyd wedi cefnogi twf mewn allforion bwyd a diod 'premiwm' eraill sydd wedi'u gwreiddio yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys dŵr potel.[51]

4.27 Cafwyd diddordeb yn ddiweddar mewn adfywio rhwydweithiau bwyd lleol yng Nghymru, gydag ehangu yn y mentrau gan gynnwys marchnadoedd ffermwyr, gwerthu'n uniongyrchol, peiriannau gwerthu llaeth, cynlluniau amaethyddol cymunedol a gerddi cymunedol, yn ogystal ag mewn prosesu ar ffermydd ac oddi ar ffermydd ar raddfa fach ac ym maes caffael bwyd lleol

[47] 'Gwerth allforion o Gymru yn ôl chwarter a chynnyrch', StatsCymru, 2020.
[48] 'Arfarniad Economaidd o Sector Bwyd a Diod Cymru – Diweddariad 2019', Bwyd a Diod Cymru, 2019
[49] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019.
[50] Ibid.
[51] 'Welsh food and drink take centre stage at international trade event', Welsh Country, 2018.

yn y sector cyhoeddus.[52] Ond, mae cyfyngiadau o ran capasiti prosesu Cymru yn rhwystr sylweddol i atal twf marchnadoedd bwyd sy'n tarddu o Gymru, yn enwedig o ran cig a llaeth.[53] Dim ond hanner y llaeth a gynhyrchir yng Nghymru sy'n cael ei brosesu yng Nghymru, gyda'r gweddill yn cael ei gludo i Loegr.[54] Mae'r cydbwysedd yn debygol o fod wedi symud ymhellach tuag at brosesu yn Lloegr yn sgil cau Llaethdy Tomlinson yn Wrecsam ym mis Hydref 2019, sydd wedi arwain un archfarchnad i roi'r gorau i farchnata llaeth ffres sy'n tarddu o Gymru'n benodol. Amcangyfrifir bod cludo llaeth i Loegr i'w brosesu yn codi cost llaeth o Gymru un geiniog y litr.[55]

## Twristiaeth

4.28 Cyfrannodd y sector twristiaeth amcangyfrif o £5412.26 miliwn o incwm i siroedd gwledig Cymru yn 2018, heb newid i raddau helaeth ers 2017. Mae hyn yn gyfystyr â 58 y cant o effaith economaidd twristiaeth yng Nghymru gyfan. Ymwelodd cyfanswm o 41,853 o dwristiaid â siroedd gwledig Cymru yn 2018, am gyfanswm cyfunol o 101,576 o ddiwrnodau ymwelwyr a gwario £53.28 am bob diwrnod ymwelydd ar gyfartaledd.[56]

4.29 Y cyrchfannau mwyaf poblogaidd ar gyfer twristiaeth yn y Gymru wledig yw Gwynedd, Conwy, Sir Benfro a Phowys, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am bron dwy ran o dair o'r holl ddiwrnodau ymwelwyr mewn siroedd gwledig. Roedd y gwariant cyfartalog fesul diwrnod ymwelwyr yn 2018 yn amrywio'n sylweddol o £40.48 yng Ngheredigion i £78.33 ym Mhowys (Tabl 4.9).[57] Gan hynny, mae pwysau a manteision twristiaeth yn y Gymru wledig wedi'u crynhoi'n eithaf dwys.

4.30 Roedd twristiaeth yn cefnogi tua 76,109 o swyddi CALl yn siroedd gwledig Cymru yn 2018, neu oddeutu 16 y cant o gyfanswm y swyddi. Roedd hyn yn cynnwys 25 y cant o swyddi yng Nghonwy, 23.6 y cant yng Ngwynedd, 21.4 y cant yn sir Benfro, a 19.2 y cant ym Mhowys.[58] Mae Ffigur 4.13 yn dangos cyflogaeth yng nghategori eang y diwydiant dosbarthu, gwestai a bwytai fesul ward mewn siroedd gwledig yn 2011 fel procsi bras ar gyfer cyflogaeth mewn twristiaeth. Mae'r data hwn yn cynnwys cyflogaeth mewn manwerthu a chyfanwerthu cyffredinol nad yw'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth ac felly mae Ffigur 4.13 yn dangos cyfraddau cyflogaeth uchel yn y sector mewn canolfannau gwasanaeth trefol, ond mae hefyd yn dangos arwyddocâd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd ar y glannau yn y Gymru wledig a rhai ardaloedd mewndirol yn Eryri a Phowys. Ceir rhai o'r cyfraddau cyflogaeth uchaf yn y sector 'dosbarthu, gwestai a bwytai' mewn wardiau sy'n cynnwys cyrchfannau ar y glannau gan gynnwys Abersoch (39.7 y cant), De Dinbych-y-pysgod (38.1 y cant), Abermaw (37.7 y cant), Ceinewydd (36.7 y cant), Porthmadog-Tremadog (35.2 y cant) a Llandudno (cyfanswm o 35.0 y cant), yn ogystal â ward Betws-y-coed yn Eryri (38.5 y cant).[59]

---

[52] 'How Local is Local? Rethinking Local Food and the Public Plate in Monmouthshire, Wales', prosiect ROBUST 2020; 'A Welsh Food System Fit for Future Generations', Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ar ran WWF Cymru, 2020; 'Selling places: a community-based model for promoting local food. The case of Rhondda Cynon Taf', Robert Bowen a Sophie Bennett, *Journal of Place Management and Development*, 2019; ''Exploring the potential of local food and drink entrepreneurship in rural Wales', Eifiona Thomas Lane et al., *Local Economy*, 2016.

[53] 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018.

[54] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019

[55] Llywodraeth Cymru

[56] Data STEAM ar gyfer Cymru 2018, GTS (UK) Ltd.

[57] Ibid.

[58] Ibid.

[59] Diwydiant yn ôl rhyw, Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.

| | Effaith economaidd £m | Niferoedd ymwelwyr miloedd | Diwrnodau ymwelwyr miloedd | Gwariant yr ymwelydd y diwrnod £ | Cyfanswm cyflogaeth CALl |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 310.65 | 1703 | 5787 | £53.68 | 3975 |
| Sir Gaerfyrddin | 441.80 | 3279 | 6336 | £69.73 | 6176 |
| Ceredigion | 330.94 | 2737 | 8176 | £40.48 | 5384 |
| Conwy | 904.37 | 9389 | 17487 | £51.72 | 11808 |
| Sir Ddinbych | 509.01 | 5870 | 11568 | £44.00 | 6108 |
| Gwynedd | 1118.65 | 7371 | 22527 | £49.66 | 15568 |
| Sir Fynwy | 218.93 | 2241 | 3084 | £70.98 | 2989 |
| Sir Benfro | 713.41 | 4577 | 15574 | £45.81 | 12439 |
| Powys | 864.50 | 4686 | 11037 | £78.33 | 11662 |
| *Cymru wledig* | *5412.26* | *41813* | *101576* | *£53.28* | *76109* |

Tabl 4.9: Data twristiaeth siroedd gwledig yn 2018, o'i amcangyfrif drwy fethodoleg STEAM.
Ffynhonnell: Data STEAM ar gyfer Cymru, 2018, GTS (UK) Ltd




Ffigur 4.13: Wardiau yn y Gymru wledig gyda mwy nag 20 y cant o'r gweithlu yn cael ei gyflogi mewn dosbarthu, gwestai neu fwytai, 2011.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS. Cymru wledig = Y siroedd gwledig ynghyd â wardiau eraill sy'n gymwys ar gyfer yr RhDG.

4.31 Mae'r sector twristiaeth yn y Gymru wledig wedi'i feirniadu am ddenu twristiaeth o werth cymharol isel sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau a seilwaith ond sy'n gymharol fach ei chyfraniad at fusnesau lleol. Mae data STEAM yn dangos bod 63 y cant o ymwelwyr â siroedd gwledig Cymru yn 2019 yn ymwelwyr dydd, a bod 85 y cant o'r arosiadau dros nos yn arosiadau mewn llety heb wasanaeth (gan gynnwys fflatiau hunanarlwyo, gosodiadau gwyliau, carafannau a gwersylla), o'i

gymharu â 41 y cant o arosiadau dros nos yn ardaloedd trefol Cymru.[60] Felly, er bod effaith economaidd arosiadau ymwelwyr mewn llety â gwasanaeth (e.e. gwestai a thai llety) mewn ardaloedd trefol yn fwy na'r effaith mewn llety sydd heb wasanaeth yn ôl cymhareb o 2. 5:1, yn y siroedd gwledig, cafodd y cydbwysedd ei wrth-droi, gydag effaith economaidd arosiadau mewn llety heb wasanaeth yn fwy nag arosiadau mewn llety â gwasanaeth, yn ôl cymhareb o 3.8:1.

| | Cymru Wledig | | | Cymru Drefol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Effaith economaidd £m** | **Niferoedd ymwelwyr miloedd** | **Diwrnodau ymwelwyr miloedd** | **Effaith economaidd £m** | **Niferoedd ymwelwyr miloedd** | **Diwrnodau ymwelwyr miloedd** |
| Â gwasanaethau | 864.43 | 4060 | 7357 | 1166.07 | 3912 | 6865 |
| Heb wasanaethau | 3305.66 | 9878 | 64138 | 465.58 | 1581 | 10306 |
| SFR* | 180.47 | 1569 | 3735 | 461.41 | 3258 | 7756 |
| Ymwelwyr dydd | 1061.69 | 26346 | 26346 | 1796.68 | 45278 | 45278 |

* Aros gyda ffrindiau neu berthnasau

Tabl 4.10: Cymharu ymweliadau twristiaeth ac effaith economaidd yn ôl y math o lety, ar gyfer siroedd gwledig ac ardaloedd trefol Cymru, 2018
Ffynhonnell: Data STEAM ar gyfer Cymru, 2018, GTS (UK) Ltd

## Gweithgynhyrchu

4.32 Mae'r sector gweithgynhyrchu, sy'n cynnwys prosesu bwyd, yn cyflogi llai na 10 y cant o'r gweithlu ar draws siroedd gwledig Cymru gyfan, ond mae'n arwyddocaol fel cyflogwr mewn sawl tref fach gan gynnwys y Trallwng, y Drenewydd, Corwen, Llanandras, Caldicot a Llangefni.[61] Mae cyflogaeth gweithgynhyrchu yn rhanbarth y Canolbarth, sef Ceredigion a Phowys, wedi cynyddu ers 2010.[62] Yn ogystal â phrosesu bwyd, mae sector gweithgynhyrchu y Gymru wledig yn cynnwys parhau â diwydiant tecstilau hanesyddol a gwaddol polisïau Bwrdd Datblygu Cymru Wledig yn y 1970au i’r 1990au a geisiodd ddenu mewnfuddsoddiad gan gwmnïau gweithgynhyrchu. Ar ddechrau'r 1980au, Powys oedd â'r gyfradd twf uchaf mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu ym Mhrydain Fawr.[63] Mae’r meysydd arbenigedd presennol yn cynnwys cynhyrchion metel wedi’i ffabrigeiddio, peiriannau ac offer, metelau sylfaenol, awtomeiddio, peirianneg symudiad a biotechnoleg.[64]

4.33 Mae busnesau gweithgynhyrchu yn y Gymru wledig wedi wynebu heriau yn sgil globaleiddio, gan gynnwys cystadleuaeth o du mewnforion ac mewn rhai achosion adleoli gwaith cynhyrchu cwmnïau traws-wladol i safleoedd mewn gwledydd eraill, yn fwyaf enwog gan Laura Ashley yn y 1990au. Er hynny, mae gweithgynhyrchwyr eraill wedi llwyddo i ddefnyddio marchnadoedd byd-eang o leoliadau yn y Gymru wledig, yn aml drwy arallgyfeirio’u cynhyrchiant i gyflenwi

[60] Data STEAM ar gyfer Cymru 2018, GTS (UK) Ltd.
[61] Cyflogaeth yn ôl diwydiant, Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.
[62] ‘Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru: Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf’, Tyfu Canolbarth Cymru, 2020.
[63] ‘The political economies of place in the emergent global countryside: stories from rural Wales’, Michael Woods, yn *The Next Rural Economies*, 2010.
[64] ‘Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru: Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf’, Tyfu Canolbarth Cymru, 2020.

marchnadoedd arbenigol, er enghraifft Makefast yn y Drenewydd.[65] Mae'r Gymru wledig hefyd wedi bod yn gartref i nifer o fentrau dechreuol llwyddiannus yn y blynyddoedd diwethaf sy'n adfywio traddodiad gweithgynhyrchu tecstilau, gan gynnwys Fashion-Enter yn y Drenewydd, Hiut Denim yn Aberteifi, a Howies yng Nghaerfyrddin.[66]

4.34 Mae gan y Gymru wledig hefyd garfan gynyddol o fentrau biotechnoleg a thechnoleg werdd, wedi'u denu weithiau gan gyflyrau amgylcheddol cymharol ddiarffordd, tawel, sydd heb fawr o lygredd neu fawr o ddirgryniad. Mae nifer o gwmnïau yn y sectorau hyn yn deillio o brifysgolion Aberystwyth, Bangor a Glyndŵr, neu maent wedi lleoli fel rhan o fentrau sydd â'r nod o wella cysylltiadau rhwng ymchwil a diwydiant, megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth a Chanolfan Dechnoleg OpTIC yn Llanelwy.[67] Mae safleoedd allweddol eraill ar gyfer arloesi a gweithgynhyrchu uwch yn cynnwys y Ganolfan Ragoriaeth Rheilffyrdd Fyd-eang yn Ystradgynlais a Chanolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig yn Aberystwyth a fyddai'n cynnwys cydweithio â safleoedd technoleg amddiffyn sefydledig yn y rhanbarth, yn arbennig cyfleuster profi Qinetiq/y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Aber-porth.[68]

## Cyfalaf Naturiol a'r Economi Gwyrdd

4.35 Mae gan y Gymru wledig adnoddau naturiol eithriadol sy'n cefnogi amryw o weithgareddau economaidd, gan gynnwys cynhyrchu ynni a deunyddiau adeiladu, yn ogystal â chynhyrchu bwyd, a thwristiaeth, ac sy'n cyfrannu at les cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Amcangyfrifwyd mai £30.5 biliwn yw gwerth cyfalaf naturiol Cymru ar dir fferm, coetir a dŵr croyw, ond nodwyd hefyd y disgwylir y bydd y gwir werth gryn dipyn yn uwch na hyn gan mai saith yn unig o'r manteision sy'n dod o gyfalaf naturiol Cymru sy'n cael eu mesur ar hyn o bryd.[69] Mae'r manteision sydd heb eu cynnwys yn y prisiad hwn yn cynnwys diogelu rhag llifogydd, ynni dŵr a thwristiaeth. Mae mwy na thri chwarter y gwerth cyfalaf naturiol sydd wedi'i amcangyfrif yn ymwneud â 'gwasanaethau anniriaethol' megis gweithgarwch hamdden, lliniaru llygredd a dal a storio carbon, sydd heb gael eu cynnwys ym mesuriadau traddodiadol CMC.[70]

4.36 Siroedd gwledig Cymru sy'n creu 45.5 y cant o'r allbwn trydanol o ynni adnewyddadwy ar y tir a gynhyrchir yng Nghymru, gan gynnwys 49 y cant o'r ynni gwynt ar y tir, 50 y cant o bŵer yr haul (PV), a 99 y cant o'r ynni dŵr (Tabl 4.11). Mae pedair sir y Canolbarth a'r Gorllewin, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys yn cynnwys 72.5 y cant o'r prosiectau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru a 57.7 y cant o'r prosiectau ynni haul (PV), tra bo 82.7 y cant o brosiectau ynni dŵr wedi'u lleoli yng Ngheredigion, Conwy, Gwynedd a Phowys.[71] Mae gan nifer o gynlluniau mawr gronfeydd budd cymunedol i gynghorau cymuned ac mae sefydliadau lleol yn rhoi cymorth i amryw o wasanaethau a seilweithiau gan gynnwys cludiant cymunedol a neuaddau cymuned.[72]

---

[65] 'From Yosemite to Antarctica via Burundi: manufacturing connections from a small rural town', GLOBAL-RURAL project.

[66] Sefydlwyd Howies i ddechrau yn Aberteifi a'i adleoli i Gaerfyrddin yn 2014 ar ôl cael ei brynu gan y rheolwyr a ddychwelodd y cwmni i statws annibynnol ar ôl cyfnod byr o berchnogaeth gan Timberand.

[67] Campws Arloesi a Menter Aberystwyth: https://aberinnovation.com/; Canolfan Dechnoleg OpTIC: https://www.ukspa.org.uk/optic-technology/

[68] 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru: Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf', Tyfu Canolbarth Cymru, 2020.

[69] 'ERAMMP Blwyddyn 1 Adroddiad 24: Cyfrifon Cyfalaf Naturiol Cenedlaethol Cymru', Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, CEH/SYG, 2019.

[70] Ibid.

[71] Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Thechnoleg, StatsCymru, 2018. www.statswales.gov.uk

[72] 'Wind farms in rural areas: How far do community benefits from wind farms represent a local economic development opportunity?' Max Munday et al., *Journal of Rural Studies*, 2011.

Er hynny, ychydig yn unig o gyfleusterau ynni adnewyddadwy mawr y Gymru wledig sy'n eiddo i'r gymuned neu'n eiddo lleol, fel nad yw'r elw o gynhyrchu ynni yn cael ei gadw yn y rhanbarth, ac ar ôl y gwaith adeiladu, nid yw'r cyfleusterau'n creu llawer o gyflogaeth leol. Mae nifer o brosiectau, yn enwedig ar gyfer ynni'r haul a'r gwynt, wedi bod yn ddadleuol oherwydd effeithiau ar y dirwedd.[73] Nododd canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru, TAN8, saith Ardal Chwilio Strategol ar gyfer datblygu ynni gwynt, gyda phump yn y siroedd gwledig yn bennaf, sydd wedi cyfrannu at grynhoi capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy Cymru.

4.37 Mae'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru yn cyflogi hyd at 11,300 o bobl ac yn cyfrannu £499.3 miliwn i GVA Cymru.[74] Cyfrannodd Cymru 13.7 y cant o gynhyrchiant pren y Deyrnas Unedig yn 2017. Mae'r cynhyrchiant wedi amrywio, ond mae wedi cynyddu'n gyffredinol ers 2008.[75] Mae'r twf mewn cynhyrchiant wedi'i ysgogi gan ystadau coedwig preifat, a gynhyrchodd 51.4 y cant o'r pren a gynaeafwyd yn 2017, i fyny o 27 y cant ym 1997.[76] Rheolir tua 10 y cant o'r tir yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu pren, sef ychydig dros hanner holl goedwigoedd a choetiroedd Cymru.[77] Ar ben y planhigfeydd coedwigaeth masnachol, mae gorchudd pren cefn gwlad Cymru yn cynnwys coetir naturiol a choetir fferm wedi'i blannu. Cynyddodd arwynebedd coetir ffermydd yng Nghymru 51 y cant o 59.2 mil o hectarau yn 2008 i 89.2 mil o hectarau yn 2016, gyda chymorth arian grant drwy Gynllun Creu Coetir Glastir a Chynllun Adfer Coetir Glastir.[78]

4.38 Ar ben cynhyrchu bwyd a phren, mae tir gwledig hefyd yn darparu nifer o wasanaethau ecosystem sy'n cyfrannu at les amgylcheddol gan gynnwys dal a storio carbon, tynnu llygredd, diogelu rhag llifogydd a darparu cynefinoedd. Cyfrifwyd gallu tir fferm a choetiroedd Cymru i ddal a storio carbon fel 2.4 miliwn tunnell o garbon deuocsid cyfwerth yn 2017, gyda 75 y cant yn cael ei dynnu gan goetir a 24.8 y cant gan laswelltir a ffermir, sef gwerth £152.3 miliwn.[79] Cyfrifwyd bod ffermdir, coetir a llystyfiant dŵr croyw Cymru wedi tynnu 81.4 mil o dunelli o lygryddion yn 2017, gyda 64.5 y cant wedi'i dynnu gan ffermdir a 33.2 y cant wedi'i dynnu gan goetir, a oed dyn werth cyfanswm o £43.8 miliwn. Ffermdir sy'n bennaf cyfrifol am dynnu amonia (NH3), nitrogen ocsid (NO2), sylffwr deuocsid (SO2) ac oson lefel y ddaear (O3), a choetir sy'n bennaf cyfrifol a m dynnu gonynnau atmosfferig (PM10 a PM2.5).[80]

[73] 'Constructing a 'landscape justice' for windfarm development: The case of Nant Y Moch, Wales', Kelvin Mason a Paul Milbourne, *Geoforum*, 2014.
[74] 'Ystadegau, rhagolygon ac arolygon coedwigaeth', Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020.
[75] 'ERAMMP Blwyddyn 1 Adroddiad 24: Cyfrifon Cyfalaf Naturiol Cenedlaethol Cymru', Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, CEH/ONS, 2019.
[76] Ibid.
[77] 'Forestry in Wales', Confor, 2017
[78] 'Area of farm woodland', Forest Research, 2020
[79] 'ERAMMP Blwyddyn 1 Adroddiad 24: Cyfrifon Cyfalaf Naturiol Cenedlaethol Cymru', Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, CEH/ONS, 2019.
[80] Ibid.

| | Pŵer gwynt | | Pŵer yr haul (PV) | | Pŵer dŵr | | Carbon-isel arall* | | Cyfanswm ynni carbon-isel | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosiectau | Trydan a gynhyrchir (MWhe) | Prosiectau | Trydan a gynhyrchir (Mwhe) | Prosiectau | Trydan a gynhyrchir (Mwhe) | Prosiectau | Trydan a gynhyrchir (Mwhe) | Prosiectau | Trydan a gynhyrchir (Mwhe) |
| Ynys Môn | 49 | 93099 | 1553 | 34328 | 0 | 0 | 501 | 14066 | 2103 | 141493 |
| Gwynedd | 36 | 16208 | 2192 | 33733 | 141 | 125071 | 762 | 4143 | 3131 | 179155 |
| Conwy | 39 | 43867 | 1349 | 14524 | 32 | 73656 | 555 | 15643 | 1975 | 147690 |
| Sir Ddinbych | 38 | 170254 | 1578 | 8456 | 19 | 4763 | 551 | 15626 | 2186 | 199099 |
| Powys | 117 | 438090 | 4008 | 21293 | 78 | 16583 | 2503 | 32628 | 6706 | 508594 |
| Ceredigion | 76 | 200244 | 2137 | 28449 | 28 | 153717 | 1221 | 26375 | 3462 | 408385 |
| Sir Benfro | 148 | 57908 | 3634 | 179479 | 14 | 1157 | 1255 | 6147 | 5051 | 244691 |
| Sir Gaerfyrddin | 113 | 343134 | 4212 | 101885 | 14 | 9938 | 1259 | 10250 | 5598 | 465207 |
| Sir Fynwy | 10 | 640 | 3573 | 41375 | 11 | 498 | 599 | 109001 | 4193 | 151514 |
| **Cyfanswm y Gymru Wledig** | **626** | **1363464** | **24236** | **463552** | **337** | **385383** | **9206** | **233262** | **34405** | **2445661** |
| *Cymru ar y tir* | *740* | *2778784* | *54560* | *924819* | *364* | *388552* | *13061* | *1133036* | *68725* | *5225191* |
| *Ar y môr* | *3* | *2200477* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *3* | *2200477* |
| **Cyfanswm Cymru** | **743** | **4979211** | **54560** | **924819** | **364** | **388552** | **13061** | **1133036** | **68728** | **7425668** |

* Yn cynnwys treulio anaerobig, biomas, ynni o wastraff, pympiau gwres, nwy tirlenwi a nwy carthion. Nid yw pob prosiect carbon-isel yn cynhyrchu trydan, mae rhai yn cynhyrchu gwres, sydd heb ei fesur yn y tabl hwn.

Tabl 4.11: Cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn siroedd gwledig Cymru, 2018.
Ffynhonnell: StatsCymru

4.39 Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol a ddarperir o dan yr RhDG wedi digolledu ffermwyr a thirfeddianwyr am reoli tir sy'n cefnogi gwasanaethau rheoleiddio o'r fath, nad ydynt wedi creu incwm fel arfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi archwilio'r potensial ar gyfer cynlluniau sy'n seiliedig ar y farchnad, gan gynnwys taliadau i dirfeddianwyr gan bartïon sydd â diddordeb megis cwmnïau yswiriant a chwmnïau cyfleustodau dŵr am wasanaethau sy'n diogelu rhag llifogydd ac sy'n puro dŵr,[81] ac eto mae metrau peilot fel Prosiect Pumlumon wedi dangos bod yna heriau o ran trosoli cyllid preifat.[82] Mae incwm ffermwyr o daliadau am wasanaethau ecosystem yn dal yn fach o'u cymharu ag incwm o gynhyrchu bwyd a thaliadau uniongyrchol,[83] ac mae cyfleoedd ar gyfer twf wedi'u cyfyngu gan y duedd tuag i lawr yng nghyfanswm y carbon sy'n cael ei ddal a'i storio a'r llygredd aer sy'n cael ei dynnu gan dir gwledig yng Nghymru.[84]

4.40 Mae dosbarthiad defnydd tir y Gymru wledig wedi newid yn sgil newid yng ngofynion y farchnad a blaenoriaethau cadwraeth ac mae newidiadau pellach, mwy sylweddol, wedi'u hybu ac wedi'u cynnig, yn enwedig gan sefydliadau amgylcheddol. Mae nifer o brosiectau bach wedi llwyddo i adfer cynefinoedd ac ailgyflwyno rhywogaethau gwyllt hanesyddol, gan gynnwys afancod a belaod.[85] Er hynny, mae cynigion ar gyfer cynlluniau 'ail-wylltio' mwy helaeth wedi bod yn ddadleuol, gyda phryderon yn y cymunedau lleol a'r sector ffermio ynghylch atebolrwydd lleol, perchnogaeth tir allanol a chorfforaethol, effeithiau ar y dirwedd, risgiau o du ysglyfaethwyr a cholli tir cynhyrchiol yn barhaol ac, yn sgil hynny, colli cyflogaeth amaethyddol.

4.41 Mae Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri gyda'i gilydd yn cwmpasu 20 y cant o arwynebedd tir Cymru, ac ynghyd â phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)[86] maent wedi'u dynodi i adlewyrchiad arwyddocâd cenedlaethol amgylchedd naturiol eu tirweddau. Mae rheoli'r ardaloedd hyn yn golygu cyfyngu ar rai agweddau ar ddefnyddio cyfalaf naturiol, megis cynhyrchu pŵer gwynt, ond yn hybu cyfleoedd ar gyfer ffurfiau eraill, yn enwedig twristiaeth. Mae'r tri Pharc Cenedlaethol yn denu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyfrannu hanner biliwn o bunnoedd i GVA Cymru.[87] Ar yr un pryd, mae'r Parciau Cenedlaethol yn gartref i 80,000 o drigolion a gall eu poblogrwydd ynghyd â'r fframwaith rheoleiddio gynyddu heriau gor-dwristiaeth, mynediad i dai fforddiadwy, cyfleoedd cyflogaeth amrywiol a diboblogi. Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru yn 2015 ailddiffinio dibenion statudol y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE gyda thri amcan cydgysylltiedig, sef gwarchod a gwella rhinweddau tirweddau unigryw, hybu llesiant corfforol a meddyliol drwy fwynhad a dealltwriaeth o'r dirwedd, a hybu mathu cynaliadwy o ddatblygu economaidd a chymunedol ar sail adnoddau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.[88] Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei blaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNE o amgylch pedwar

---

[81] 'Assessing the Potential for Payments for Ecosystem Services Market Mechanisms', Adroddiad gan Cascade ar ran Llywodraeth Cymru, 2014.
[82] 'Assembling Payments for Ecosystem Services in Wales', Sophie Wynne-Jones a Thomas Vetter, yn *Agri-Environmental Governance as Assemblage*, 2018.
[83] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019
[84] 'ERAMMP Blwyddyn 1 Adroddiad 24: Cyfrifon Cyfalaf Naturiol Cenedlaethol Cymru', Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, CEH/ONS, 2019.
[85] 'Abandoning or Reimagining a Cultural Heartland? Understanding and Responding to Rewilding Conflicts in Wales - the case of the Cambrian Wildwood', Sophie Wynne-Jones et al., *Environmental Values*, 2019.
[86] AHNE Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Gŵyr, AHNE Llŷn ac AHNE Dyffryn Gwy.
[87] 'Parciau Cenedlaethol', gwefan CLlLC, www.wlga.cymru
[88] 'National Landscapes: Realising their Potential – The Review of Designated Landscapes in Wales', Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru, 2015.

nod o gydnabod yr ardaloedd dynodedig fel lleoedd gwerthfawr, amgylcheddau gwydn a chymunedau gwydn, a reolir drwy ffyrdd gwydn o weithio.[89]

## Tlodi ac Amddifadedd

4.42 Yn y siroedd gwledig y mae chwech o'r ugain ardal leol fwyaf difreintiedig (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)) yng Nghymru, er eu bod mewn ardaloedd trefol yn y siroedd hyn, sef y Rhyl, Llanelli a Bae Colwyn.[90] Mae dwy arall o'r ugain LSOAs fwyaf difreintiedig mewn wardiau gwledig yn ardal drefol Caerffili yn bennaf. Yn gyffredinol, mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn is ar gyfer lefelau amddifadedd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) nag ardaloedd trefol, ond mae nifer sylweddol o LSOAs gwledig ag amddifadedd uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig o amgylch Mynyddoedd Cambria a chymoedd Teifi a Tywi, ac mewn rhannau o Ynys Môn a Llŷn (Ffigur 4.14).




Ffigur 4.14: Safle Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn siroedd gwledig Cymru o fewn trefn gyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Ffynhonnell: StatsCymru

4.43 O'i gymharu â thlodi trefol, mae tlodi gwledig wedi'i ddisgrifio fel tlodi 'cudd'.[91] Gall mesurau tiriogaethol o anghydraddoldeb, gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, fethu tystiolaeth o dlodi gwledig am fod yr unedau daearyddol a ddefnyddir mewn ardaloedd gwledig yn fwy eang ac yn llai effeithiol o ran disgrifio pocedi o amddifadedd, ac am fod gwahanol grwpiau incwm yn cymysgu'n fwy mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Gan hynny, fel y gwelir yn Nhabl 4.12, mae LSOAs gwledig yn tueddu i fod wedi'u clystyru yng nghanol safleoedd

[89] 'Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol', Llywodraeth Cymru, 2018.
[90] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru  2019, StatsCymru, www.statswales.gov.wales
[91] 'Poverty in Rural Wales: material hardship and social inclusion', Paul Milbourne, yn *Rural Wales in the Twenty-First Century*, 2011.

MALlC tra bod LSOAs yr ardaloedd trefol yn bennaf (gan gynnwys pocedi gwledig yn yr ardaloedd hyn) wedi'u dosbarthu mewn dau begwn yn y naill ben a'r llall. Gall cymeriad cudd tlodi gwledig ac agosrwydd aelwydydd sydd â lefelau incwm gwahanol hefyd ddyfnhau'r profiad ansoddol o anfantais i deuluoedd difreintiedig mewn cymunedau gwledig.[92]

| | **Trefi mawr mewn siroedd gwledig** | | **Trefi bach, pentrefi a chefn gwlad mewn siroedd gwledig** | | **Pentrefi a chefn gwlad mewn ardaloedd trefol** | | **Dinasoedd a threfi mewn ardaloedd trefol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10% mwyaf difreintiedig (1-191) | 19 | (9%) | 6 | (1%) | 15 | (5%) | 151 | (15%) |
| 10-20% mwyaf difreintiedig (192-382) | 21 | (10%) | 10 | (2%) | 24 | (9%) | 136 | (13%) |
| 20-30% mwyaf difreintiedig (383-573) | 25 | (12%) | 16 | (4%) | 37 | (13%) | 113 | (11%) |
| 30-40% mwyaf difreintiedig (574-764) | 27 | (13%) | 31 | (7%) | 28 | (10%) | 105 | (10%) |
| 40-50% mwyaf difreintiedig (765-955) | 23 | (11%) | 62 | (15%) | 18 | (7%) | 88 | (9%) |
| 40-50% lleiaf difreintiedig (956-1146) | 23 | (11%) | 79 | (19%) | 21 | (8%) | 68 | (7%) |
| 30-40% lleiaf difreintiedig (1147-1337) | 19 | (9%) | 92 | (22%) | 20 | (7%) | 60 | (6%) |
| 20-30% lleiaf difreintiedig (1338-1528) | 17 | (8%) | 71 | (17%) | 31 | (11%) | 72 | (7%) |
| 10-20% lleiaf difreintiedig (1529-1719) | 17 | (8%) | 38 | (9%) | 41 | (15%) | 95 | (9%) |
| 10% lleiaf difreintiedig (1719-1910) | 14 | (7%) | 9 | (2%) | 40 | (15%) | 128 | (13%) |
| *Cyfanswm* | *205* | *(100%)* | *414* | *(100%)* | *275* | *(100%)* | *1016* | *(100%)* |

Tabl 4.12: Dosbarthiad LSOAs fesul degradd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, yn ôl lleoliad. Ffynhonnell: StatsCymru

[92] Ibid.

4.44 Mae sbardunau ac ymddangosiad amddifadedd gwledig hefyd yn wahanol i'r rhai ar gyfer amddifadedd trefol. Mae dadansoddi MALlC yn dangos bod lefelau amddifadedd cyflogaeth ac amddifadedd incwm yn gostwng gyda mwy o wledigrwydd, ond mae'r bwlch yn llai ar gyfer amddifadedd incwm (Tabl 4.13). Mae hyn yn adlewyrchu arwyddocâd ehangach tlodi mewn gwaith mewn amddifadedd gwledig, gyda chyflogau cyfartalog is ac allfudo yn ymateb cyffredin i golli cyflogaeth neu ddiffyg cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig. Mae enillion wythnosol gros canolrifol siroedd gwledig Cymru yn amrywio o £451.50 yng Ngheredigion i £574.90 yn Sir Fynwy, gyda phump o'r naw sir yn cofnodi enillion canolrifol islaw cyfartaledd Cymru gyfan o £537.80.[93] Er hynny, mae lefelau cyflog cymharol yr ardaloedd gwledig wedi codi ers 2010, pan dim ond un sir (Sir Benfro) a gofnododd enillion wythnosol canolrifol uwchlaw cyfartaledd Cymru (Ffigur 4.15).

| | Pobl mewn amddifadedd incwm | Pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth |
|---|---|---|
| Trefi mawr – llai tenau eu poblogaeth | 17% | 11% |
| Trefi bach ac ymylon – llai tenau eu poblogaeth | 15% | 11% |
| Pentrefi, pentrefannau ac anheddau ynysig – llai tenau eu poblogaeth | 9% | 7% |
| Trefi mawr – tenau eu poblogaeth | 16% | 10% |
| Trefi bach ac ymylon – tenau eu poblogaeth | 19% | 9% |
| Pentrefi, pentrefannau ac anheddau ynysig – tenau eu poblogaeth | 10% | 6% |
| Cymru gyfan | 16% | 10% |

Tabl 4.13: Cyfran y bobl mewn amddifadedd incwm ac amddifadedd cyflogaeth yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol SYG, 2019. Ffynhonnell: StatsCymru

4.45 Gwelodd arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o aelwydydd mewn wardiau gwledig yn 2013 fod gan 47 y cant incwm cartref blynyddol o lai na £21,000, gydag 17 y cant yn nodi incwm blynyddol o lai na £10,000.[94] Cofnododd 13 y cant o' ymatebwyr incwm cartref blynyddol o fwy na £52,000. Roedd mwy na dwy ran o dair o'r aelwydydd (69 y cant) yn cael o leiaf un math o fudd-dal y wladwriaeth: taliadau tanwydd gaeaf (33 y cant) a budd-dal y dreth gyngor (18 y cant) oedd yn fwyaf cyffredin. Roedd gan bron hanner yr aelwydydd (44 y cant) lai na £1,000 mewn cynilion a dim ond traean oedd o'r farn eu bod yn byw'n gyffyrddus ar eu hincwm presennol (Tabl 4.14). Dywedodd un o bob ugain aelwyd y byddai'n amhosibl dod o hyd i £100 i dalu am gost annisgwyl, gyda 26 y cant arall yn nodi y byddai'n anodd dod o hyd i'r swm hwn.

[93] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn, StatsCymru, 2020.
[94] 'Arolwg Cartrefi Gwledig', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013. Sylwch fod arolwg yr Arsyllfa wedi cyf-weld â sampl o 4002 o aelwydydd ar draws wardiau sy'n gymwys ar gyfer yr RhDG, gyda 70% ohonynt yn y naw sir wledig.




Ffigur 4.15: Enillion wythnosol gros canolrifol fesul sir wledig yng Nghymru. Ffynhonnell: StatsCymru

| | Cyfran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Byw'n gyffyrddus ar yr incwm presennol | 33% |
| Ymdopi ar yr incwm presennol | 47% |
| Ei chael yn anodd ar yr incwm presennol | 13% |
| Ei chael yn anodd iawn ar yr incwm presennol | 5% |
| Ddim yn gwybod / gwrthod | 1% |

Tabl 4.14: Digonolrwydd yr incwm presennol a gofnodwyd gan ymatebwyr i Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o Aelwydydd Gwledig 2013. Ffynhonnell: Arsyllfa Wledig Cymru

## Mynediad at Wasanaethau a Seilweithiau

4.46 Mae dwysedd poblogaeth is yr ardal wledig yn lleihau'r gronfa bosibl o ddefnyddwyr neu gwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol ac yn cynyddu costau darparu. Gan hynny, bernir nad yw llawer o wasanaethau'n hyfyw mewn cymunedau gwledig llai ac mae nifer a dosbarthiad sawl gwasanaeth allweddol wedi gostwng dros amser. Canfu arolwg o gymunedau gwledig yng Nghymru yn 2013 fod 63 y cant heb siop fwyd arbenigol, bod 49 y cant heb siop gyffredinol, bod 43 y cant heb swyddfa bost, bod 16 y cant heb dafarn a bod 71 y cant heb orsaf betrol.[95]

[95] 'Arolwg Gwasanaethau Gwledig', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.

4.47 Effeithiwyd ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau gwledig gan ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus. Gostyngodd taliadau'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) i'r naw awdurdod lleol gwledig 3.3 y cant ar gyfartaledd rhwng 2010-11 a 2019-20, o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 2.25 y cant mewn taliadau GCR i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.[96] Mae pwysau ariannol wedi creu penderfyniadau anodd i awdurdodau lleol gwledig ar ddarparu gwasanaethau sy'n effeithio'n aml ar fynediad at wasanaethau mewn trefi bach a chymunedau gwledig, gan gynnwys mewn addysg, gwasanaethau llyfrgell a chyfleusterau hamdden. Mae'r cyfuniad o bwysau ariannol, strategaeth bedagogaidd a'r angen i fynd i'r afael ag adeiladau hen ffasiwn wedi cyfrannu at ostyngiad o 21 y cant yn nifer yr ysgolion cynradd yn siroedd gwledig Cymru ers 2009-10, gyda llawer o'r ysgolion sydd wedi'u cau yn y cymunedau gwledig lleiaf sydd â nifer cyfyngedig o ddisgyblion cofrestredig.[97] Mewn sawl achos, mae rhesymoli ysgolion wedi gweld ysgolion ardal newydd yn cael eu codi, gan gynnwys deg ysgol newydd i bob oed ar draws y siroedd gwledig.

4.48 Gall presenoldeb neu absenoldeb ysgolion a chyfleusterau eraill i blant a phobl ifanc effeithio ar atyniad cymunedau gwledig i deuluoedd ifanc a chyfrannu at heneiddio demograffig. Nododd arolwg gwasanaethau Arsyllfa Wledig Cymru yn 2013 mai darpariaeth feithrin oedd un o'r ychydig feysydd gwasanaeth a oedd wedi cynyddu mewn cymunedau gwledig dros y degawd blaenorol, ond canfu mai dim ond yn hanner y cymunedau a ymatebodd yr oeddent yn dal yn bresennol.[98] Ar ben hynny, doedd gan 39 y cant o gymunedau gwledig ddim grŵp neu gylch chwarae i rieni a phlant bach, doedd gan 27 y cant ddim maes chwarae i blant, a doedd gan ryw ddwy ran o dair ddim grŵp neu glwb ieuenctid gweithredol (e.e. sgowtiaid, brownis, grŵp ieuenctid). Yn yr un ffordd, er gwaethaf proffil oedran llawer o gymunedau gwledig, doedd gan 82 y cant o gymunedau'r Gymru wledig ddim ddarpariaeth gofal dydd ffurfiol i drigolion oedrannus, gan gynnwys dros draean o'r cymunedau â phoblogaethau o fwy na 4,000 o bobl.[99]

4.49 Mae darpariaeth gofal iechyd yn y Gymru wledig yn dod o dan ddylanwad nid yn unig blaenoriaethau cynllunio ariannol a chlinigol ond hefyd heriau o ran recriwtio a chadw personél priodol. Tynnwyd sylw at faterion recriwtio mewn nifer o adroddiadau, yn enwedig o ran meddygon iau mewn ysbytai, meddygon teulu a deintyddion.[100] Mae anawsterau cynllunio olyniaeth mewn meddygfeydd meddygon teulu wedi'u crybwyll mewn nifer o drefi bach a chymunedau gwledig. Yn gyffredinol, amser teithio cyfartalog i'r feddygfa ar gyfer trigolion pentrefi, pentrefannau ac anheddau ynysig mewn rhannau o Gymru sy'n denau eu poblogaeth yw 17 munud, a 18 munud i fferyllfa.[101] Er hynny, mae amser teithio'n codi'n sylweddol yn achos y lleoliadau 'gwledig dwfn' mwyaf anghysbell ac yn achos unigolion sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn 2013, nododd 16 y cant o'r trigolion gwledig a holwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru ei bod yn anodd cael mynediad i wasanaethau ysbytai, gan gynyddu i 42 y cant o'r ymatebwyr ym Mhowys, 28 y cant o'r ymatebwyr yng Ngwynedd, ac 20 y cant yng Ngheredigion.[102] Dywedodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr ag incwm isel, o dan £21,000 y flwyddyn, eu bod yn ei chael yn anodd cyrraedd ysbytai, meddygfeydd meddygon teulu a phractisau deintyddol.[103]

[96] Cyllido gwariant refeniw crynswth, yn ôl ffynhonnell y cyllid, StatsCymru, 2020.
[97] Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol, StatsCymru, 2020.
[98] 'Arolwg Gwasanaethau Gwledig', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.
[99] Ibid.
[100] 'Recriwtio Meddygol', Adroddiad gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017; 'Rural Health and Care Services in Wales', Conffederasiwn GIG Cymru, 2018.
[101] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
[102] 'Arolwg Cartrefi Gwledig', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013
[103] Ibid.

4.50 Hefyd, mae gwasanaethau masnachol wedi gostwng mewn llawer o drefi bach a chymunedau gwledig, yn enwedig gwasanaethau bancio. Mae dros 200 o ganghennau banc wedi cau yng Nghymru ers 2015, dros hanner yn y siroedd gwledig.[104] Mae 43 o drefi a phentrefi yn siroedd gwledig Cymru a oedd ag o leiaf un gangen o fanc Stryd Fawr (Barclays, HSBC, Lloyds, NatWest neu TSB) yn 2009 nad oes ganddynt ganghennau gweithredol yn 2020 (Ffigur 4.16).[105] Mae colli cyfleusterau bancio mewn trefi bach a chymunedau gwledig yn cael effaith ganlyniadol ar gostau gweithredu a logisteg busnesau bach y cymunedau hyn ac yn lleihau nifer y cerddwyr ac felly y niferoedd o gwsmeriaid posibl i fusnesau eraill yn y cymunedau.




Ffigur 4.16: Cau canghennau Banciau'r Stryd Fawr yn siroedd gwledig Cymru, 2009-2020
Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Which?; adroddiadau newyddion; gwefannau'r banciau.

4.51 Mae'r angen i'r trigolion mewn llawer o gymunedau gwledig deithio er mwyn cael mynediad at wasanaethau allweddol yn cael ei adlewyrchu mewn perchnogaeth ceir uwch na'r cyfartaledd, sydd yn ei dro yn cynyddu costau byw yr aelwydydd. Mae trigolion sydd heb fynediad at drafnidiaeth breifat yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n cynyddu amserau teithio yn sylweddol (Tabl 4.15). Mae'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig hefyd yn dameidiog. Gwelodd arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig yn 2013 mai dim ond 39 y cant o gymunedau gwledig oedd â gwasanaeth bws dyddiol a bod 17 y cant o gymunedau heb wasanaeth bws o gwbl.[106] Nododd hanner y cynghorau tref a chymuned a ymatebodd i arolwg gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2018 fod gwasanaethau bysiau wedi

[104] 'Bank closures: More than 200 branches close in four years', gwefan BBC Cymru, 13 Mehefin 2019; 'Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig', Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2018.
[105] 'Mynediad at Fancio', Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019; ynghyd ag ymchwil ychwanegol.
[106] 'Arolwg Gwasanaethau Gwledig', Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.

gostwng yn eu cymuned.[107] Mae cynlluniau trafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys gwasanaethau deialu-a-theithio a bysiau mini cymunedol, wedi datblygu i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith, ond prin oedd y ddarpariaeth o hyd adeg arolwg yr Arsyllfa yn 2013.[108]

| | **Mewn car preifat** | **Ar drafnidiaeth gyhoeddus** |
|---|---|---|
| Fferyllfa | 18 munud | 1 awr 47 munud |
| Siop fwyd | 9 munud | 1 awr 29 munud |
| Meddygfa | 17 munud | 1 awr 46 munud |
| Swyddfa Bost | 10 munud | 1 awr 32 munud |
| Ysgol gynradd | 8 munud | 1 awr 21 munud |
| Ysgol uwchradd | 21 munud | 1 awr 59 munud |
| Llyfrgell gyhoeddus | 19 munud | 1 awr 52 munud |
| Cyfleuster chwaraeon | 21 munud | 2 awr 10 munud |
| Gorsaf betrol | 13 munud | d/g |

Tabl 4.15: Amser teithio cyfartalog i wasanaethau allweddol i drigolion pentrefi, pentrefannau ac anheddau ynysig mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yng Nghymru, mewn car preifat a thrafnidiaeth gyhoeddus, 2019.
Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, StatsCymru.

4.52 Un ffactor sy'n cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y safleoedd sydd gan wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn ardaloedd gwledig Cymru yw'r defnydd cynyddol ar wasanaethau a siopa ar-lein. Ond, mae mynediad at wasanaethau ar-lein hefyd yn gyfyngedig i drigolion gwledig ardaloedd sydd ag 'amddifadedd digidol', gyda seilwaith band eang neu seilwaith ffonau symudol digidol sy’n hen, yn araf neu'n anwadal. Nid yw mwy na chwarter yr aelwydydd (28.3 y cant) mewn pentrefi, pentrefannau ac anheddau ynysig mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yng Nghymru yn gallu cael band eang ar gyflymder o 30Mbit/eiliad neu fwy, ac felly hefyd mwy nag un rhan o bump o aelwydydd (23.6 y cant) mewn lleoliadau cyfatebol mewn ardaloedd llai tenau eu poblogaeth.[109] Yn gyffredinol, mae 21 y cant o aelwydydd Powys ac 19 y cant yng Ngheredigion heb fynediad i fand eang 30Mbit yr eiliad neu fwy.[110] Amcangyfrifir bod 15,500 o aelwydydd yn y Gymru wledig yn methu cael band eang â chyflymder lawrlwytho o 10Mbit yr eiliad, sef y trothwy a ddiffinnir gan y Deyrnas Unedig fel 'darpariaeth band eang ddechau’.[111] Rhagwelid y byddai’r nifer hwn yn gostwng yn 2020 yn sgil ehangu gwasanaethau band eang di-wifr. Mae mynediad i rwydweithiau band eang ffeibr llawn ychydig yn uwch ar gyfer eiddo gwledig yng Nghymru (17 y cant) nag eiddo trefol (10 y cant).[112] Amrywiol yw ddarpariaeth y rhwydwaith ffonau symudol hefyd, gydag 11 y cant o arwynebedd tir Cymru yn methu cael signal 4G dibynadwy, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf. Dim ond tri chwarter y safleoedd yn y Gymru wledig sydd â mynediad awyr agored i bob gweithredwr ffonau symudol, o'i gymharu â 97 y cant o adeiladau mewn ardaloedd trefol.[113]

[107] ‘Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig', Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2018.
[108] ‘Arolwg Gwasanaethau Gwledig’, Arsyllfa Wledig Cymru, 2013.
[109] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, drwy StatsCymru
[110] Ibid
[111] ‘Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd – Cymru 2019’, Ofcom 2019
[112] Ibid
[113] Ibid

## Tai

4.53 Mae prisiau tai canolrifol yn siroedd gwledig Cymru rhwng 5.46 ac 8.74 gwaith yn fwy na'r enillion blynyddol canolrifol, gyda'r gymhareb uchaf yn Sir Fynwy a'r isaf yn Sir Gaerfyrddin (Ffigur 4.17).[114] Mae hyn yn cymharu â chymhareb o 5.82 ar gyfer Cymru gyfan, a rhwng 3.19 a 5.51 mewn awdurdodau eraill yng Nghymru ac eithrio Caerdydd a Bro Morgannwg.[115] Mae'r ffigurau hyn yn cael eu cyfrifo ar gyfer enillion canolrifol unigolion a gyflogir mewn gweithleoedd yn ardaloedd yr awdurdodau lleol. Pan ddefnyddir enillion canolrifol trigolion yr ardal yn lle hynny, mae'r gymhareb ar gyfer siroedd gwledig yng Nghymru yn gostwng ychydig i rhwng 5.15 a 7.37, gan adlewyrchu enillion uwch trigolion sy'n gweithio mewn ardaloedd trefol y tu allan i'r sir.[116]

4.54 Mae'r gymhareb rhwng enillion blynyddol a phrisiau tai fymryn yn llai mewn saith o'r naw sir wledig pan gaiff prisiau tai'r chwartel isaf eu cymharu ag enillion y chwartel isaf (h.y. cymharu cost y tai isaf eu pris ag enillion y trigolion isaf eu hincwm), ond yn uwch yn Sir Ddinbych a Sir Fynwy. Mae'r gymhareb isaf, sef 5.11 yn Sir Gaerfyrddin, yn dal i olygu bod dod yn berchennog tŷ y tu allan i gyrraedd trigolion y sir sydd ar gyflog isel.[117] Yn gyffredinol, mae tai sydd newydd eu codi 15 i 40 y cant yn ddrutach na'r stoc bresennol ar draws y siroedd gwledig, gan gynyddu cymarebau fforddiadwyedd, yn fwyaf nodedig yn Sir Ddinbych. Yr eithriad yw Ceredigion, lle'r oedd pris canolrifol tai newydd yn 2019 16 y cant yn is na'r pris ar gyfer y stoc bresennol ac ychydig yn fwy fforddiadwy (gweler hefyd Ffigur 4.17).[118]

4.55 Cynyddu'n ddirfawr wnaeth y gymhareb rhwng prisiau tai canolrifol ac enillion blynyddol canolrifol yn siroedd gwledig Cymru yn ystod y 1990au a degawd cyntaf y ganrif newydd, ond mae wedi aros yn gymharol gyson ers tua 2005, gyda rhywfaint o amrywiad (Ffigur 4.18). Mewn pedair sir (Conwy, Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin), roedd y gymhareb ychydig yn is yn 2019 nag yn 2010. Rhwng 2006 a 2011 y cafwyd yr anghydraddoldeb mwyaf rhwng prisiau tai ac enillion ym mhob un o'r siroedd. Mae lleihau'r bwlch yn deillio o gyfuniad o chwyddiant arafach ym mhrisiau tai yn sgil argyfwng ariannol 2008 a chynnydd mewn enillion cyfartalog.[119]

4.56 Mae cydrannau'r system dai yn y Gymru wledig yn cynnwys y cyflenwad a'r galw, gan gynnwys pŵer gwario cymharol trigolion lleol ac mewnfudwyr, y cyflenwad o stoc bresennol ar gyfer y farchnad, ac adeiladu tai newydd, ond hefyd y math o dai sy'n dod ar y farchnad a'u lleoliad. Rhwng Ebrill 2015 a Rhagfyr 2019, dechreuwyd adeiladu 8626 o anheddau newydd yn siroedd gwledig Cymru, neu 29 y cant o'r tai newydd a ddechreuwyd yng Nghymru – islaw'r gyfran gymharol o'r boblogaeth.[120] Y tair sir ddeheuol, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Fynwy a welodd dros hanner y tai newydd a adeiladwyd yn y Gymru wledig (Ffigur 4.19). Dim ond 13 y cant o'r adeiladau newydd yn y siroedd gwledig oedd yn fflatiau, yn hytrach na thai, o'i gymharu â 22 y cant o adeiladau newydd yn ardaloedd trefol Cymru dros yr un cyfnod.

---

[114] 'Housing affordability in England and Wales 2019', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020, https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/housingaffordabilityinenglandandwales/2019#:~:text=In%20both%20England%20and%20Wales%2C%20earnings%20increased%20proportionally%20more%20than,2019%2C%20making%20housing%20more%20affordable.&text=In%20Wales%2C%20house%20prices%20increased,while%20earnings%20increased%20by%204.4%25.

[115] Y gymhareb yng Nghaerdydd ar gyfer prisiau tai canolrifol yw 7.10 gwaith yr enillion blynyddol canolrifol, ac ym Mro Morgannwg mae'n 7.86.

[116] 'Housing affordability in England and Wales 2019', Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020

[117] Ibid.

[118] Ibid.

[119] Ibid.

[120] Anheddau newydd a ddechreuwyd yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o annedd, StatsCymru, 2020,




Ffigur 4.17: Fforddiadwyedd tai yn siroedd gwledig Cymru, 2019. Ffynhonnell: SYG

Canolrif = Prisiau tai canolrifol o'u cymharu ag enillion blynyddol canolrifol yn y gweithle; Chwartel Isaf = Prisiau tai'r chwartel isaf o'u cymharu ag enillion y chwartel isaf yn ôl preswylfa; Adeiladu o'r newydd = Prisiau canolrifol ar gyfer tai wedi'u hadeiladu newydd o'u cymharu ag enillion blynyddol canolrifol yn y gweithle.




Ffigur 4.18: Fforddiadwyedd tai yn siroedd gwledig Cymru, 1997-2019. Ffynhonnell: SYG




Ffigur 4.19: Dechrau adeiladu tai o'r newydd yn siroedd gwledig Cymru, 2015-2019
Ffynhonnell: StatsCymru

4.57 Rhwng 2015 a 2019, darparwyd 3622 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn siroedd gwledig Cymru, gan awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a darparwyr eraill. Mae'r rhain yn cynnwys 957 o unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd drwy rwymedigaethau cynllunio yn gysylltiedig â datblygiadau tai preifat newydd.[121]

4.58 Mae tai newydd hefyd wedi tueddu i gael eu hadeiladu mewn trefi ac ymylon trefi yn siroedd gwledig Cymru. Cyfyngir adeiladau o'r newydd mewn pentrefi bach gan bolisïau cynllunio sy'n adlewyrchu cyfyngiadau'r seilwaith a chadwraeth cymeriad aneddiadau. Ond, mae cyfyngiadau ar adeiladu tai newydd mewn pentrefi bach yn effeithio ar argaeledd tai a fforddiadwyedd yn y cymunedau hyn, a gallant greu rhwystrau ychwanegol yn y system dai. Er enghraifft, gall prinder eiddo bach sy'n addas i symud iddo o dŷ mawr wrth ichi ymddeol olygu bod trigolion hŷn sy'n dymuno aros mewn pentref yn aros mewn tai mawr, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar argaeledd eiddo o'r fath i deuluoedd iau.[122] Gall hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at heneiddio demograffig mewn cymunedau (ac yn ffactor mewn mudo yn hwyr yn eich bywyd o bentrefi i drefi bach).[123]

4.59 Mae anawsterau ynglŷn â math a lleoliad tai hefyd yn cyfrannu at gymeriad digartrefedd yng nghefn gwlad Cymru. Er bod cysgu ar y stryd i'w weld mewn rhai trefi gwledig, mae digartrefedd gwledig yn tueddu'n fwy cyffredinol i fod ar ffurfiau llai gweladwy, gan gynnwys unigolion a theuluoedd sy'n byw gyda pherthnasau neu ffrindiau, mewn llety dros dro, neu mewn tai annigonol neu is-safonol, yn ogystal ag mewn llety sy'n bell o'u dewis breswylfa..[124]

4.60 Cyfanswm y ddarpariaeth tai cymdeithasol oedd 64,182 o unedau yn siroedd gwledig Cymru yn 2019, sef 27.7 y cant o gyfanswm y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae tua un rhan o bump

[121] Darpariaeth tai fforddiadwy, StatsCymru, 2020.
[122] 'Montgomeryshire Villages Project', Adroddaid gan Brifysgol Aberystwyth i'r MCRA, 2015.
[123] 'Connecting rural and urban places: enduring migration between small areas in England and Wales', Nigel Walford, yn *The Next Rural Economies,* 2010.
[124] 'Digartrefedd yng Nghefn Gwlad Cymru 2006', Arsyllfa Wledig Cymru, 2006; 'Rural homelessness: prevention practices in Wales', Andrea Gibbons et al., *Social Policy and Society*, 2020.

o'r rhain yn unedau tai gwarchod neu lety â chymorth arall, gyda'r gweddill ar gael ar gyfer anghenion cyffredinol. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn darparu 57 y cant o unedau tai cymdeithasol y siroedd gwledig ac mae'r awdurdodau lleol yn darparu 43 y cant.[125]

4.58 Mae perchnogaeth ail gartref yn ffactor sy'n cyfrannu at anawsterau yn y chyflenwad tai a fforddiadwyedd yn y Gymru wledig. Ym mis Mawrth 2020 roedd 17,061 o ail gartrefi taladwy yn siroedd gwledig Cymru, neu 70 y cant o'r ail gartrefi yng Nghymru (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys ail eiddo a osodir ar gyfer arosiadau gwyliau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer ardrethi busnes ac sydd wedi'u heithrio o'r dreth gyngor).[126] Yn Ngwynedd a Sir Benfro y mae mwy na hanner y rhain, sef y siroedd sydd â'r gyfran fwyaf o ail gartrefi yn eu stoc dai hefyd (Tabl 4.16). Yn y siroedd gwledig, mae ail gartrefi wedi'u crynhoi'n arbennig mewn cymunedau arfordirol gan gynnwys Abersoch, Aberdyfi, Aberaeron a Chei Newydd. Effeithir yn anghymesur ar yr un cymunedau hyn hefyd drwy droi tai yn osodiadau gwyliau, gyda chynnydd o 915 y cant mewn gosodiadau eiddo cyfan yng Ngwynedd wedi'u rhestru ar AirBnb rhwng 2017 a 2019.[127]

4.59 Mae cyfansoddiad ail gartrefi yn gymhleth ac mae'n cynnwys eiddo hirdymor preswylwyr sy'n gweithio i ffwrdd ac eiddo a etifeddwyd yn ogystal ag eiddo a brynwyd i'w ddefnyddio ar y penwythnos neu'n dymhorol neu fel eiddo buddsoddi. Dangosodd astudiaethau fod ail gartrefi yn symptom o anghydraddoldebau a grëwyd gan ddirywiad sosio-economaidd gwledig yn gymaint â ffactor achosol, gyda marchnadoedd ail gartrefi yn dod i'r amlwg i ddechrau fel ymateb i nifer yr eiddo gwag a segur mewn cymunedau gwledig lle'r oedd diboblogi'n digwydd.[128] Er hynny, yn fwy diweddar, mae niferoedd yr ail gartref wedi'u gyrru gan brynu o'r tu allan, yn aml mewn cystadleuaeth â phrynwyr lleol. Mae ffigurau ar gyfer taliadau Treth Trafodiadau Tir yn dangos bod ychydig dros chwarter y gwerthiannau eiddo preswyl yn siroedd gwledig Cymru rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 yn ail gartrefi, gan godi i 36 y cant yn Ynys Môn a 37.5 y cant yng Ngwynedd (Tabl 4.17).[129]

4.60 Caniateir i awdurdodau lleol godi premiwm ar dreth gyngor ail gartrefi a hynny fel mesur lliniaru ar gyfer eu heffeithiau ar gymunedau lleol. Yn 2019-20, cododd pob awdurdod lleol gwledig yng Nghymru bremiwm ar ail gartrefi ac eithrio Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy. Roedd y premiymau a godid yn amrywio o 25 y cant yng Ngheredigion a Chonwy, i 35 y cant yn Ynys Môn, i 50 y cant yng Ngwynedd, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Phowys. Mae rhai ail gartrefi yn esempt rhag taliadau premiwm, fel bod cyfanswm o 80 y cant o'r ail gartrefi taladwy yn siroedd gwledig Cymru yn talu premiwm treth gyngor (88 y cant pan hepgorir Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy).

4.61 Ym mis Mawrth 2020, roedd 10,247 o eiddo preswyl gwag yn siroedd gwledig Cymru, sef tua 2 y cant o gyfanswm y stoc dai. Mae'r rhain yn cynnwys tai gwag a thai heb eu defnyddio, ac eiddo preswyl gwag sy'n gysylltiedig ag eiddo masnachol. Yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion y mae'r cyfrannau uchaf o eiddo gwag.[130]

---

125 Data ar y stoc dai cymdeithasol, StatsCymru, 2020.
126 Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol, StatsCymru, 2020.
127 Arolwg AirDNA 2020.
128 'Multilocality', Adroddiad byr ROBUST, 2020; gweler hefyd 'Dispelling a myth? Second homes in rural Wales', Nick Gallent at el., *Area*, 2003; 'Archives and interviews: Perspectives on population change in the Black Mountains, 1840-1983', Rob Gant, *Brycheiniog*, 2020.
129 Ystadegau Treth Trafodiadau Tir yn ôl awdurdod lleol a math o drafodiad, StatsCymru, 2020. Sylwch fod Treth Trafodiadau Tir yn cael ei chodi ar gyfradd uwch wrth brynu eiddo preswyl gwerth £40,000 yn fwy lle mae'r prynwr eisoes yn berchen ar un eiddo neu fwy, y gellir ei ddehongli fel procsi ar gyfer prynu ail gartref..
130 Cartrefi gwag ac ail gartrefi sy'n daladwy, yn ôl awdurdod lleol, StatsCymru, 2020.

| | Nifer yr ail gartrefi taladwy | % o gyfanswm y stoc dai | % o ail gartrefi taladwy yn talu premiwm treth gyngor |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2112 | 6.0% | 97% |
| Gwynedd | 4900 | 7.8% | 81% |
| Conwy | 1182 | 2.0% | 98% |
| Sir Ddinbych | 422 | 1.0% | 90% |
| Powys | 1313 | 2.0% | 70% |
| Ceredigion | 1735 | 4.9% | 95% |
| Sir Benfro | 4072 | 6.4% | 90% |
| Sir Gaerfyrddin | 1125 | 1.3% | 0% |
| Sir Fynwy | 200 | 0.4% | 0% |
| *Cyfanswm y Gymru wledig* | *17061* | *3.5%* | *80%* |

Tabl 4.16: Ail gartrefi yn siroedd gwledig Cymru, 2020. Ffynhonnell: StatsCymru.

| | Trafodiadau y codwyd Treth Trafodiadau Tir arnynt ar y gyfradd uwch | % o'r holl drafodiadau eiddo preswyl |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 480 | 36.2% |
| Gwynedd | 830 | 37.5% |
| Conwy | 680 | 28.3% |
| Sir Ddinbych | 370 | 22.2% |
| Powys | 450 | 21.7% |
| Ceredigion | 300 | 24.8% |
| Sir Benfro | 690 | 29.2% |
| Sir Gaerfyrddin | 780 | 23.2% |
| Sir Fynwy | 300 | 9.0% |
| *Cyfanswm y Gymru wledig* | 4880 | 26.8% |

Tabl 4.17: Taliadau Treth Trafodiadau Tir ar y gyfradd uwch (procsi ar gyfer prynu ail gartref) yn siroedd gwledig Cymru, Ebrill 2019-Mawrth 2020. Ffynhonnell: StatsCymru.

## Y Gymraeg

4.62 Bernir yn gyffredin mai cymunedau gwledig y Gogledd a'r Gorllewin yw cadarnleoedd y Gymraeg, a adnabyddir fel *y Fro Gymraeg*. Yn siroedd gwledig Cymru y mae un o bob dau siaradwr Cymraeg yn byw. Ar draws y siroedd gwledig yn gyffredinol, mae 43.9 y cant o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys 75.1 y cant yng Ngwynedd, 66.0 y cant yn Ynys Môn a 61.4 y cant yng Ngheredigion.[131] Yn y siroedd hyn a'r rhan fwyaf o rannau eraill o'r Gymru wledig, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn fwy mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol yn y siroedd, gan danlinellu arwyddocâd cymunedau gwledig (Tabl 4.18). Yng Nghyfrifiad 2011, roedd 154 o wardiau yng Nghefn Gwlad Cymru lle dywedodd mwy na hanner y trigolion eu

[131] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, StatsCymru, 2020.

bod yn gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys 15 gyda dros 80 y cant o drigolion yn gallu siarad Cymraeg (Ffigur 4.20).[132]

| | % o'r trigolion dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **Ardaloedd trefol** | **Ardaloedd gwledig** |
| Gwynedd | 65.4% | 38.5% | 70.1% |
| Ynys Môn | 57.2% | 42.2% | 60.1% |
| Ceredigion | 47.3% | 30.9% | 52.8% |
| Sir Gaerfyrddin | 43.9% | 37.7% | 49.8% |
| Conwy | 27.4% | 19.8% | 44.3% |
| Sir Ddinbych | 24.6% | 14.9% | 33.9% |
| Sir Benfro | 19.2% | 12.0% | 21.4% |
| Powys | 18.6% | 25.2% | 17.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 15.3% | 13.0% | 22.6% |
| Sir y Fflint | 13.2% | 12.0% | 15.7% |
| Wrecsam | 12.9% | 13.0% | 12.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 12.3% | 12.4% | 12.0% |
| Abertawe | 11.4% | 10.4% | 18.7% |
| Caerffili | 11.2% | 11.2% | 11.2% |
| Caerfyrddin | 11.1% | 10.9% | 19.2% |
| Bro Morgannwg | 10.8% | 10.6% | 11.6% |
| Sir Fynwy | 9.9% | 9.7% | 10.1% |
| Tor-faen | 9.8% | 9.8% | 10.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9.7% | 9.9% | 9.4% |
| Casnewydd | 9.3% | 9.3% | 9.5% |
| Merthyr Tudful | 8.9% | 8.8% | 9.3% |
| Blaenau Gwent | 7.8% | 7.8% | 8.4% |

Tabl 4.18: Siaradwyr Cymraeg ardaloedd gwledig a threfol yn ôl awdurdod lleol, 2011. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS. Ardaloedd gwledig a threfol wedi'u diffinio yn ôl dosbarthiad yr SYG.

4.63 Gostyngodd cyfran y trigolion a allai siarad Cymraeg mewn mwy nag 80 y cant o'r wardiau ar draws siroedd gwledig Cymru rhwng 2001 a 2011 (Ffigur 4.21).[133] Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn deillio'n gyffredin o gyfuniad o allfudiad siaradwyr Cymraeg, ar gyfer addysg, cyflogaeth neu i ddod o hyd i dai fforddiadwy, a mewnfudiad rhai nad ydynt yn siarad. Bernir bod angen o leiaf 70 y cant o boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn i'r Gymraeg weithredu fel iaith bob dydd cymuned, a gostyngodd deg ward yn y Gymru wledig o dan y trothwy hwn rhwng 2001 a 2011.[134] At ei gilydd, yn 2020, honnai 65 y cant o bobl Gwynedd, 52 y cant yn Ynys Môn, 40 y cant yng Ngheredigion a 31 y cant yn Sir Gaerfyrddin eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.[135]

---

[132] Proffil Cymraeg, Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.
[133] Sgiliau Cymraeg, Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, drwy NOMIS
[134] *New Geographies of Language: Language, Culture and Politics in Wales*, Rhys Jones a Huw Lewis, 2019.
[135] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Amlder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, StatsCymru, 2020.




Ffigur 4.20: Cyfran y boblogaeth (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer wardiau yn siroedd gwledig Cymru, 2011. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.




Ffigur 4.21: Newid yng nghyfran y boblogaeth (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer wardiau yn siroedd gwledig Cymru, 2001 - 2011. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, drwy NOMIS.

4.64 Ceir cysylltiad cryf rhwng y Gymraeg a ffermio mewn llawer rhan o'r Gymru wledig, gyda 43 y cant o'r bobl a gâi eu cyflogi yn y sector Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota yn 2011 yn gallu siarad Cymraeg – cyfran uwch nag unrhyw grŵp galwedigaethol arwyddocaol arall.[136] Mae hyn yn arbennig o wir yn ardaloedd uchel y Canolbarth a'r Gogledd, gydag arolwg gan NFU Cymru o ffermwyr yr ucheldir yn canfod bod 53 y cant o'r ymatebwyr yn rhugl eu Cymraeg. [137] Gan hynny, mae gostyngiadau yn nifer y ffermwyr yng Nghymru a chau neu resymoli safleoedd lle mae ffermwyr yn cyfarfod ac yn rhyngweithio, megis marchnadoedd da byw, yn cyfrannu at leihad yn y defnydd bob dydd o'r Gymraeg yn y Gymru wledig. Yn yr un modd, cofnododd arolwg NFU Cymru o ffermydd yr ucheldir gyfraniad arwyddocaol aelwydydd ffermio mewn gweithgareddau cymunedol gwledig, gan gynnwys yn yr ardaloedd Cymraeg yn bennaf, gydag 83 y cant o'r ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol o leiaf yn eu cymuned leol, 35 y cant yn perthyn i gapel neu eglwys leol, a 22 y cant yn ymwneud â'r cyngor cymuned.[138]

## Cydadwaith Gwledig – Trefol

4.65 Ceir cysylltiadau a rhyngweithio cryf rhwng cefn gwlad Cymru a threfi a dinasoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r boblogaeth wledig yn dibynnu ar ganolfannau trefol ar gyfer gofal iechyd arbenigol a gwasanaethau proffesiynol, y rhan fwyaf o'u siopa drwy gymharu, a chyfran o gyflogaeth.

4.66 Amcangyfrifir bod tua 25,000 o drigolion siroedd gwledig yng Nghymru yn cymudo i'r gwaith mewn ardaloedd trefol yn bennaf yng Nghymru, gan gynnwys 10,900 yn Abertawe, 4,000 yng Nghasnewydd, 2,100 yng Nghaerdydd a 2,100 yn Wrecsam (Ffigur 4.22). Amcangyfrifir bod 25,000 o drigolion eraill yn croesi'r ffin i weithio yn Lloegr, gan gynnwys tua 5,400 ym Mryste, 4,800 yng ngogledd-orllewin Lloegr, a 3,700 a 2,900 yn siroedd gwledig cyfagos Amwythig a Henffordd yn y drefn honno. Amcangyfrifir bod nifer tebyg, rhyw 23,000, o bobl yn cymudo i siroedd gwledig i weithio o rannau eraill o Gymru, gan gynnwys 6,700 o Abertawe, 2,400 o Gasnewydd ac 8,300 o gymoedd y De. Amcangyfrifir bod o leiaf 7,500 o bobl yn cymudo i'r gwaith yn siroedd gwledig Cymru o Loegr. Gan hynny, cymharol fach yw dibyniaeth net siroedd gwledig Cymru ar ddinasoedd a threfi y tu allan i'r rhanbarth ar gyfer cyflogaeth.[139]

4.67 Ceir hefyd hierarchaeth o gysylltiadau trefol-gwledig â siroedd gwledig Cymru rhwng trefi ac ardaloedd gwledig cyfagos. Dangosodd dadansoddiad gan Arsyllfa Wledig Cymru ar ddata Cyfrifiad 2001 fod y trefi mwyaf, gan gynnwys Aberystwyth, Bangor, Caerfyrddin a Hwlfforddd, yn ganolfannau cyflogaeth sylweddol i ardaloedd gwledig cyfagos gyda mwy na 6,000 o gymudwyr yr un yn dod i mewn.[140] Nodwyd hefyd fod gan nifer o drefi llai gyfran uchel o swyddi yn y gweithle i'r boblogaeth o oedran gweithio a nifer sylweddol o gymudo i mewn, gan gynnwys Llangefni, Caernarfon, y Drenewydd, y Trallwng, Llandrindod, Aberhonddu, Doc Penfro a'r Fenni. I'r gwrthwyneb, roedd gan drefi bach yn nes at aneddiadau mwy gan gynnwys Llanrwst, Crucywel, Penfro a Caldicot lifoedd cymudo net tuag allan. Mae'r trefi hyn hefyd yn tueddu i fod â swyddogaethau mwy cyfyngedig fel canolfannau gwasanaeth i'r poblogaethau gwledig cyfagos.

4.68 Mae'r cyfuniad o boblogaeth sy'n cymudo, poblogaeth sy'n is yn ystod y dydd a mewnlif perchnogion ail gartrefi, twristiaid ac ymwelwyr ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau yn golygu

[136] 'Amaethyddiaeth yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2019.
[137] 'Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru', NFU Cymru, 2020.
[138] Ibid.
[139] Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur, StatsCymru, 2020.
[140] 'Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig a'u Cefnwledydd 2007', Arsyllfa Wledig Cymru, 2007.

bod gwir nifer y bobl sy'n bresennol yng nghefn gwlad Cymru yn amrywio'n sylweddol, gan greu heriau o ran cynllunio gwasanaethau a seilwaith.[141]

4.69 Mae llifoedd economaidd a llifoedd cyflogaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol wedi ysgogi modelau datblygu economaidd sy'n rhag-weld y bydd buddsoddiadau a thwf mewn canolfannau trefol yn golygu y bydd manteision yn treiglo allan i'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae hyn yn dybiaeth allweddol ym model datblygu economaidd y ddinas-ranbarth, fel y'i mabwysiadwyd ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a bargeinion twf Bae Abertawe. Ond, mae'r dybiaeth wedi'i chwestiynu gan rai sylwedyddion yn y llenyddiaeth astudiaethau rhanbarthol, y mae nifer ohonynt wedi beirniadu modelau dinas-ranbarth am ymyleiddio buddiannau a photensial ardaloedd gwledig o fewn y rhanbarth.[142]




Ffigur 4.22: Llifoedd cymudo rhwng siroedd gwledig Cymru a dinasoedd a rhanbarthau y tu allan i'r Gymru wledig, 2019 (amcangyfrif o'r niferoedd). Ffynhonnell: StatsCymru

## Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Brecsit)

4.70 Daeth diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020 â pherthynas fasnachu newydd rhwng Prydain a'r UE sydd â goblygiadau o bwys i economi gwledig Cymru. Creodd y cytundeb hwyr rhwng y ddwy ochr ansicrwydd sylweddol a oedd yn effeithio ar allu busnesau'r Gymru wledig i gynllunio'n briodol, ac er bod y senario masnachu ar delerau'r SMB [WTO] a chyflwyno tariffau wedi'i osgoi, bydd telerau Cytundeb

[141] 'Multilocality', Adroddiad Byr ROBUST, 2020.
[142] 'Conceptualisation of Rural-Urban Relations and Synergies', Un o ddeunyddiau ROBUST 1.1, 2017; hefyd 'Governing beyond the metropolis: placing the rural in city-region development', John Harrison a Jesse Heley, *Urban Studies*, 2015; 'Rural development and the economies of rural areas', Neil Ward, yn *A New Rural Agenda*, 2006.

Masnach a Chydweithredu'r DU-UE yn creu nifer o oblygiadau i fusnesau a chynhyrchwyr yn y Gymru wledig a fydd yn cael eu profi'n anwastad rhwng sectorau.[143]

4.71 Mae bron tri chwarter allforion rhyngwladol bwyd a diod o Gymru yn mynd i'r UE ac felly mae'r sector ffermio a bwyd yn agored i newidiadau o ran mynediad i'r farchnad a chostau masnach.[144] Mae'r diwydiant ffermio defaid ymhlith y rhai mwyaf agored, gan fod dros draean o gig oen Cymru yn cael ei allforio i'r UE.[145] Mae marchnadoedd Ewropeaidd, yn enwedig yn yr Eidal a Sbaen, yn arbennig o bwysig o ran 'cig oen ysgafn' sy'n gysylltiedig â ffermio mynydd yng Nghymru.[146] Rhagwelodd gwaith dadansoddi y gallai'r posibilrwydd o godi tollau ar allforion cig oen y Deyrnas Unedig i'r UE fod wedi tanseilio hyfywedd llawer o ffermydd defaid y Gymru wledig.[147] Er hynny, mae gostyngiadau sylweddol wedi'u darogan hefyd yn incwm busnesau fferm ar gyfer ffermydd gwartheg defaid a chig eidion yng Nghymru o dan senarios sy'n agos at delerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, gan adlewyrchu'n rhannol effaith bosibl chwyddiant ar brisiau'r costau sy'n gysylltiedig â gofynion tollau newydd.[148]

4.72 Mae gan sector llaeth Cymru fwy o obaith o elwa ar Brecsit, drwy gymryd lle llaeth a chynhyrchion llaeth wedi'u mewnforio ym marchnadoedd y Deyrnas Unedig. Cyfrannodd symudiadau cynnar yn y cyfeiriad hwn at gynnydd ym mhrisiau llaeth ac incwm ffermydd llaeth ar ôl 2016, ond gostyngodd incwm eto yn 2019.[149] Mae rhai amcanestyniadau'n rhag-weld y bydd ffermio llaeth yng Nghymru yn ehangu'n sylweddol, ond mae gallu Cymru i gasglu'n llawn y gwerth a gynhyrchir drwy gynhyrchu mwy o laeth wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan y capasiti cyfyngedig i brosesu llaeth yng Nghymru.[150]

4.73 Mae sector pysgodfeydd Cymru yn dal yn agored iawn i effaith Brecsit oherwydd ei gyfeiriadedd tuag at bysgod cregyn, y mae 90 y cant ohonynt yn cael eu hallforio i'r UE gyda chyfleoedd cyfyngedig i ailgyfeirio i farchnadoedd domestig. Mae allforio pysgod cregyn ffres i'r UE yn dibynnu ar drafnidiaeth gyflym a di-dor, ac mae oedi mewn porthladdoedd oherwydd trefn dollau newydd yn creu her i fusnesau bwyd môr y Gymru wledig o ran costau uwch a'r risg y bydd llwythi'n cael eu difetha.[151] Cyfyngedig yw cyfanswm cyflogaeth y sector pysgodfeydd yn y Gymru wledig, ond mae wedi'i chanoli mewn nifer fach o borthladdoedd lle gallai'r effaith fod yn sylweddol, gan gynnwys Caergybi, Saundersfoot, Abergwaun, Amlwch, Aberystwyth a Morfa Nefyn.[152] Gallai Aberdaugleddau gael ei effeithio hefyd os bydd llai o dreillongau sydd wedi'u cofrestru gan yr UE yn glanio yno. Gan fod pysgod cregyn yn rhywogaethau sydd heb gwota, does fawr o fudd uniongyrchol i'w gael o ddod â'r rheoliadau pysgota yn ôl i'r Deyrnas Unedig. Bydd cyfleoedd i bysgota am fwy o rywogaethau di-gwota yn nyfroedd Cymru, ond ychydig o gapasiti sydd gan y llynges bysgota bresennol yng Nghymru i fanteisio ar hynny a byddai angen

143 'UK-EU Trade and Cooperation Agreement: Summary', 2020.
144 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018.
145 'Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019', Llywodraeth Cymru, 2020.
146 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018
147 Ibid.
148 Ibid.
149 Arolwg Busnesau Fferm 2019
150 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018
151 'Brexit: Welsh seafood in "grave state" over port delays', BBC News Wales, 16 Ionawr 2021; 'Family-run business risks losing £50,000 of shellfish after Brexit delays at French border', Wales Online, 14 Ionawr 2021.
152 'Goblygiadau Brexit i Gyfleoedd Pysgota yng Nghymru', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2018.

buddsoddiad sylweddol i alluogi'r diwydiant i ailffocysu, fel bod y manteision yn debycach o gael eu gwireddu gan longau o wledydd eraill y Deyrnas Unedig.

4.74 Gallai'r sectorau coedwigaeth a phrosesu coed yng Nghymru elwa o'r galw cynyddol am bren a chynhyrchion pren a gynhyrchir yn y wlad mewn ymateb i gostau uwch neu anawsterau cadwyn gyflenwi ar gyfer mewnforion o'r UE. Mae manteision hirdymor ynghlwm wrth ehangu cynhyrchiant coedwigaeth, sy'n golygu oedi, ac mae'r amcanestyniadau mwyaf optimistaidd yn rhagdybio y bydd gorchudd coedwigoedd Cymru yn cynyddu wrth i dir gael ei ryddhau o ffermio defaid, sy'n rhagdybiaeth ddadleuol.

4.75 Bydd rhagolygon diwydiannau gwledig Cymru yn y tymor hirach yn cael eu llunio gan gytundebau masnach a negodir gan y Deyrnas Unedig gyda gwledydd eraill, yn ogystal â'r berthynas fasnachu â'r UE. Mae cynnyrch Cymru'n cael ei allforio i nifer o wladwriaethau y tu hwnt i Ewrop, gyda chig oen o Gymru, er enghraifft, yn cael ei werthu fel cynnyrch premiwm yng Nghanada, y Swistir, yr Emiradau Arabaidd Unedig a Hong Kong, ac efallai bod yna botensial i ymestyn y marchnadoedd hyn drwy gytundebau masnach newydd.[153] Er hynny, nid yw'r rhain yn debygol o fod yn ddigon i wneud iawn am lai o allforion i'r UE. Rhagwelir hefyd y bydd darpar gytundebau masnach ag Awstralia a Seland Newydd yn cael effaith negyddol net ar amaethyddiaeth Cymru yn sgil mwy o gystadleuaeth am farchnadoedd y Deyrnas Unedig a phwysau tuag i lawr ar brisiau, er y gallai telerau masnach a'r sefyllfa fasnach fyd-eang ehangach ddylanwadu ar raddau'r effeithiau.[154]

4.76 Mae telerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE a'r cyfundrefnau newydd ar y ffin yn debygol o arwain at ganlyniadau sylweddol i borthladdoedd fferi Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro. Nid yw rhagolygon y gallai tagfeydd ac aflonyddwch i ardaloedd lleol ddeillio o ddiffyg paratoi digonol mewn porthladdoedd wedi'u gwireddu yn ystod wythnosau cyntaf 2021, yn rhannol oherwydd bod llawer llai o draffig yn sgil cyfyngiadau COVID-19, ond mae hyn yn dal yn risg bosibl pan fydd lefelau traffig yn gwella.[155] Er hynny, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg hefyd y gallai traffig drwy borthladdoedd Cymru gael ei leihau'n barhaol wrth i gerbydau sy'n cael eu cludo rhwng Gweriniaeth Iwerddon a chyfandir Ewrop newid i hwylio'n uniongyrchol rhwng Iwerddon a Ffrainc.[156] Byddai gostyngiad parhaol mewn traffig tramwy yn lleihau busnes cyffredinol y porthladdoedd ac yn cael effeithiau posibl ar fusnesau gwasanaeth yn nhrefi porthladd Abergwaun, Caergybi a Doc Penfro ac ar hyd coridorau'r A55 a'r M4.

4.77 Gallai diwedd y rhyddid i symud gyda'r Undeb Ewropeaidd a chyflwyno system fewnfudo newydd yn y Deyrnas Unedig ddod â heriau o ran recriwtio llafur mewn rhai sectorau o economi'r Gymru wledig. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gan mai gwladolion o'r AEE yw 7 y cant o feddygon Cymru a 2.4 y cant o'r cyflogeion mewn gofal cymdeithasol. Gallai rhwystrau sy'n atal recriwtio o'r AEE yn y dyfodol arwain at brinder mewn rhai meysydd a allai gael yr effaith fwyaf ar bractisau a sefydliadau llai yn y lleoliadau mwyaf gwledig.[157] Mae iechyd anifeiliaid yn sector sy'n arbennig o agored hefyd gan mai gwladolion o'r AEE yw 25 y cant o'r gweithwyr milfeddygol proffesiynol yng Nghymru, gan gynnwys 80 y cant o'r milfeddygon mewn lladd-dai,

[153] 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018
[154] Rhagolygon Llywodraeth Cymru
[155] 'UK is not doing enough to get Irish-facing ports ready for Brexit', Jonathan Evershed a Rhys Jones, The Conversation, 15 Hydref 2020.
[156] 'Brexit: Irish hauliers "bypassing Welsh ports", say bosses', Newyddion BBC Cymru, 18 Ionawr 2021.
[157] 'Sut y gallai newidiadau yn yr economi wledig ar ôl Brexit effeithio ar anghydraddoldebau gofal iechyd/iechyd yng Nghymru wledig', Briff Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019. Daw'r ffigurau ar gyfer y gweithlu presennol o 'Brexit and the Health and Social Care Workforce in the UK', Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2018.

ac mae'r gofyn am wasanaethau milfeddygol yn debygol o gynyddu o ganlyniad i reoliadau masnach newydd.[158] Gallai heriau wrth recriwtio gweithwyr milfeddygol proffesiynol gyfyngu ar allu'r sector prosesu bwyd yng Nghymru i addasu at reoliadau newydd ac ymateb i gyfleoedd newydd.

4.78 Mae Llafur o aelod-wladwriaethau'r UE hefyd wedi bod yn bwysig yn y sectorau prosesu bwyd, gweithgynhyrchu a lletygarwch yn y Gymru wledig, gan fod y rhan fwyaf o weithwyr yr UE yn cael eu cyflogi ar gyflogau sy'n llawer is na'r trothwy enillion a gyflwynwyd mewn deddfwriaeth mewnfudo newydd yn y Deyrnas Unedig. [159] Gallai cwtogi recriwtio o'r UE gael yr effaith o godi cyflogau wrth i gyflogwyr gystadlu am lafur lleol, ond nodwyd risgiau hefyd y gallai rhai busnesau adleoli o'r Gymru wledig i safleoedd sy'n nes at farchnadoedd llafur ehangach.[160]

4.79 Mae canlyniadau Brecsit i'r Gymru wledig hefyd yn cynnwys goblygiadau yn sgil newid y polisïau a'r rhaglenni sy'n darparu cymorth i amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Yng nghyfnod rhaglennu 2014-20, cafodd Cymru tua €320 miliwn y flwyddyn o dan Golofn 1 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y dosbarthwyd €260 miliwn ohono i ryw 17,000 o fusnesau fferm drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol.[161] Mae tua 87 y cant o'r taliadau sylfaenol wedi'u talu i fusnesau fferm yn siroedd gwledig Cymru, a Phowys (€60m), Gwynedd (€28m) a Sir Gaerfyrddin (€28m) oedd y buddiolwyr mwyaf (Ffigur 4.23).

4.80 Mae Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru, a gefnogir o dan Golofn 2 y Polisi Amaethyddol Cyffredin, wedi darparu cyfanswm o €292.4 miliwn yng nghronfeydd yr UE ynghyd â €655.8 miliwn ychwanegol o arian cyfatebol yn ystod cyfnod rhaglennu 2014 - 2020. O'r cyfanswm cyfunol o ryw €950 miliwn, cyllidebwyd 62.2 y cant at adfer ecosystemau drwy daliadau amaeth-amgylcheddol, 14.4 y cant at gefnogi hyfywedd ffermydd, 14.3 y cant at wydnwch carbon isel, 6 y cant at ddatblygu cymunedau gwledig, 2.4 y cant at arallgyfeirio a mentrau bach, a 0.5 y cant at fynediad at IT o safon.[162] Ym mlwyddyn ariannol 2019, gwnaed taliadau datblygu gwledig o €102 miliwn, a Phowys (€24m), Ceredigion (€21m) a Gwynedd (€15m) oedd y buddiolwyr mwyaf (Ffigur 4.24). Mae'r RhDG wedi cynnwys €56.6 miliwn o gyllid ar gyfer mentrau LEADER i gefnogi datblygu cymunedau gwledig, a ddarperir drwy grwpiau gweithredu lleol dan arweiniad cynghorau fel yr awdurdodau gweinyddu. Ers ei sefydlu ym 1991, mae'r rhaglen LEADER wedi chwarae rhan bwysig o ran meithrin gallu'r gymuned a chefnogi 'seilwaith meddal' cymunedau gwledig yng Nghymru. Mae Blwch 4.1 yn rhoi darlun o brosiectau a gefnogwyd gan un grŵp gweithredu lleol yng nghyfnod rhaglennu 2014-2020.[163]

[158] 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018
[159] 'Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig a Chymoedd De Cymru', Arsyllfa Wledig Cymru, 2014.
[160] 'Ar ôl Brecsit: 10 cwestiwn allweddol o ran polisi gwledig yng Nghymru', Canolfan yr Economi Wledig a Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, 2018.
[161] 'Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales', Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018
[162] 'Factsheet on the 2014-2020 Rural Development Programme for Wales (United Kingdom)', Y Comisiwn Ewropeaidd.
[163] 'UK CAP Payments 2019', Corff Cydlynu'r Deyrnas Unedig.




Ffigur 4.23: Taliadau i ffermwyr yng Nghymru o dan Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn ôl awdurdod lleol, Blwyddyn Ariannol 2019 (16 Hydref 2018 – 15 Hydref 2019). Ffynhonnell: Corff Cydlynu'r Deyrnas Unedig




Ffigur 4.24: Taliadau datblygu gwledig o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn ôl awdurdod lleol, Blwyddyn Ariannol 2019 (16 Hydref 2018 – 15 Hydref 2019). (DS: Grantiau i sefydliadau wedi'u mapio yn ôl y swyddfa gofrestredig; Nid yw ffigurau Ceredigion yn cynnwys €10.8m o daliadau i Lywodraeth Cymru). Ffynhonnell: Corff Cydlynu'r Deyrnas Unedig

**Blwch 4.1: Enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd gan GGLl LEADER Cynnal y Cardi yng Ngheredigion, 2014-2020**

- Cynlluniau chwarae a hamdden yng nghefn gwlad Ceredigion
- Llwybr Beicio Dyffryn Aeron
- Prosiect Cydnerthedd Gwledig Pontio'r Cenedlaethau (Aberteifi a Thregaron)
- Prosiectau iechyd meddwl Amethyst ac 'Yma i Chi'
- Bryngaer Pen Dinas
- Prosiect Ymgysylltu Cymunedol Coed-y-bont
- Academi Arweinyddiaeth Gymunedol

4.81 Mae cefn gwlad Cymru hefyd wedi cael cyllid drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a ddarperir drwy raglenni rhanbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (gan gynnwys Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Benfro) a Dwyrain Cymru (gan gynnwys Sir Fynwy a Phowys). Yng nghyfnod rhaglennu 2014-2020, mae rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi darparu £1604.6 miliwn o arian yr UE a £3078.63 miliwn mewn arian cyfatebol ar draws ardaloedd trefol a gwledig, ac mae rhaglen Dwyrain Cymru wedi darparu £325.3 miliwn o arian yr UE a £987.8 miliwn mewn arian cyfatebol ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Yn ystod y cyfnod blaenorol 2007-2013, cafodd rhaglen rhanbarth cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ei chydnabod am greu 10,945 o swyddi a 3,155 o fusnesau newydd mewn siroedd gwledig, a chefnogodd nifer o brosiectau mawr gan gynnwys Cynllun Ynni Morol Ynys Môn, Canolfan Bwyd Cymru ym Modnant, ailddatblygu Castell Aberteifi, Canolfan Dreftadaeth Nant Gwrtheyrn, Llwybr Arfordir Ceredigion a gwelliannau i'r A40 yn Sir Fynwy.[164]

4.82 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig system newydd ar gyfer cymorth amaethyddol i ddisodli Colofn 1 y PAC drwy un Taliad Fferm Gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar egwyddor allweddol rheoli tir yn gynaliadwy ac sy'n ymgorffori cymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd a darparu nwyddau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys manteision amgylcheddol a manteision cymdeithasol gan gynnwys diwylliant y Gymraeg.[165] Ond, mae beirniadaeth wedi'i chyfeirio at y cynigion oherwydd eu pwyslais ar fesurau amgylcheddol fel sail ar gyfer ymyriadau datblygu gwledig ac am beidio â nodi'n benodol gyfraniad amaethyddiaeth Cymru at ddiogelwch bwyd fel nwydd cyhoeddus, yn ogystal â hepgor dimensiynau cymdeithasol a diwylliannol datblygu gwledig.

4.83 Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru. Mae hwn yn disodli'r fframwaith blaenorol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE a drefnwyd drwy ddau ranbarth 'NUTS 2' Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (a gynlluniwyd i sicrhau'r cymhwyster ehangaf posibl ar gyfer cyllid cydlyniant yr UE) gyda strwythur a ddarperir drwy Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n integreiddio ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r ymagwedd arfaethedig yn disodli cyllid ERDF a Datblygu Gwledig yr UE ac mae'r ddogfen fframwaith yn dweud y bydd y Fframwaith:

> yn sicrhau bod anghenion yr economi wledig yn cael eu diwallu. Bydd gweithgareddau o dan arweiniad cymunedau gwledig, a gweithgareddau sy'n eu cynnwys mewn ffordd ymarferol, yn allweddol i wireddu blaenoriaethau yn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Bydd hyn yn hwyluso cynlluniau a darpariaeth seiliedig ar leoedd mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd a nodwyd yn lleol ar draws

[164] 'Brexit and Rural Wales', Michael Woods, Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru 2018.
[165] 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Dogfen Ymgynghori', Llywodraeth Cymru, 2019

ardaloedd gwledig. Bydd darpariaeth hefyd ar gael i hwyluso ymatebion arloesol i anghenion a chyfleoedd penodol yr economi wledig a chymunedau gwledig, ynghyd â chyllid i brif ffrydio ac ehangu syniadau llwyddiannus.[166]

Er hynny, mewn cyferbyniad â'r RhDG blaenorol, nid yw'r fframwaith arfaethedig yn cynnwys ffrwd datblygu gwledig unigryw ac ar wahân ac nid yw'n neilltuo cyllid yn benodol ar gyfer datblygu gwledig. Mae'r fframwaith yn cynnig parhad *de facto* y rhaglen LEADER drwy ymestyn Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned i bob rhan o Gymru, ond nid yw'n ymhelaethu ar fecanweithiau cyflawni ac mae'n awgrymu y bydd ardaloedd gwledig yn cystadlu ag ardaloedd trefol am gyllid o fewn blaenoriaethau ac egwyddorion a sefydlir ar lefel ranbarthol yn y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol

4.84 Mae gweithredu'r cynigion a amlinellir gan Lywodraeth Cymru yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* a'r *Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol* yn dibynnu ar ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig [UKSPF] newydd, a fydd yn disodli'r Cronfeydd Strwythurol a ddarparwyd gynt gan yr UE. Nid yw'r rhaniad cymwyseddau a chyfrifoldebau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn gwbl glir adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Tachwedd 2020, nododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y câi UKSPF ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig, ond nid yw union oblygiadau'r datganiad hwn wedi'u cadarnhau. Nid oes manylion wedi'u rhoi ychwaith ar sefyllfa cyllid datblygu gwledig, gan gynnwys y rhaglen LEADER, o fewn cynllun UKSPF ledled y Deyrnas Unedig. Bydd goblygiadau pellach i Gymru wledig yn dilyn darpariaethau yn UKSPF i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ariannu prosiectau seilwaith yng Nghymru, gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, drwy'r Fargen Newydd i Brydain.[167]

4.84 Bydd Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn dod â rhagor o oblygiadau i amaethyddiaeth a sectorau economaidd eraill y Gymru wledig.[168] Mae'r rhain yn cynnwys pennu safonau cyffredin, yn ogystal ag ymagwedd ledled y Deyrnas Unedig at gymorth gwladwriaethol a bennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar fabwysiadu polisïau caffael cyntaf lleol gan awdurdodau cyhoeddus. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael, er gwaethaf sicrwydd y byddai cyllid ar gyfer cymorth amaethyddol a datblygu economaidd yn cael ei gynnal ar lefelau cyn Brecsit. Ym mis Tachwedd 2020, gosododd yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyllideb gyfyngedig o £220 miliwn ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2021-2022, sydd gryn dipyn yn is na'r gwerth a ragwelwyd. Gosodwyd cyllid ar gyfer taliadau cymorth amaethyddol yng Nghymru £ £270 miliwn ar gyfer 2021-22, sy'n ostyngiad o £95 miliwn ar gyllideb Colofn 1 y PAC cyn Brecsit.[169]

## Effaith COVID-19

4.85 Mae pandemig COVID-19 yn 2020 wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa gymdeithasol ac economaidd y Gymru wledig, yn uniongyrchol ac o ganlyniad i fesurau rheoli, mewn rhai agweddau yn dwysáu neu'n cyflymu tueddiadau presennol ac mewn eraill yn cyflwyno heriau newydd. Yn feddygol, mae nifer yr achosion o COVID-19 wedi bod yn is ar gyfartaledd mewn siroedd gwledig nag mewn rhannau trefol o Gymru, ond gyda rhai clystyrau ac achosion lleol nodedig. Roedd dwysedd poblogaeth cymharol isel cefn gwlad yn arafu trosglwyddo'r feirws, i ryw raddau yn lliniaru ar y ffactorau risg gan gynnwys y proffil poblogaeth hŷn a chapasiti gofal

[166] 'Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2020, tudalen 8.
[167] 'PM: A New Deal for Britain', Hysbysiad i'r wasg gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, 20 Mehefin 2020.
[168] 'United Kingdom Internal Market Act 2020', Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2020.
[169] 'Spending Review: Row over post-EU Welsh farming cash', Newyddion BBC Cymru, 25 Tachwedd 2020.

iechyd mwy cyfyngedig.[170] Mae dadansoddiad gan yr SYG yn dangos bod cyfradd y marwolaethau o COVID-19 fesul 10,000 o drigolion mewn rhanbarthau 'tenau eu poblogaeth' yng Nghymru a phentrefi a chefn gwlad mewn llai o ranbarthau yn sylweddol is na chyfradd mewn ardaloedd trefol yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2020 (Ffigur 4.25).[171]

4.86 Yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol rhwng Mawrth a Mehefin 2020, roedd ychydig dros 100,000 o weithwyr yn siroedd gwledig Cymru ar ffyrlo, sef rhwng chwarter a thraean o'r gweithlu.[172] Roedd y cyfraddau uchaf yng Nghonwy, lle rhoddwyd 31.0 y cant o'r gweithlu ar ffyrlo, Sir Benfro a Phowys (29.2 y cant), i gyd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 25 y cant (Tabl 4.19). Yn ogystal, gwnaeth 44,400 o weithwyr hunangyflogedig mewn siroedd gwledig gais i'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogedig [SEISS], sef 43 y cant o'r holl geisiadau o Gymru. Powys a gyflwynodd y nifer fwyaf o geisiadau i SEISS yng Nghymru ar ôl Caerdydd.[173] Cafwyd cynnydd sydyn mewn diweithdra yn y Gymru wledig ar ôl dechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf, gyda naid o 88 y cant yn nifer yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn y siroedd gwledig rhwng Mawrth ac Ebrill 2020.[174] Roedd y gyfradd ddiweithdra ym mis Hydref 2020 o leiaf ddwywaith ei lefel ym mis Hydref 2019 yn y mwyafrif o'r siroedd gwledig, gyda'r cynnydd cyfrannol mwyaf ym Mhowys (cynnydd o 170 y cant ar Hydref 2019) a Cheredigion (cynnydd o 133 y cant ar Hydref 2019) (Ffigur 4.26). Cofnododd Conwy (6.5 y cant), Sir Ddinbych (6.2 y cant) ac Ynys Môn (6.0 y cant) gyfraddau diweithdra uwchlaw cyfartaledd Cymru ym mis Hydref 2020, gyda chyfraddau diweithdra mewn siroedd gwledig eraill yn is na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig.




Ffigur 4.25: Marwolaethau yng Nghymru sydd ag achos marwolaeth a briodolir i COVID-19 fesul 10,000 o drigolion, yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol, Mawrth-Gorffennaf 2020. Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

170 'COVID-19 Where Next?', Dr Mike Simmons, Blog Iechyd Cyhoeddus a Llesiant, 26 Ebrill 2020.
171 'Deaths involving COVID-19 by local area and deprivation', Swyddfa Ystadegau Gwladol, 28 Awst 2020.
172 'Coronavirus: Wales has 316,000 workers on furlough', gwefan newyddion y BBC, 11 Mehefin 2020, wedi'i seilio ar ddata Trysorlys y Deyrnas Unedig.
173 Ibid.
174 'Hawlio budd-daliadau yn ôl ardal lleol, newidyn a mis (heb ei haddasu'n dymhorol)', StatsCymru, 2020.

| | Cyflogeion ar ffyrlo | % o'r gweithlu | Ceisiadau SEISS |
|---|---|---|---|
| Conwy | 13200 | 31.0% | 4600 |
| Powys | 13100 | 29.2% | 8100 |
| Sir Benfro | 12900 | 29.2% | 5700 |
| Ceredigion | 6500 | 28.9% | 3800 |
| Gwynedd | 13300 | 28.6% | 5700 |
| Sir Ddinbych | 9800 | 28.0% | 3400 |
| Sir Gaerfyrddin | 18000 | 27.4% | 7000 |
| Sir Fynwy | 9100 | 25.7% | 3400 |
| Ynys Môn | 6400 | 24.6% | 2700 |

Tabl 4.19: Cyflogeion ar ffyrlo a cheisiadau i Gynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogedig yn siroedd gwledig Cymru, Mawrth-Mehefin 2020. Ffynhonnell: BBC Cymru.

4.87 Cafodd amlygiad sector busnes y Gymru wledig i effaith cyfyngiadau symud COVID-19 a mesurau rheoli eraill ei ddwysáu am fod busnesau bach a meicrofentrau mor bwysig yno. Canfu arolwg gan Ffederasiwn y Busnesau Bach ym mis Ebrill 2020 fod 44 y cant o'r BBaChau yng Nghymru wedi cau adeiladau pan gyflwynwyd y cyfyngiadau ar symud a bod traean o'r rhain yn pryderu efallai na fyddent yn gallu ailagor. Roedd dros dri chwarter yr BBaChau wedi rhoi staff ar ffyrlo ac roedd hyd at hanner yn rhag-weld y gallent ei chael yn anodd talu biliau pe bai'r cyfyngiadau'n parhau tan yr haf.[175] Effeithiodd cau busnesau a chyfyngiadau symud yn ddifrifol ar nifer yr ymwelwyr a'r trafodiadau yn nhrefi bach y Gymru wledig, gyda thrafodiadau cardiau credyd ar gyfer gwariant heblaw nwyddau groser yn gostwng tua 70 y cant ym mis Ebrill o'i gymharu â'r flwyddyn cynt mewn sawl tref gan gynnwys Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli a Dinbych-y-pysgod.[176]




Ffigur 4.26: Cyfradd diweithdra (hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith) yn siroedd gwledig Cymru, Hydref 2019 – Hydref 2020. Ffynhonnell: StatsCymru.

175 'FSB Coronavirus Survey', Ffederasiwn y Busnesau Bach, Ebrill 2020.
176 Corona Shock Tracker, Tortoise media, 2020.

4.88 Mae sector twristiaeth y Gymru wledig wedi wynebu amodau arbennig o gyfnewidiol yn 2020. Yn sgil y cyfyngiadau symud cychwynnol o fis Mawrth i fis Gorffennaf, cafodd y sector ei gau i raddau helaeth, gyda hyd at 70 y cant o fusnesau'n rhoi staff ar ffyrlo.[177] Cyfunodd y llacio ar gyfyngiadau domestig ac ansicrwydd ynghylch teithio dros y môr i ffurfio tymor gwyliau cywasgedig ond dwys ym mis Gorffennaf ac Awst. Amcangyfrifir bod 10 y cant o'r gwyliau a gymerwyd yn y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf a mis Awst wedi bod yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o bobl ar eu gwyliau yng Nghymru yn dod o rannau eraill o Gymru ac un rhan o bump arall o ogledd-orllewin Lloegr. Anelodd yr ymwelwyr yn arbennig am gefn gwlad, cyrchfannau mynyddig a gwledig ar y glannau yn arbennig, ac Eryri, Sir Benfro a'r Canolbarth oedd yr ardaloedd mwyaf poblogaidd (Tabl 4.20).[178]

4.89 Nododd bron un rhan o dair o fusnesau twristiaeth Cymru (29 y cant) fasnach uwch na'r arfer yn haf 2020, ond roedd yr effaith hon yn amlycach yn y De-orllewin (gan gynnwys Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin) nag yn y Gogledd neu'r Canolbarth (Ffigur 4.27).[179] Cafwyd amrywiadau arwyddocaol hefyd rhwng mathau o fusnesau, gydag enillion yn canolbwyntio ar safleoedd gwersylla ac eiddo hunanarlwyo, tra gwelodd gwestai, bwytai ac atyniadau ymwelwyr ostyngiadau net mewn busnes (Ffigur 4.28). Cyfunodd y crynodiad daearyddol a'r math o dwristiaeth yn y Gymru wledig yn haf 2020 ymhellach i greu problemau gorlenwi, parcio yn rhwystro ffyrdd a gwersylla anghyfreithlon, gan greu tensiynau mewn cymunedau gwledig oherwydd ofn y gallai ymwelwyr gyfrannu at ledaenu'r coronafeirws mewn ardaloedd lle roedd nifer yr achosion yn gymharol isel.[180]

| | Pob trip dros nos | Ymweliadau gwyliau |
|---|---|---|
| Cefn gwlad neu bentref | 42% | 35% |
| Cyrchfan/tref glan môr traddodiadol | 22% | 27% |
| Glannau gwledig | 19% | 22% |
| Mynyddoedd neu fryniau | 15% | 17% |
| Dinas neu dref fawr | 9% | 10% |
| Eryri | 28% | 24% |
| Sir Benfro | 11% | 14% |
| Y Canolbarth a Bannau Brycheiniog | 9% | 10% |
| Bae Ceredigion / Ceredigion | 8% | 9% |
| Ynys Môn | 5% | 7% |
| Llandudno a Bae Colwyn | 11% | 5% |
| Sir Gaerfyrddin | 3% | 5% |
| Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | 5% | 4% |
| Caerdydd | 10% | 10% |
| Rhanbarthau eraill | 4-5% | 0-4% |

Tabl 4.20: Cyrchfan ymweliadau dros nos yng Nghymru rhwng 13 Gorffennaf a 14 Awst 2020. Ffynhonnell: Traciwr Defnyddwyr Twristiaeth y DU COVID-19. (DS: Mae'r ffigurau'n adio i fwy na 100%)

177 'Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 3 2020', Llywodraeth Cymru.

178 'Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 (proffil Cymru): 2020 (Wythnosau 9-13)', Llywodraeth Cymru.

179 'Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 5 2020', Llywodraeth Cymru.

180 'Coronavirus: Tourism tensions "could put industry at risk"', Newyddion BBC Cymru, 19 Awst 2020.




Ffigur 4.27: Nifer y cwsmeriaid yn haf 2020 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer busnesau twristiaeth yng Nghymru, fesul rhanbarth (% o fusnesau).
Ffynhonnell: Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 5 2020' (Hyd 2020)




Ffigur 4.28: Nifer y cwsmeriaid yn haf 2020 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer busnesau twristiaeth yng Nghymru, yn ôl y math o fusnes (% o fusnesau).
Ffynhonnell: Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 5 2020' (Hyd 2020)

4.90 Drwyddi draw, nododd busnesau twristiaeth Cymru golled canolrifol yn eu trosiant o rhwng 41 a 50 y cant ar gyfer tymor 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, gydag un rhan o bump yn nodi gostyngiad mewn trosiant o fwy na 70 y cant. Er hynny, dim ond 5 y cant o'r busnesau a holwyd ym mis Hydref 2020 a nododd nad oeddent yn disgwyl goroesi am fwy na chwe mis, a dim ond 4 y cant o fusnesau oedd wedi diswyddo pobl.[181]

4.91 Gwelodd y sector amaethyddiaeth a bwyd, gan gynnwys pysgodfeydd, aflonyddwch yn ystod y pandemig COVID-19 oherwydd gostyngiad difrifol yn y galw gan y diwydiant gwasanaethau bwyd ac allforion. Llwyddodd cadwyni cyflenwi i addasu at alw cynyddol o du'r archfarchnadoedd, ond roedd prisiau'n isel am lawer o eitemau, gan effeithio ar incwm ffermydd. Mae colli refeniw o dwristiaeth ar y fferm a gweithgareddau amrywiol eraill hefyd wedi effeithio ar gyfanswm incwm busnesau fferm. Yn ychwanegol, mae ffermwyr wedi gweld heriau o ran addasu at systemau ar-lein, oedi o ran taliadau Glastir, a materion yn ymwneud â thresmasu, taflu sbwriel ac aflonyddu ar dda byw oherwydd pwysau niferoedd cynyddol yr ymwelwyr yng nghefn gwlad. Effeithiwyd yn llai sylweddol ar y sector coedwigaeth a phrosesu coed, gyda llai o alw am ddeunyddiau adeiladu yn cael ei ddigolledu gan gynnydd yn y galw am ddeunydd pacio ac yn y farchnad DIY.[182]

4.92 Amharwyd ar brosiectau cadwraeth a rheoli amgylcheddol oherwydd mynediad cyfyngedig i safleoedd, cyfyngiadau ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr, a cholli incwm drwy godi arian, yn ogystal ag mewn rhai achosion gan y cynnydd yn nifer yr achosion o dresmasu, taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae awdurdodau lleol y Gymru wledig wedi wynebu heriau sylweddol o ran ailgyfeirio staff ac adnoddau i ymateb i COVID-19 ac addasu at gyfyngiadau ar waith ysgolion, cartrefi gofal a chyfleusterau eraill y cynghorau, sydd wedi amharu ar barhad gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chost ariannol yr ymateb ynghyd â cholli refeniw o feysydd parcio, canolfannau hamdden a gweithrediadau eraill, a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yr ardaloedd gwledig yn y dyfodol.[183]

4.93 Arweiniodd y cynnydd mewn gweithio gartref yn ystod y pandemig at gynyddu poblogaeth llawer o gymunedau gwledig yn ystod y dydd. Mae ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod tua 40 i 45 y cant o weithwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn gweithio gartref yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol, gan ostwng i ryw 30 i 35 y cant yn yr hydref.[184] Mae hyn yn cymharu â rhyw 2 y cant o gyflogeion sy'n byw mewn siroedd gwledig yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn gweithio'n bennaf o gartref yng Nghyfrifiad 2011.[185] Yn yr un modd , canfu Ffederasiwn y Busnesau Bach fod 41 y cant o fusnesau bach a chanolig eu maint yn y Deyrnas Unedig a oedd yn dal i weithredu ym mis Mai 2020 wedi newid i weithio gartref.[186] Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu dyhead i weld 30 y cant o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos i'w cartrefi yn y tymor hir, gan gynyddu symudedd preswyl cyfran fawr o'r boblogaeth o bosibl gyda goblygiadau posibl o ran mudo a galw am eiddo yng nghefn gwlad Cymru.[187] Er hynny, mae'r dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu y gallai'r effaith fod yn wahanol iawn yn ôl daearyddiaeth, gyda phrisiau eiddo cyfartalog yn cynyddu 6.7 y cant rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 yn Sir Benfro a 3.4 y cant yn Sir Gaerfyrddin, ond dim ond tua 2 y cant yng

[181] 'Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 5 2020', Llywodraeth Cymru
[182] Gwybodaeth oddi wrth yr FUW, NFU Cymru a Llywodraeth Cymru
[183] Gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru a CLlLC
[184] Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.
[185] 'Dull Teithio i'r Gwaith', Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS.
[186] 'New Horizons: How Small Firms are Navigating the COVID-19 Crisis', Ffederasiwn y Busnesau Bach, 2020.
[187] 'Gweithio o bell', Llywodraeth Cymru, 14 Medi 2020.

Ngheredigion, Conwy, Gwynedd, Sir Fynwy a Phowys, sy'n aros yn sefydlog i raddau helaeth yn Ynys Môn, ac yn gostwng 2 y cant yn sir Ddinbych.[188]

4.94 Tynnodd y pandemig COVID-19 sylw hefyd at anghydraddoldebau presennol mewn gwasanaethau a seilwaith yn y Gymru wledig, yn enwedig o ran hygyrchedd a chapasiti gofal iechyd, ac mewn seilwaith digidol, gan gynnwys cwmpas, cryfder a dibynadwyedd cysylltiadau rhyngrwyd a signalau ffonau symudol, sydd wedi effeithio ar allu rhai trigolion gwledig i weithio'n effeithiol o'u cartrefi ac i gael mynediad at wasanaethau ar-lein.[189]

4.95 Mae ymatebion i'r pandemig COVID-19 a mesurau rheoli gan fusnesau, sefydliadau a chymunedau yn y Gymru wledig yn cynnwys nifer o ddatblygiadau arloesol a allai fod ag arwyddocâd parhaol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau digidol, gan gynnwys addysg ac ymgynghoriadau â meddygon teulu ar-lein, a allai gyfrannu at fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn yr ardaloedd gwledig mwyaf anghysbell; datblygu gwasanaethau gwerthu a dosbarthu ar-lein gan siopau a busnesau bach a allai helpu i ategu masnach gorfforol a gwella gwydnwch; clicio a chasglu, cynlluniau bocsys a mentrau eraill gan farchnadoedd ffermwyr a allai roi cyfleoedd i arallgyfeirio a chynyddu gwerthiannau bwyd lleol; parthau dros dro i gerddwyr a mannau gwasanaeth y tu allan a weithredir gan awdurdodau lleol mewn trefi gwledig i greu 'parthau diogel', y gallai elfennau ohonynt gael eu cadw fel rhan o'r gwaith o wella amgylchedd trefi bach i ddenu cwsmeriaid ac ymwelwyr; a chaffael offer diogelu personol a bwyd a diod yn lleol i'w cynnwys mewn parseli ar gyfer aelwydydd sy'n gwarchod ac aelwydydd sy'n agored i niwed, er enghraifft yng nghynllun Neges Menter Môn.



[188] 'UK House Price Index', Y Gofrestrfa Tir, 2020.
[189] 'Coronavirus: the great magnifier?', Michael Woods, *The Welsh Agenda*, 2020.

# 5. Edrych Ymlaen: Llunio'r Weledigaeth

5.1 Bydd y dasg o ddatblygu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y Gymru wledig dros y degawd nesaf yn cael ei llywio gan ffactorau allanol a mewnol, gan gynnwys tueddiadau cymdeithasol ehangach, deinameg yr economi byd-eang, datblygiadau technolegol a pholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gan hynny, mae mynegi gweledigaeth ar gyfer y Gymru wledig yn 2030 a nodi ymyriadau polisi a mesurau a all ategu'r weledigaeth hon yn golygu edrych ymlaen ac ystyried senarios a allai effeithio ar y Gymru wledig a'r heriau a'r chyfleoedd sydd ynghlwm â nhw.

5.2 Mae gwaith academaidd sy'n darogan datblygiad cefn gwlad yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill yn y dyfodol wedi tueddu i bwysleisio tri sbardun allweddol, sef trefoli, globaleiddio a newid hinsawdd.[190] Er hynny, mae yna amrywiadau yn y goblygiadau a ragwelir yn sgil y ffactorau hyn ar gyfer rhanbarthau gwledig, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd. Mae rhai astudiaethau wedi rhag-weld mwy o drefoli a diboblogi cyflymach yng nghefn gwlad fel ymateb i newid hinsawdd, gan gynnwys troi darnau sylweddol o dir pori yn goedwigoedd, tyfu cnydau ynni, neu ailwylltio. Ar y llaw arall, mae rhagolygon eraill yn rhag-weld cynnydd yn y boblogaeth wledig wrth i bobl geisio symud yn nes at ffynonellau bwyd ac ynni adnewyddadwy ac wrth i ardaloedd gwledig gael eu hystyried yn fwy diogel na dinasoedd.[191] Ar linell eilaidd, mae gwaith rhag-weld ar draws sawl gwlad a phrosiect i ategu Gweledigaeth Hirdymor yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Ardaloedd Gwledig yn nodi pryderon cyffredin ynghylch diboblogi, heneiddio demograffig, mynediad at wasanaethau ac amddifadedd digidol, ac amcanion cyffredin sy'n canolbwyntio ar wydnwch, tegwch a chynaliadwyedd (Blwch 5.1).

**Blwch 5.1: Gweledigaeth Prosiect SHERPA ar gyfer Ardaloedd Gwledig Ewrop yn 2040**

- **Cydnabod** bod ardaloedd gwledig yn hanfodol i'r gymdeithas yn gyffredinol, gyda chymunedau gwledig sydd wedi'u grymuso, wedi'u cysylltu ac yn wydn yn erbyn newid yn yr hinsawdd;
- Cymunedau gwledig sy'n mwynhau **bywyd o ansawdd dda** ac sy'n cynnig cyfle cyfartal ni waeth ble mae pobl yn byw;
- Ardaloedd gwledig ag **economi gwledig amrywiol** sy'n cynnig mynediad i swyddi a gwasanaethau o ansawdd dda;
- Cymunedau gwledig sy'n byw mewn cytgord â **natur** i ddarparu bwyd a nwyddau a gwasanaethau preifat a chyhoeddus teg, tra'n parchu'r **amgylchedd**.

Ffynhonnell: prosiect SHERPA, https://rural-interfaces.eu/

5.3 Yng Nghymru, mae datganiadau o weledigaeth ranbarthol wedi'u mynegi gan y pedair partneriaeth Bargen Dwf a bydd y rhain yn ddylanwadol wrth arwain buddsoddiadau a datblygiadau economaidd mewn ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru drwy'r degawd nesaf.

[190] I gael crynodebau, gweler: 'The future of rural places', Michael Woods yn *The Routledge Companion to Rural Planning*, 2019; 'Rural futures and the future of rural geography', Michael Woods, *Progress in Human Geography*, 2012.

[191] 'Scenario sketches for IMAJINE – future visions for European spatial justice', prosiect IMAJINE; gweler hefyd 'Rural-urban linkages', Michael Woods, yn *Routledge Handbook of Sustainable and Regenerative Food Systems,* 2020.

Maent yn tueddu i bwysleisio twf economaidd, arloesedd a chysylltedd yn eu huchelgais a'u rhaglenni gwaith arfaethedig (Blwch 5.2). Mae sefydliadau eraill wedi amlinellu gweledigaethau a chynigion sy'n argymell adferiad economaidd gwyrdd neu system fwyd fwy cynaliadwy i Gymru, bob un â goblygiadau ar gyfer gweithgarwch economaidd, cadwyni cyflenwi a defnydd tir yr ardaloedd gwledig.[192]

| **Blwch 5.2: Datganiadau Gweledigaeth y Bargeinion Twf** |
|---|
| Tyfu Canolbarth Cymru: *"Erbyn 2035 bydd Canolbarth Cymru yn rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i ysgogi gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog."* (Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, 2020) |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: "*rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.*" (Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru, 2016) |
| Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: "*A globally-connected, great place to live and work — powering the Welsh economy*." (Powering the Welsh Economy, 2015) |
| Bargen Ddinesig Bae Abertawe: "*A super smart innovation region which will inform and advance solutions to some of the most pressing challenges of modern times in the areas of economic acceleration, smart manufacturing, energy, life sciences and well-being*." (Swansea Bay City Deal Implementation Plan, 2020) |

5.4 Wrth ddatblygu'r Weledigaeth Wledig, nododd tîm y prosiect 14 o senarios ar gyfer llwybrau cymdeithasol, economaidd neu bolisi ehangach a allai effeithio ar y Gymru wledig yn ystod y degawd nesaf (Blwch 5.3). Mae'r rhain yn ymwneud nid yn unig â goblygiadau Brecsit a COVID-19, ond hefyd tueddiadau posibl mewn ffyrdd o fyw, datblygiadau technolegol arloesol ac ymatebion i newid yn yr hinsawdd, a chafod dy rhain eu bwydo gan ddadansoddiad o dystiolaeth ar y sefyllfa sydd ohoni a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol, cyfweliadau ag aelodau a swyddogion awdurdodau lleol, dau weithdy gyda rhanddeiliaid, ac ymwneud â gwaith rhagweld arall ar ranbarthau gwledig.

5.5 Gofynnwyd i ymatebwyr i arolwg ar-lein y Weledigaeth Wledig a gynhaliwyd yn haf 2020 sgorio pob un o'r 14 o senarios o ran eu tebygolrwydd disgwyliedig ac arwyddocâd eu heffaith ddisgwyliedig ar y Gymru wledig. Nododd y canlyniadau agregedig mai gweld y Deyrnas Unedig yn mynd i mewn i ddirwasgiad difrifol o ganlyniad i COVID-19 a'r mesurau rheoli oedd y senario tebycaf o ddigwydd, ac wedyn aflonyddwch parhaus dros gyfnod hir yn sgil COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig; cynnydd yn atyniad byw yng nghefn gwlad yn sgil blaenoriaethau newydd a mwy o weithio gartref; cyfyngiadau mewn cyllidebau ar ôl COVID yn arwain at doriadau mewn cyllid i wasanaethau cyhoeddus; a system fewnfudo newydd yn cyfyngu ar recriwtio o wledydd tramor i swyddi isel eu cyflogau. Barnwyd mai'r senario a gâi'r effaith fwyaf bosibl ar y Gymru wledig oedd cyfyngiadau mewn cyllidebau ar ôl COVID a fyddai'n arwain at doriadau mewn cyllid i wasanaethau cyhoeddus, ac wedyn y Deyrnas Unedig yn mynd i mewn i ddirwasgiad

[192] 'Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws', Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2020; 'A Welsh Food System Fit for Future Generations', Adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ar ran WWF Cymru, 2020.

difrifol; tariffau a chyfyngiadau ar fasnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE yn dilyn Brecsit; polisïau i leihau allyriadau carbon yn cyflymu datblygiadau ynni adnewyddadwy; ac aflonyddwch parhaus yn sgil COVID-19 a'r mesurau rheoli. Gyda'i gilydd, roedd yr ymatebion hyn yn dangos yr heriau allweddol y rhagwelwyd y byddent yn debygol iawn ac yn arwyddocaol iawn o ran effaith ar y Gymru wledig (Ffigur 5.1)

**Blwch 5.3 Senarios a allai effeithio ar y Gymru wledig yn y degawd nesaf**

Senario 1: Mae aflonyddwch o COVID-19 a chyfyngiadau cysylltiedig yn parhau dros gyfnod hir
Senario 2: Dirwasgiad ôl-COVID yn cynnwys methiannau busnes eang a diweithdra uchel
Senario 3: Mae twristiaeth ryngwladol yn lleihau o ganlyniad i ofnau COVID-19 a chyfyngiadau teithio
Senario 4: Mae atyniad byw yng nghefn gwlad yn cynyddu gyda newid blaenoriaethau a mwy o weithio gartref
Senario 5: Mae mwy o bwyslais ar ddod o hyd i fwyd lleol
Senario 6: Mae symudiad tuag at ddeietau planhigion a dewisiadau amgen a dyfir mewn labordy yn lle cig a chynhyrchion llaeth
Senario 7: Cyflwynir tariffau a chyfyngiadau ar fasnach y DU-UE yn dilyn Brecsit
Senario 8: Mae bargeinion masnach newydd a drafodir gan y DU yn cynyddu mewnforion cynhyrchion amaethyddol y tu allan i'r UE ac yn llacio rheoliadau ar ffermio a phrosesu bwyd.
Senario 9: Mae system fewnfudo newydd yn cyfyngu ar recriwtio dramor ar gyfer swyddi cyflog is.
Senario 10: Mae cyfyngiadau cyllidebol ôl-COVID yn arwain at doriadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
Senario 11: Mae polisïau i dorri allyriadau carbon yn cynyddu trethi ar betrol ac olew ac yn cyflymu datblygiadau ynni adnewyddadwy.
Senario 12: Mae technolegau awtomataidd newydd gan gynnwys ceir heb yrrwr a dronau dosbarthu ar gael yn eang.
Senario 13: Mae datblygiadau mewn biotechnoleg yn cynhyrchu atebion newydd ar gyfer diogelwch bwyd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
Senario 14: Mae newidiadau mewn arferion gwaith yn cynyddu amser hamdden a'r galw am hamdden wledig.

5.6 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr yr arolwg sgorio senarios o ran a fyddai eu heffeithiau ar y Gymru wledig yn gadarnhaol ar y cyfan ynteu'n negyddol ar y cyfan. Fel y gwelir yn Ffigur 5.2, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y rhan fwyaf o'r senarios yn negyddol at ei gilydd i'r Gymru wledig, a dim ond mwy o bwyslais ar gyrchu bwyd lleol, datblygiadau mewn biotechnoleg yn creu atebion newydd ar gyfer diogelwch bwyd ac yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, newidiadau mewn arferion gwaith yn cynyddu amser hamdden a'r galw am hamdden wledig, a pholisïau i leihau allyriadau carbon gan gyflymu datblygiadau ynni adnewyddadwy a oedd yn bendant yn cael eu gweld fel senarios cadarnhaol. Ymateb cymysg a ysgogwyd gan y senarios a oedd yn ymwneud ag atyniad cynyddol byw yn y wlad yn sgil blaenoriaethau newydd a mwy o weithio gartref, cytundebau masnach newydd yn cynyddu masnach amaethyddol gyda gwledydd y tu allan i'r UE, a thechnolegau awtomataidd fel ceir heb yrwyr ac argaeledd ehangach dronau i ddosbarthu nwyddau, gydag ychydig yn fwy o'r ymatebwyr o'r farn bod eu heffaith debygol yn negyddol na chadarnhaol ar y cyfan.




Ffigur 5.1: Tebygolrwydd ac effaith bosibl senarios ar gyfer y Gymru wledig fel y'u sgoriwyd gan ymatebwyr yr arolwg.




Ffigur 5.2: Asesiad gan ymatebwyr yr arolwg ynghylch a fydd effaith senarios ar gyfer y Gymru wledig yn negyddol ynteu'n gadarnhaol ar y cyfan.

5.7 Trafodwyd y pum senario allweddol a ddaeth i'r amlwg drwy'r arolwg gan y cyfranogwyr mewn gweithdy ar-lein ym mis Hydref 2020 i adnabod heriau a chyfleoedd dilynol o bob un ar gyfer y Gymru wledig. Crynhoir y rhain yn Nhabl 5.1

| Senario | Heriau | Cyfleoedd |
|---|---|---|
| *Mae'r Deyrnas Unedig yn mynd i mewn i ddirwasgiad difrifol o ganlyniad i COVID-19 a'r mesurau rheoli* | Diweithdra/mudo ieuenctid<br>Bwlch sgiliau'n cynyddu<br>Diffyg cyflogaeth dymhorol<br>Mwy o dlodi mewn gwaith<br>Cefn gwlad yn mynd yn fwy gwag wrth i wasanaethau fynd yn anymarferol<br>Cau busnesau fferm<br>Problemau iechyd meddwl<br>Fforddiadwyedd tai/y rhai sydd ag arian yn prynu eiddo (gan gynnwys ar gyfer ail gartrefi)<br>Colli incwm yr awdurdodau lleol o ardrethi busnes<br>Cyfleoedd ariannu cyfyngedig<br>Colli cefnogaeth wyneb yn wyneb ar y ddaear<br>Bwlch yn y cyllid o'r RhDG presennol<br>Ardaloedd gwledig llai yn colli allan | Troi eiddo gwag yn hybiau cymunedol<br>Mwy o gydlyniant cymunedol<br>Cyfleoedd ar gyfer arloesi<br>Cyfleoedd newydd i gydweithio<br>'Gwyliau gartref' yn fwy poblogaidd oherwydd cost<br>Cyfle i daro'r botwm ail-osod<br>Lle ar gael ar gyfer tai, oedd yn swyddfeydd/busnesau gynt<br>Cyfle i dynnu sylw at y problemau gwledig presennol<br>Modelau busnes cydweithredol newydd<br>Ailgydbwyso'r economi a thwf gwyrdd |
| *Mae cyfyngiadau cyllidebol ôl-COVID yn arwain at doriadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.* | Mwy o ardaloedd ag amddifadedd difrifol<br>Problemau gofal i'r henoed<br>Gostyngiad mewn cymorthdaliadau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus<br>Diffyg cyfleoedd i blant a phobl ifanc<br>Dibynnu ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus<br>Colli ymarferwyr adfywio gwledig profiadol<br>Cyllid yn canolbwyntio ar ardaloedd màs critigol, h.y. trefi<br>Colli gwasanaethau gofal iechyd gan greu system ddwy haen<br>Mwy o bobl yn teimlo'n ynysig | Cyfle i adolygu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus<br>Dim ffiniau UE, gan ganiatáu i'r rhan fwyaf o ardaloedd mewn angen gael eu targedu<br>Cynyddu'r ffocws ar Gymru<br>Mwy o gydweithio a chydweithredu rhanbarthol<br>Rôl a statws gwell i'r sector gwirfoddol<br>Cyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol<br>Modd gwneud arbedion ar gostau swyddfa a theithio gyda mwy o weithio gartref yn y sector cyhoeddus<br>Grymuso cymunedau i feithrin gwydnwch, ymateb i argyfwng tai, etc. |
| *Mae atyniad byw yng nghefn gwlad yn cynyddu gyda newid blaenoriaethau a mwy o weithio gartref* | Cynnydd ym mhrisiau eiddo yn prisio pobl leol allan<br>Mwy o AirBnb/eiddo gwag<br>Darpariaeth wael o ran y rhyngrwyd<br>Mwy o unigedd – problemau iechyd meddwl<br>Llai o gefnogaeth i drefi marchnad gan fod llai o reswm i ymweld â nhw wrth weithio gartref<br>Tensiynau rhwng pobl leol/mewnfudwyr<br>Llai o alw am drafnidiaeth gyhoeddus | Adferiad gwyrdd – llai o angen teithio<br>Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith – gwell iechyd meddwl<br>Cymunedau wedi'u hailfywiogi – ymdeimlad newydd o bwrpas ar gyfer trefi marchnad<br>Denu talent newydd na fyddai'n ystyried byw mewn ardal wledig o'r blaen<br>Mewnfuddsoddiad drwy adleoli cwmnïau<br>Cyfleoedd i fusnesau gefnogi gweithwyr cartref |

| | | |
|---|---|---|
| | Galw am dir ar gyfer tai newydd<br>System gynllunio annigonol<br>Darparu gwasanaethau gofal plant | Cadw pobl ifanc / ffordd hyblyg newydd o fyw i bobl ifanc<br>Ail-ddychmygu pa fath o gymunedau a seilwaith yr hoffem eu cael<br>Tai cynaliadwy newydd gan ddefnyddio adnoddau lleol<br>Mwy o amser ar gyfer gweithgarwch gwirfoddol / cymunedol<br>Mwy o ymwelwyr mewn trefi bach, mwy o wariant yn yr economi gwledig |
| *Cyflwynir tariffau a chyfyngiadau ar fasnach y DU-UE yn dilyn Brecsit* | Niweidio cymunedau ffermio– yn enwedig gwerthu cig oen<br>Mae busnesau'n mynd yn anghystadleuol ac yn methu<br>Cost gynyddol bwyd – llai fforddiadwy i'r mwyafrif<br>Amserlen – gorfod newid cwsmeriaid etc heb fawr o rybudd, os dim rhybudd<br>Gwastraffu bwyd oherwydd gwiriadau ar y ffin gan arwain at golli incwm<br>Yr effaith ar allforion pren<br>Byddai tariffau WTO pe na bai yna Gytundeb yn difetha'r Gymru wledig<br>Mae ansicrwydd yn golygu llai o fuddsoddi mewn prosiectau amgylcheddol | Cyfleoedd i ganolbwyntio ar gadwyni cyflenwi lleol<br>Caffael lleol ar gyfer ysbytai, ysgolion, cartrefi preswyl etc<br>Newid sut mae cymunedau'n cysylltu â thir<br>'Cynnyrch Cymru'<br>Gorfod arloesi<br>Creu busnesau newydd i ateb cyfleoedd newydd<br>Ffermwyr yn deall i ble mae eu cynnyrch yn mynd<br>Gallai gynyddu'r traffig o Iwerddon i borthladdoedd Cymru |
| *Mae polisïau i dorri allyriadau carbon yn cynyddu trethi ar betrol ac olew ac yn cyflymu datblygiadau ynni adnewyddadwy* | Angen swm mawr o arian i gyflawni hyn<br>Cyfyngiadau'r grid trydan a rhwydweithiau cyflenwi lleol<br>Cadw elw yn yr ardal leol<br>Trafnidiaeth gyhoeddus yn llai hyfyw gyda chostau uwch; mwy o ddibyniaeth ar geir<br>Mae cysylltedd digidol gwael yn golygu y bydd busnesau newydd yn lleoli ger canolfannau trefol, colli cyfleoedd i ardaloedd gwledig<br>Mwy o dlodi tanwydd yn sgil trethi tanwydd uwch | Cyfle i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a symud yn nes at ddyfodol di-garbon<br>Potensial ar gyfer arloesi busnesau newydd<br>Cyfleoedd ar gyfer ynni dŵr ac ynni tonnau<br>Torri ôl troed carbon amaethyddol – mwy o wrtaith cartref<br>Cynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n cynhyrchu incwm i gymunedau gwledig<br>Cyplysu â pholisïau tai, e.e. hybu cynlluniau gwresogi ardal<br>Cynlluniau rhannu ceir ar gyfer pobl sy'n gweithio gartref<br>Twristiaeth werdd |

Tabl 5.1: Heriau a chyfleoedd i'r Gymru wledig yn sgil senarios allweddol, a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai

5.8 Gan ddwyn ynghyd y dystiolaeth o sefyllfa bresennol y Gymru wledig a chasgliadau'r gwaith rhag-weld, mae dogfennau'r Weledigaeth Wledig yn nodi nifer o heriau, cyfleoedd a bygythiadau

uniongyrchol i'r Gymru wledig sy'n sail i'r gofynion a'r cynigion allweddol y mae'n eu hamlinellu. Mae'r **heriau** strategol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru yn aros yn ddigyfnewid ers datblygu rhaglen bresennol yr RhDG. Ond, mae effaith gronnol dull crynodol o ymdrin â datblygu economaidd, economi gwledig sydd mewn perygl o ymadawiad â'r UE heb gytundeb masnach, ac effeithiau COVID-19 ar fusnesau yn bwrw goleuni clir ar y materion a amlygwyd:

- Cynhyrchedd isel, incymau isel a sail sgiliau isel
- Economi wedi ei dominyddu gan fusnesau micro a heriau i dwf a achoswyd gan fynediad i gyllid a llafurlu medrus
- Cysylltedd a chysylltiadau cludiant gwael i farchnadoedd trefol, gyda symudiad nwyddau a phobl yn ddibynnol iawn ar isadeiledd ffyrdd gwael.
- Materion demograffig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn allfudo
- Bygythiadau cymdeithasol ac economaidd i ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg
- Mynediad i wasanaethau, a chostau uwch y pen i ddarparu gwasanaethau lleol
- Cludiant cyhoeddus anaml, anhygyrch a chostus
- Gwasanaethau gofal iechyd cyfyngedig, wedi'i waethygu gan anhawster wrth recriwtio staff meddygol arbenigol
- Diffyg tai fforddiadwy a nifer uchel o aelwydydd oddi ar y prif grid cyflenwi nwy ac yn wynebu tlodi tanwydd
- Dibyniaeth drwm ar amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector cyhoeddus
- Cynhyrchwyr a phrosesyddion bwyd yn ddibynnol ar allforion Ewropeaidd, sydd mewn perygl yn sgil gadael yr UE
- Cysylltedd digidol gwael, gyda nifer o ardaloedd gwledig yn cynnwys mannau heb gyswllt band eang a signal ffôn symudol

5.9 Mae ansicrwydd gwleidyddol ynghylch diwedd Cyfnod Pontio Brecsit a'r deddfwriaeth ddomestig berthynol, ynghyd ag effaith pandemig COVID-19 ar yr economi gwledig, wedi dwysáu'r heriau strategol sy'n wynebu'r Gymru wledig. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ar ddiwedd 2020 gellid nodi nifer **o fygythiadau** uniongyrchol, fel y'u hamlinellir yn nogfen y Weledigaeth Wledig:

- Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ddarn eang a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n bygwth tanseilio datganoli. Gallai arwain at fecanweithiau amaeth a chymorth gwledig dargyfeiriol a ras bosibl at y gwaelod gan y gall yr egwyddor o gydnabyddiaeth gydfuddiannol danseilio cynhyrchiant bwyd gwerth uchel gan gynhyrchwyr Cymreig.
- Mae angen camau diogelu digonol ar gyfer y Sector Bwyd Amaeth i sicrhau nad yw unrhyw fewnforion o fargeinion masnach yn y dyfodol yn tanseilio'r safonau uchel o ran lles anifeiliaid a mesurau amgylcheddol a fabwysiedir gan arferion ffermio Cymreig.
- Nid yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r cyflenwad bwyd er lles y cyhoedd, gyda gogwydd tuag at fesurau amgylcheddol fel sail i ymyriadau datblygu gwledig. Mae'r methiant i gydnabod yr angen i gefnogi mesurau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn bygwth y lifrau ariannol sydd angen i lywio'r economi wledig tuag at ddyfodol bywiog.
- Mae ansicrwydd yn parhau o amgylch y Gronfa Ffyniant ar y Cyd a mecanwaith i gymryd lle'r £3bn (yr UE ac Arian Cyfatebol) a ddyrennir i Gymru fel rhan o'r cylch cyfredol o Gyllid Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r cyllid hwn yn cynnig buddsoddiad sydd ei ddirfawr angen mewn sgiliau, cymorth i fusnesau ac isadeiledd cyfalaf yng Nghymru wledig.
- Gallai'r symud tuag at ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau a sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol arwain at i raglenni twf trefol fwrw materion gwledig i'r cysgod.

5.10 Yn yr un modd, mae'r broses o ddatblygu'r Weledigaeth Wledig wedi nodi cyfres o **gyfleoedd** i'r Gymru wledig sy'n deillio o gryfderau ac asedau cynhenid y rhanbarth a newidiadau mewn strwythurau ac agweddau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae gweithgareddau yn y

Gymru wledig yn helpu i sbarduno twf mewn ardaloedd trefol, gan weithredu fel ffynonellau sylfaenol ynni, bwyd a dŵr. Mae ardaloedd gwledig hefyd yn darparu mannau anadlu i boblogaeth drefol fwynhau gweithgareddau hamdden, sydd yn eu tro yn defnyddio'r gwasanaethau a seilwaith a ddarperir gan awdurdodau gwledig. Fel gwlad wledig yn bennaf, mae twf trefol yng Nghymru yn tynnu'n drwm ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ardaloedd gwledig, ac felly dylid cydnabod datblygu gwledig fel elfen hanfodol o ddatblygiad a lles economaidd Cymru. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- Mae twf ar draws y pedwar rhanbarth economaidd a Bargeinion Dinesig a Twf yn dibynnu ar gyd-gysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol gyda chysylltiadau economaidd cryf â chytrefi trefol mwy ar hyd yr A55 yng Ngogledd Cymru a’r M4 yn Ne Cymru sy’n cymell twf a datblygiad.
- Gyda digonedd o adnoddau naturiol, a gweithlu gwledig sy’n fedrus mewn amaeth a rheoli tir, mae Cymru Wledig yn cynnig y cyfleoedd i fuddsoddi mewn adferiad economaidd gwyrdd, drwy ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac isadeiledd gwyrdd i fynd i’r afael â datgarboneiddio a’r argyfwng newid hinsawdd.
- Mae Cymru Wledig a chymunedau amaethyddol yn gadarnleoedd i’r Iaith Gymraeg ac mae cynnal sail economaidd cadarn yn yr ardaloedd hyn yn cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Dylid dathlu sector Bwyd a Diod Cymru fel y sector Bwyd a Diod sy’n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae Cymru Wledig, sy’n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei safon a’i darddiad, yn cynnig y prif sail ar gyfer cyfleoedd twf yn y sector yn y dyfodol.
- Ar sail llwyddiant y strategaeth Bwyd a Diod, gyda chydlynu a buddsoddiad, mae cyfleoedd i ddatblygu twf economi gylchol mewn deunyddiau adeiladau wedi’u tyfu yng Nghymru o bren cynaliadwy a ffibrau sy’n deillio o amaeth da byw, fel gwlân Cymreig.
- Mae rhanbarthau arfordirol o Gymru Wledig yn cynnig cyfleoedd lluosog i’r diwydiannau morol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, bwyd môr, a chyfleoedd unigryw am dwristiaeth gyda gwerth ychwanegol sy’n gysylltiedig â bywyd gwyllt morol a’r morlun.
- Mae gan Gymru Wledig sail gweithgynhyrchu gadarn, gyda llafurlu lleol medrus sy’n brin ar draws y DU. Mae cyfleoedd i ddatblygu clystyrau o sectorau penodol yn seiliedig ar leoedd er mwyn dysgu a thyfu o gwmnïau fel denim Hiut yn Aberteifi a Fashion-Enter yn y Drenewydd, sydd wedi cydnabod y cyfleoedd a datblygu marchnadoedd newydd.
- Harddwch naturiol arfordir a chefn gwlad Cymru yw’r sail dros y diwydiant twristiaeth cynyddol, sy’n werth oddeutu £6.3bn y flwyddyn i economi Cymru. Er ei fod dan fygythiad i effeithiau pandemig Covid-19, gall gwelliannau i ansawdd a gwasanaethau greu cyfleoedd i wella perfformiad y sector drwy gynyddu gwerth ymweliadau ac arosiadau yng Nghymru.
- Wrth i weithio cynyddol o gartref ddod yn rhan o’r ‘normal newydd’, mae cyfleoedd i fanteisio ar y mewnlifiad o bobl gyda gwahanol sgiliau a’r gallu i fuddsoddi mewn datblygu a thyfu busnesau yng Nghymru wledig.

5.11 Mae'r weledigaeth ar gyfer y Gymru wledig sy’n codi o hyn yn rhag-weld strategaeth ar gyfer polisi cyhoeddus a datblygu economaidd dros y deng mlynedd nesaf sy'n lliniaru ac yn goresgyn yr heriau a'r bygythiadau a nodwyd ac yn manteisio ar y cyfleoedd a amlygwyd. Mae'n disgrifio Cymru sydd â chymunedau gwledig cynaliadwy yn ganolog iddi, lle mae hyd yn oed yr ardaloedd mwyaf anghysbell yn ffynnu ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl (Blwch 5.4), ac mae’n cwmpasu cyfres o ddyheadau sy'n adlewyrchu nodweddion bywyd yn y Gymru wledig y nododd cyfranogwyr y gweithdai eu bod yn eu gwerthfawrogi a'u huchelgais ar gyfer y dyfodol:

- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda chymunedau gwledig ffyniannus a chydbwysedd o ran oedran.
- Dymunwn gael Cymru Wledig o bentrefi a threfi marchnad bywiog, lle mae technolegau clyfar yn helpu busnesau a sefydliadau i gael eu cysylltu'n well.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle caniateir i'r Gymraeg ffynnu a mynd o nerth i nerth.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae pobl wedi'u cyflogi mewn swyddi o ansawdd uchel gyda chyflogau da.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae pobl yn byw mewn cymunedau drwy gydol y flwyddyn, lle mae adeiladau segur yn cael eu defnyddio unwaith eto, a lle gall pobl ifanc fforddio cael eu cartrefi eu hunain.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda diwylliant bwyd lleol cyfoethog.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gydag isadeiledd modern sy'n cwrdd ag anghenion cysylltedd a dyfodol o ynni di-garbon.
- Dymunwn gael Cymru Wledig sydd wedi' grymuso gan ynni adnewyddadwy, gyda llwybrau teithio diogel, ac egnïol a gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi'u cysylltu'n dda.
- Dymunwn gael Cymru Wledig gyda diwydiant twristiaeth gynaliadwy, sy'n cefnogi busnesau teuluol annibynnol, sy'n buddsoddi yn eu cymunedau lleol.
- Dymunwn gael Cymru Wledig lle mae cenhedlaeth newydd o ffermwyr yn arfer amaethyddiaeth gynaliadwy, gan gydbwyso technoleg fodern ac arferion diwylliannol traddodiadol.

**Blwch 5.4: Gweledigaeth ar gyfer y Gymru Wledig**

*Mae arnom ni eisiau Cymru sydd â chymunedau gwledig cynaliadwy wrth ei gwraidd, lle mae hyd yn oed yr ardaloedd mwyaf anghysbell yn ffynnu ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y genedl.*

*Ein gweledigaeth yw cymdeithas gytbwys gyda'i gwreiddiau yn ddwfn mewn pentrefi a threfi llewyrchus sydd wedi'u cysylltu'n dda, sy'n apelio at deuluoedd ifanc a lle mae cartrefi a swyddi da ar gael, a chyfoeth yn cael ei gynhyrchu a'i gadw'n lleol. Rydym ni'n gweld cymunedau ffermio arloesol a mentrus yn diogelu ein hamgylchedd ac yn cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy fel rhan o ddiwydiant wedi'i integreiddio yn yr economi ehangach. Mae gennym ni ddarlun o lefydd deinamig y mae eu diwylliant yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac yn dod yn bwerdai i adfywio'r Gymraeg.*



# 6. Y Ffordd Ymlaen: Y Tu Ôl i'r Cynigion

6.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r rhesymeg y tu ôl i'r gofynion a'r cynigion allweddol a amlinellir yn nogfen y Weledigaeth Wledig ac mae'n trafod sut y gellid eu rhoi ar waith, gydag astudiaethau achos yn dangos enghreifftiau o'r arferion da cyfredol. Cafodd y cynigion eu datblygu ar sail dadansoddiad o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Gymru wledig, casglu syniadau drwy weithdai a'r arolwg ar-lein, ac ymgynghori ar awgrymiadau dros dro gyda'r rhanddeiliaid allweddol. Mae'r cynigion hefyd yn dilyn cyfres o egwyddorion a grynhoir isod.

6.2 Yn gyntaf, mae'r cynigion wedi'u hanelu at gydbwyso lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, gan adlewyrchu'r nodau llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Ffigur 6.1). Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y dylai cynllunio ar gyfer twf economaidd ystyried y goblygiadau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol i gymunedau, tirweddau ac ecosystemau'r Gymru wledig, ond yn yr un modd y dylai polisïau a dynodiadau amgylcheddol gydnabod dimensiynau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y Gymru wledig fel lle i fyw ac i weithio.




Ffigur 6.1: Cyplysu'r saith nod llesiant â dyheadau ar gyfer y Gymru wledig

6.3 Yn ail, mae'r cynigion yn ceisio datblygu economi gwledig amrywiol a sefydlog, gan ychwanegu gwerth at asedau ac adnoddau'r Gymru wledig. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn cydnabod mod ganolog yw'r economi sylfaenol – cynhyrchu bwyd, cyflenwi ynni a darparu addysg, gofal a gwasanaethau cyhoeddus eraill – ac mae'n pwysleisio diogelu a chipio gwerth o'r gweithgareddau hyn yng nghefn gwlad. Gellir cynhyrchu gwerth ychwanegol pellach drwy ganolbwyntio ar bedwar maes economaidd sy'n manteisio ar asedau ac adnoddau'r Gymru wledig wrth fynd ar drywydd cyfleoedd i ddatblygu'r farchnad newydd: yr eco-economi yn seiliedig ar dechnoleg werdd; yr economi wybodaeth sy'n defnyddio prifysgolion, ymchwil a datblygu diwydiannol a sefydliadau diwylliannol y rhanbarth, gan gynnwys drwy fiodechnoleg a diwydiannau creadigol; yr economi ffordd o fyw sy'n ymateb i'r galw am dwristiaeth wledig a hamdden, ansawdd bywyd a phrofiadau diwylliannol; a'r economi allforio sy'n gwerthu cynnyrch gwerth uchel o'r Gymru wledig i farchnadoedd arbenigol yn fyd-eang (Ffigur 6.2).

6.4 Yn drydydd, mae'r cynigion yn dilyn dull sy'n seiliedig ar leoedd, gan gydnabod bod amrywiaeth y Gymru wledig yn gofyn am atebion gwahanol mewn gwahanol ardaloedd ac mai'r ffordd orau o ddatblygu'r rhain yw o fewn cymunedau. Mae dull sy'n seiliedig ar leoedd yn pwysleisio integreiddio dimensiynau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol bywyd yn y Gymru wledig ar draws sawl maes polisi, ac yn caniatáu atebolrwydd lleol, gan gynnwys drwy'r awdurdodau lleol. Gall hefyd gydnabod rhyng-gysylltedd lleoedd unigol a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r dull sydd wedi'i seilio ar leoedd yn gyson â'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol arfaethedig.[193]




Ffigur 6.2: Blociau adeiladu'r economi gwledig

[193] 'Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2020.

6.5 Yn bedwerydd, mae'r cynigion yn ymarferol ac yn bosibl eu cyflawni yn y degawd nesaf. Nododd y gwaith rhag-weld wrth baratoi'r Weledigaeth Wledig nifer o dechnolegau newydd a allai ddod â goblygiadau sylweddol i gymunedau, busnesau a gwasanaethau’r Gymru wledig, gan gynnwys cerbydau awtomataidd, dronau dosbarthu, cig a dyfir yn y labordy a thanwydd hydrogen. Er hynny, nid yw'n amlwg y bydd y technolegau hyn yn dod yn ddigon cyffredin yn ystod y deng mlynedd nesaf naill ai i gael eu defnyddio fel atebion ar gyfer heriau sy'n wynebu'r Gymru wledig, neu i gael sylw difrifol fel bygythiadau i’r buddiannau cymdeithasol ac economaidd presennol.

6.6 Yn bumed, mae'r cynigion yn ategu dulliau arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â chymorth amaethyddol, rheoli tir a datblygu economaidd rhanbarthol, yn ogystal â'r strategaethau a’r cynlluniau gweithredu a fabwysiadwyd gan bartneriaethau Bargeinion Twf yng Nghymru a phrosesau polisi a chynllunio parhaus eraill megis paratoi cynlluniau llesiant lleol. Fel elfennau mewn Gweledigaeth Wledig, bwriedir i'r 'gofynion allweddol' a'r cynigion a amlinellir uno'r dotiau a llenwi'r bylchau rhwng y polisïau a’r rhaglenni presennol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chydlynol i gymunedau gwledig.

## Amrywio’r sail economaidd gyda dull economi gylchol tuag ar gyfer cynnyrch gwledig naturiol

6.7 Un aml-weddog yw economi'r Gymru wledig, ond ar raddfa leol mae llawer o gymunedau'n dibynnu'n drwm ar ystod gul o ddiwydiannau neu sectorau, gan gynnwys twristiaeth, amaethyddiaeth a phrosesu bwyd, a'r sector cyhoeddus, sy’n eu gwneud yn agored i amodau neu bolisïau newidiol y farchnad. At hyn, mae gwerth sylweddol yn cael ei ollwng o’r Gymru wledig, am fod cynhyrchion sylfaenol yn cael eu prosesu y tu allan i'r rhanbarth ac am fod adnoddau ac asedau’n cael eu tanddefnyddio. Nod dull economi cylchol yw sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o adnoddau drwy leihau gwastraff ac adfer ac adfywio deunyddiau ar ddiwedd eu hoes gwasanaeth. Ynghyd â mabwysiadu technolegau newydd a all hybu cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol, gall dull yr economi cylchol helpu i wella cynhyrchiant cefn gwlad a darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd dda a all helpu i gadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig a diogelu'r Gymraeg. Mae saith cam allweddol wedi’u nodi o dan y thema hon.

6.8 *Nodi marchnadoedd a chynhyrchion newydd i ychwanegu gwerth at y saill cynhyrchion*: Nid yw'r marchnadoedd presennol yn gwireddu gwerth llawn posibl da byw, cnydau ac adnoddau pysgodfeydd o'r Gymru wledig i’r eithaf, ac yn aml dim ond yn rhannol y mae’r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio, a gall problem gwastraff gael ei dwysáu os bydd marchnadoedd yn culhau ar ôl Brecsit. Er enghraifft, darnau coes i’w rhostio yw dros 40 y cant o’r cig oen sy’n cael ei werthu ym marchnad fanwerthu'r Deyrnas Unedig, sef dim ond 20 y cant o garcas oen, ac mae’r marchnadoedd cyflenwol ar gyfer toriadau’r lwyn a’r ysgwydd yn Ewrop yn wynebu heriau o dan y berthynas fasnach newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE.[194] I liniaru'r posibiliad y bydd marchnadoedd yr UE yn crebachu, ac i gadw mwy o werth yn y Gymru wledig, mae angen datblygu cynhyrchion newydd a marchnadoedd domestig a marchnadoedd allforio i gynhyrchion amrywiol o dda byw, cnydau, coed a'r sector morol, gan gynnwys mewn bwyd ethnig arbenigol, porthiant anifeiliaid, cynhyrchion fferyllol a chynhyrchion adeiladu. Gallai Llywodraeth Cymru a chyrff diwydiannol helpu gyda chymorth strategol at ddatblygu cynhyrchion a chwmpasu'r marchnadoedd.

[194] ‘Exploring the Implications of Brexit for Agriculture and Horticulture in Wales’, Adroddiad Horizon gan yr ADHB, 2018.

6.9 *Archwilio cyfleoedd ar gyfer technegau modern, fel amaeth digidol a ffermio fertigol*: Mae gan amaethyddiaeth ddigidol, gan gynnwys defnyddio data a gynhyrchir drwy fonitro tir yn ddigidol, amodau amgylcheddol, da byw a chnydau ynghyd ag offer a pheiriannau manwl a chyfrifiadurol, y potensial i wella cynhyrchiant ffermydd yn y Gymru wledig, cynyddu trosiant ac elw, helpu i reoli tir yn gynaliadwy a lleihau effeithiau amgylcheddol. Gall hybu amaethyddiaeth ddigidol wella atyniad ffermio i newydd-ddyfodiaid a chreu cyfleoedd i sefydlu busnesau gwasanaethau amaethyddol digidol newydd yn y Gymru wledig. Mae gan ffermio fertigol, sy'n defnyddio technegau amaethyddol digidol a thechnolegau hydroponig i dyfu cnydau ar ôl troed cyfyngedig, botensial i ehangu'r sector garddwriaeth – gan fynd i'r afael â gwendid yn niogelwch bwyd Cymru – gyda phrosiectau ar safleoedd sydd â thir cyfyngedig mewn trefi bach ac ymylon trefi. Yn yr un modd, mae amaeth-ecoleg a mathau eraill o amaethyddiaeth gynaliadwy ac adfywiol yn cynnig cyfleoedd i addasu arferion ffermio er mwyn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid tra'n galluogi ffermwyr i gynyddu incwm drwy dargedu marchnadoedd premiwm.[195] Gellid hybu'r mathau amrywiol hyn o arloesi amaethyddol drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

*6.10 Cydnabod gwerth strategol Cymru wledig fel man arbrofi ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy newydd.* Mae'r Gymru wledig eisoes yn gynhyrchydd ynni adnewyddadwy o bwys ac mae ganddi botensial i fod wrth wraidd economi ynni gwyrdd newydd. Ond, ychydig yn unig o'r gwerth o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gedwir yn y Gymru wledig a gall datblygiadau newydd wynebu cyfyngiadau capasiti a gwrthwynebiad oherwydd effeithiau tybiedig ar y dirwedd (para 4.36). Gallai pwyslais ar y Gymru wledig fel lle i arbrofi â thechnolegau newydd helpu i fynd i'r afael â phob un o'r materion hyn, gan dreialu dyluniadau sy'n fwy sensitif i gyd-destunau tirwedd ac effeithiau ecolegol lleol, arbrofi â dulliau technolegol newydd o wella capasiti, a chreu swyddi ac incwm yng nghefn gwlad drwy weithio gyda chwmnïau ynni mawr a phrifysgolion y rhanbarth i leoli gweithgareddau ymchwilio a datblygu yng Nghymru a buddsoddi mewn busnesau newydd sy'n cynhyrchu cydrannau ac yn ailgylchu darnau a ddefnyddiwyd ar safleoedd ynni adnewyddadwy.

*6.11 Buddsoddi mewn cynhyrchiant technoleg uchel i helaethu gwerth o gadwyni protein, gan adeiladu ar yr economi gylchol ac egwyddorion dim gwastraff.* Gellir ategu'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion a marchnadoedd newydd i ehangu'r gwerth a dynnir o adnoddau amaethyddol ac amgylcheddol Cymru drwy ganolbwyntio ar arloesi technolegol i ddatblygu cynnyrch a lleihau gwastraff. Mae gwaith diweddar dan arweiniad Hybu Cig Cymru ar ymestyn oes silff cig oen PGI Cymru o 21-28 diwrnod i 33 diwrnod drwy well arferion yn y gadwyn gyflenwi yn un enghraifft.[196] Ceir cyfleoedd hefyd i dyfu busnesau a chreu swyddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â datblygu cynhyrchion newydd a thargedu marchnadoedd newydd, ond hefyd wrth ymchwilio a llunio'r chynhyrchu'r technolegau a all greu'r manteision hyn, er enghraifft wrth ailgylchu ac ailddefnyddio adnoddau fel rhan o bwyslais ehangach ar adferiad economaidd gwyrdd. Gellid targedu cymorth ar gyfer ymchwilio a datblygu, busnesau newydd a buddsoddiadau mewn cyfleusterau prosesu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig.

6.12 *Mynd i'r afael â chyfleoedd y farchnad yn y sectorau iechyd a maetheg ar gyfer cynhyrchion a all ddeillio o arferion ffermio a physgota Cymreig:* Fel rhan o arallgyfeirio marchnadoedd amaethyddol a mabwysiadu egwyddorion economi cylchol i leihau gwastraff, mae cyfleoedd i'w harchwilio yn y sectorau iechyd a maeth. Mae'r rhain yn cynnwys marchnadoedd domestig a

[195] 'A Welsh Food System Fit for Future Generations', Adroddiad gan y Sefydliad Mannau Cynaliadwy ar ran WWF Cymru, 2020

[196] 'Oes-silff hirach i Gig Oen Cymru', Hybu Cig Cymru, 2020.

marchnadoedd allforio ar gyfer cynhyrchion sylfaenol o fyd amaeth ac o bysgodfeydd i'w defnyddio mewn ychwanegion a 'nutriceuticals', megis potes esgyrn ac atchwanegion colagen; yn ogystal â nwyddau anniriaethol fel mentrau 'ffermio gofal' sy'n creu incwm o fanteision therapiwtig amgylcheddau gwledig ac ymwneud ag anifeiliaid fferm.

6.13 *Cydnabod gwerth sgiliau iaith Cymraeg yn y gweithle a manteisio ac archwilio'r cysylltiadau rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd:* Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno allfudiad trigolion ifanc a medrus Cymraeg eu hiaith o gymunedau gwledig yw'r prinder tybiedig o gyfleoedd am gyflogaeth briodol (para 4.8), sy'n cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn rhannau o'i broydd traddodiadol (para 4.63). Fel rhan o strategaeth *Cymraeg 2050* ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg,[197] dylid canolbwyntio'r gweithredu ar gydnabod gwerth sgiliau Cymraeg yn y gweithle, hybu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, a chreu cyfleoedd am gyflogaeth Gymraeg fwy medrus a phroffesiynol yn y Gymru wledig. Gallai hynny olygu annog mwy o weithio o bell ac o'r cartref yn y sector cyhoeddus a galwedigaethau proffesiynol eraill, yn ogystal â chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth a thwf busnes mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes megis prosiect Arfor (Blwch 6.1).

6.14 *Gwireddu potensial economaidd Ymchwil a Datblygu o safon ryngwladol i ychwanegu gwerth i gynhyrchion gwledig, yn enwedig yn sectorau megis biotechnoleg, technoleg gwyrdd a gweithgynhyrchu uwch:* Mae gan y Gymru wledig asedau gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys tair prifysgol mewn siroedd gwledig a rhagor mewn ardaloedd cyfagos, yn ogystal â charfan sefydledig o gwmnïau sy'n ymwneud ag ymchwilio a datblygu a gwaith gwyddonol (para 4.34) (Blwch 6.2). Yn ychwanegol at adnoddau gwybodaeth, mae cwmnïau ymchwil, technoleg newydd a gweithgynhyrchu uwch yn cael eu denu i'r Gymru wledig gan ansawdd yr amodau amgylcheddol a gynigir gan safleoedd diarffordd heb fawr o sŵn, llygredd a bywyd isel. Mae ehangu'r sectorau hyn yn flaenoriaeth i bob partneriaeth Bargen Twf sy'n cynnwys ardaloedd gwledig Cymru, ac mae'r prosiectau'n cynnwys Canolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig yng Ngheredigion (Blwch 6.3), yn ogystal ag adeiladu ar ddatblygiadau'r rhyngwyneb gwybodaeth fel Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, Canolfan OpTIC Prifysgol Glyndŵr yn Llanelwy a Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru yng Nghaerdydd. Gall buddsoddi mewn technoleg werdd a diwydiannau gweithgynhyrchu uwch gyfrannu at amcanion yr economi cylchol drwy ganolbwyntio ar ddatblygu technolegau mwy cynaliadwy, lleihau gwastraff ac adfer, adfywio ac ailddefnyddio deunyddiau o gynhyrchion sydd wedi dod i ben.

**Blwch 6.1: Astudiaeth Achos – Arfor**

Mae Arfor yn brosiect datblygu economaidd sy'n gweithio ar draws Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae wedi'i dargedu at ddatblygu prosiectau peilot sydd wedi'u hanelu at ymyriadau yn yr economi lleol, a gaiff effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a gwydnwch yr iaith yn y rhannau hyn o'r wlad. Clustnodwyd cyllideb o £2m ar gyfer y prosiect hwn o 2019-2021, sy'n cynnwys datblygu mentrau peilot yn y pedwar rhanbarth, ynghyd â datblygu dull strategol o wella'r Gymraeg drwy ddatblygu economaidd, sy'n cael ei datblygu gan ymgynghorwyr Wavehill. Mae'r ymyriadau peilot yn cynnwys cynlluniau grantiau busnes, darparu cymorth dechrau busnes a thwf busnes, gan ofyn i fusnesau ddangos sut y bydd eu syniad neu eu cynnyrch busnes yn cefnogi'r Gymraeg. Hefyd, cyflwynodd Gwynedd ac Ynys Môn brosiect 'Llwyddo'n Lleol', a drafodir yn fanylach ym Mlwch 6.4.

https://www.rhaglenarfor.cymru/index.en.html

[197] 'Cymraeg 2020: Miliwn o Siaradwyr. Cynllun Gweithredu 2019-20', Llywodraeth Cymru, 2019.

**Blwch 6.2: Astudiaeth Achos – Riversimple Movement Ltd**

Mae Riversimple yn gwmni peirianneg werdd arloesol sydd wedi'i leoli yn Llandrindod ac sy'n gweithio ar gar prototeip sy'n defnyddio hydrogen. Symudodd y cwmni i'r Canolbarth yn 2015 ar ôl cael ei ddenu gan weithdai ehangach a chefnogaeth gan awdurdodau lleol i brofi prototeipiau, gan gynnwys ar ffyrdd preifat ar Faes y Sioe Frenhinol, yn ogystal â £3.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae Riversimple yn datblygu car ffeibr carbon ysgafn sy'n cael ei bweru gan gell tanwydd hydrogen nad yw'n gollwng carbon. Mae model eco coupe Rasa y cwmni yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gyda'r uchelgais o gynnal lansiad masnachol yn 2023. Ym mis Hydref 2020, lansiodd y cwmni gylch buddsoddi i godi £150 miliwn i sefydlu gweithfeydd gweithgynhyrchu yn y Canolbarth a'r De – un yn cynhyrchu'r Rasa a'r llall yn cynhyrchu cerbyd nwyddau ysgafn – gyda'r posibilrwydd o greu 180 i 220 o swyddi medrus.

https://www.riversimple.com/

**Blwch 6.3: Astudiaeth Achos – Canolfan Sbectrwm Genedlaethol**

Mae'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Aberystwyth a Qinetiq sy'n anelu at ddiogelu cymwysiadau rhag y dyfodol gan ddefnyddio adnodd cyfyngedig y sbectrwm radio drwy ymchwilio ac arbrofi. Mae cymwysiadau'r sbectrwm yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu symudol, radar, telemetreg, synwyryddion, systemau darlledu a llywio ac fe'u defnyddir mewn gweithgynhyrchu, gofal iechyd ac amryw o wasanaethau i ddefnyddwyr. Mae diogelu capasiti'r sbectrwm drwy ddatblygu technolegau, polisïau a phrotocolau newydd ynghylch rhannu'r sbectrwm yn hanfodol i fuddiannau economaidd cenedlaethol. Bydd y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol yn cyfuno arbenigedd Prifysgol Aberystwyth a Qinetiq ac yn defnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan amgylchedd gwledig Cymru ar gyfer amgylcheddau naturiol anghysbell ond hygyrch ar gyfer arbrofion a phrofion a all gael eu hailadrodd. Mae asesiad effaith economaidd wedi darogan y gallai'r Ganolfan Sbectrwm Cenedlaethol greu rhwng 42 a 66.6 o swyddi parhaol yn uniongyrchol.

https://tradeandinvest.wales/national-spectrum-centre-0

## Rhaglen ieuenctid wledig wedi'i thargedu i fuddsoddi, gwella sgiliau, denu a chadw pobl ifan disglair a medrus mewn cymunedau gwelig

6.15 Mae'r diffyg cyfatebiaeth sgiliau yng nghefn gwlad Cymru yn creu cylch dieflig (para 4. 16). Mae pobl ifanc fel arfer yn gadael cymunedau gwledig i ddilyn addysg uwch neu hyfforddiant ac yn aml fe'u cyfyngir yn eu gallu i ddychwelyd am mai cyfyngedig yw nifer y swyddi priodol sy'n cyfateb i'w cymwysterau. Ar yr un pryd, mae cwmnïau a sefydliadau sy'n gallu darparu cyflogaeth o ansawdd dda yn cael eu rhwystro rhag buddsoddi gan ddiffyg cronfa sylweddol o lafur â sgiliau priodol. Efallai y bydd pobl ifanc sy'n dewis aros mewn ardaloedd gwledig, neu ddychwelyd adref iddynt, yn canfod yn eu tro fod eu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dyrchafiad gyrfa yn gyfyngedig, tra bo graddfa gymharol fach y rhan fwyaf o fusnesau'r Gymru wledig yn creu rhwystrau ar gyfer hyfforddiant mewnol, gwella sgiliau a chynllunio olyniaeth (para 4. 11). Yn yr un modd, mae yna faterion nodedig ynglŷn â recriwtio ar gyfer rhai swyddi medrus, yn enwedig ym maes gofal iechyd (para 4.49). Mae angen ymyriadau strategol i fynd i'r afael â'r problemau

hyn ac adeiladu gweithlu yn y Gymru wledig sydd â'r adnoddau ar gyfer economi'r unfed ganrif ar hugain. Mae pedwar cam penodol wedi'u cynnig.

6.16 *Canolfannau Rhagoriaeth STEMM*: Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar heriau cysylltiedig cadw pobl ifanc yng nghefn gwlad ac adeiladu gweithlu gwledig medrus a all ddenu buddsoddiadau mewn swyddi o safon mewn sectorau economaidd sy'n datblygu. Mae'n rhag-weld sefydlu cyfres o Ganolfannau Rhagoriaeth STEMM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg ac Arian) ledled y Gymru wledig, a gynhelir gan y darparwyr addysg ôl-16 presennol ond a fydd yn cyflwyno adnoddau a chyfleoedd ychwanegol ar gyfer astudiaethau galwedigaethol ôl-16 ac uwchsgilio ac ailhyfforddi oedolion. Byddai'r canolfannau'n targedu gofynion sgiliau sectorau allweddol a rhai sy'n datblygu yn yr economi gwledig, gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, bioeconomi, economi cylchol, diwydiannau creadigol, technoleg ddigidol ac electroneg, gwyddoniaeth bwyd, gofal iechyd, seilwaith carbon isel ac amaethyddiaeth yr unfed ganrif ar hugain. Byddai Canolfannau Rhagoriaeth STEMM yn cynnwys cyfleusterau corfforol at hyfforddiant ymarferol, ond hefyd darpariaeth ar-lein y gallai myfyrwyr gartref neu mewn ysgolion, cyfleusterau chweched dosbarth, llyfrgelloedd cyhoeddus neu ganolfannau cymunedol ei dilyn i liniaru anawsterau teithio a hygyrchedd cefn gwlad . Byddai hyfforddiant yn y gweithle yn nodwedd amlwg arall, a byddai'r Canolfannau Rhagoriaeth STEMM yn cynnwys cyfranogiad strategol gan gwmnïau angori ac entrepreneuriaid i ddarparu cysylltiadau â'r farchnad gyflogaeth leol, yn ogystal â phartneriaethau â phrifysgolion. Gallai'r hyfforddiant arwain at gymwysterau proffesiynol a galwedigaethol, gan gynnwys Prentisiaethau Gradd.[198]

6.17 *Datblygu sgiliau entrepreneuraidd a gosod hunangyflogaeth fel llwybr gyrfa i'w ddyheu*: Mae hunangyflogaeth a meicrofentrau yn nodweddion pwysig yn economi'r Gymru wledig a gall entrepreneuriaeth fod yn strategaeth bwysig i alluogi pobl ifanc i aros mewn cymunedau gwledig a threfi bach neu ddychwelyd adref iddynt. Ond, yn aml does gan unigolion mo'r hyder na'r wybodaeth i sefydlu eu busnes eu hunain yn llwyddiannus. Gallai mentrau wedi'u targedu helpu i gefnogi gweithgarwch entrepreneuraidd gan bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig drwy fentora, hyfforddiant a chyngor a fyddai'n cynnwys agweddau fel cyllid, gofynion cyfreithiol, marchnata a rheoli, gan adeiladu ar enghreifftiau fel prosiect Menter Môn, Llwyddo'n Lleol 2050 (Blwch 6.4). Gellid hefyd ystyried gwella'r cyngor ar entrepreneuriaeth sydd ar gael drwy wasanaethau cynghori gyrfaoedd yn yr ysgolion, a chynlluniau cyflogaeth cyfunol lle byddai sefydliadau angori yn cynnig swyddi rhan-amser a fyddai'n darparu incwm sefydlog ochr yn ochr â hyblygrwydd i unigolion ddatblygu syniad busnes.

6.18 *Hyfforddi a recriwtio gweithwyr iechyd proffesiynol i weithio yn y Gymru wledig*: Mae heriau o ran recriwtio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u nodi mewn llawer rhan o'r Gymru wledig, ac mae'r broblem yn debygol o gael ei dwysáu yn sgil mynediad mwy cyfyngedig i farchnadoedd llafur Ewropeaidd ar ôl Brecsit (para 4.77). Gall recriwtio cyflogeion fod yn ffactor mewn penderfyniadau i resymoli gwasanaethau gofal iechyd yng nghefn gwlad ac mae'n creu problemau penodol o ran parhad meddygfeydd a deintyddfeydd mewn trefi gwledig lle mae'r ymarferwyr presennol yn nesáu at ymddeol. Fel y sylwodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd, mae myfyrwyr meddygol a gofal iechyd o ardaloedd gwledig a'r rhai sy'n ymgymryd ag o leiaf ran o'u hyfforddiant mewn lleoliadau gwledig yn fwy agored i ymgymryd â swyddi mewn ardaloedd gwledig ar ôl ennill eu cymhwyster.[199] Mae argymhelliad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion meddygol ac awdurdodau iechyd i lunio cynllun

[198] 'Prentisiaethau Gradd', CCAUC.

[199] 'Recriwtio Meddygol', Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017.

gweithredu ar y cyd ar gyfer hyfforddiant ac addysg feddygol wledig yn fenter bwysig a allai gwmpasu prosiectau cyfredol fel y rhaglen Iechyd Gwledig ac Iechyd o Bell mewn Addysg Feddygol ym Mhrifysgol Abertawe a'r llwybr Addysg Gymunedol a Gwledig yn Ysgol Feddygaeth Caerdydd, yn ogystal â chynigion ar gyfer Ysgol Nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ysgol Feddygaeth i'r Gogledd. Gellid hefyd ystyried cymhellion ychwanegol, megis diddymu dyledion benthyciadau myfyrwyr yn llawn neu'n rhannol ar gyfer graddedigion meddygol sy'n cytuno i dreulio cyfnod gofynnol yn gweithio yn y Gymru wledig, yn enwedig fel mesurau dros dro.

6.19 *Uwchsgilio busnesau bach a masnachwyr i fanteisio ar gyfleoedd technolegol newydd a chefnogi cynllunio olyniaeth drwy wella cyfleoedd i unig fasnachwyr, meicrofentrau a sefydliadau bach gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth*. Gall goruchafiaeth meicrofentrau a busnesau bach yn economi'r Gymru wledig (para 4.11) rwystro moderneiddio a gwelliant sgiliau. Mae cyflogeion siroedd gwledig Cymru yn llai tebygol na'u cymheiriaid trefol o fod wedi cwblhau hyfforddiant mewn gwaith dros y flwyddyn cynt, gan adlewyrchu gallu mwy cyfyngedig meicrofentrau a busnesau bach i ddarparu cyfleoedd o'r fath. Gallai cynlluniau wedi'u targedu ddarparu hyfforddiant i unig fasnachwyr a chyflogeion meicrofusnesau a mentrau bach, er enghraifft i helpu i wella sgiliau i ddefnyddio technolegau newydd fel marchnata ar-lein, ynghyd â grantiau bach i helpu busnesau i uwchraddio offer. Gall busnesau a sefydliadau bach hefyd wynebu heriau wrth gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth, a all rwystro cynllunio olyniaeth. Gallai asiantaethau datblygu ac eraill hybu prentisiaethau aml-bartner ar draws mwy nag un feicrofenter neu rhwng sefydliadau mawr a bach mewn pâr, fel a wneir, er enghraifft gan Amgueddfa Ceredigion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal â darparu cymorth gweinyddol canolog.

**Blwch 6.4: Astudiaeth Achos – Llwyddo'n Lleol 2050**

Un o gynlluniau Menter Môn yw Llwyddo'n Lleol 2050 ac mae'n gweithio gyda darpar entrepreneuriaid Cymraeg eu hiaith yng Ngwynedd ac Ynys Môn i'w helpu i ddatblygu syniadau busnes ac ateb argraffiadau bod angen i bobl lle ymadael â'r ardal er mwyn llwyddo. Dros ddeng wythnos yn 2020, cymerodd 14 o entrepreneuriaid ifanc ran yn y cynllun i ddatblygu cynllun busnes, gydag arweiniad a mentora gan arbenigwyr a grant cychwyn busnes o £1,000. Mae'r cynlluniau busnes a luniwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys dylunio llawrydd, gofal plant, cegin pitsa awyr agored, brodwaith, dillad gŵyl, a gwneud smwddis ac ysgytlaeth. Yn ystod y cam nesaf, bydd y cynllun yn ariannu'r cyfranogwyr am un diwrnod yr wythnos am chwe mis i barhau i ddatblygu eu busnes. Ariennir Llwyddon'n Lleol gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Arloesi Arfor ac fe'i gweithredir ar ran cynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

https://www.mentermon.com/en/priosectau/llwyddon-lleol-2050/

## Ychwanegu gwerth at isadeiledd gwledig

6.20 Mae ansawdd a rhychwant seilwaith y Gymru wledig yn gyfyngiad mawr ar ddatblygu cymdeithasol ac economaidd ac yn ffactor allweddol mewn anghydraddoldebau gofodol sy'n milwrio yn erbyn un o'r nodau llesiant, sef sicrhau Cymru fwy cyfartal. Mae cyfyngiadau'n effeithio ar seilwaith confensiynol, gan gynnwys gridiau cyfleustodau a rhwydweithiau trafnidiaeth, ac ar seilwaith digidol newydd ar gyfer band eang a ffonau symudol. Bydd buddsoddi mewn gwelliannau yn seilwaith y Gymru wledig nid yn unig yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac yn gwella ansawdd bywyd llawer o drigolion cefn gwlad,

ond hefyd yn datgloi'r potensial ar gyfer twf economaidd gwyrdd. Mae'r Weledigaeth Wledig yn amlinellu wyth cam penodol.

6.21 *Sicrhau darpariaeth band eang cyffredinol ac isadeiledd symudol digidol*: Mae amddifadedd digidol yn fater holl-bwysig i rhwng un rhan o bump a chwarter y trigolion gwledig yng Nghymru sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at fand eang, a'r rhai sy'n byw yn yr un rhan o ddeg o arwynebedd tir Cymru sydd heb 4G (para 4.52). Mae'r pandemig COVID-19 wedi pwysleisio canlyniadau cysylltedd digidol gwael, gan effeithio nid yn unig ar allu trigolion gwledig yr effeithir arnynt i weithio'n effeithiol gartref, ond hefyd ar fynediad cyfartal i wasanaethau addysg, gofal iechyd a bancio sydd wedi symud ar-lein. O dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, mae gan bob aelwyd hawl i ofyn am gysylltiadau band eang o 10 Mbt/s o leiaf, ond codir tâl ar aelwydydd am gostau gosod gormodol dros £3,400. Gan fod costau gosod yn y lleoliadau gwledig mwyaf anghysbell gryn dipyn yn uwch na'r trothwy hwn, mae'r amod yn atal y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol rhag cael ei chyflawni'n effeithiol mewn sawl rhan o'r Gymru wledig. Mae angen strategaeth newydd i ddarparu band eang cyffredinol, gan adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Rwydwaith Gwledig Cyffredin, a gallai gynnwys camau fel cymorthdaliadau cyhoeddus pellach ar gyfer costau gosod band eang o fwy na £3,400; cefnogi uwchraddio cysylltiadau â ffermydd fel rhan o'r cyllid sydd ar gael o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; symud y pwyslais o 'ffeibr i'r cartref' (FTTH) i signal rhwydwaith 4G a 5G sy'n gallu cefnogi band eang symudol, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol;[200] datblygu Rhwydweithiau Ardal Eang Amrediad Hir (LoRaWAN) gan ddefnyddio cysylltiadau di-wifr amrediad hir; a threfnu bod awdurdodau lleol neu sefydliadau cymunedol yn gweithredu fel darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithiau ardal leol ar sail canolfannau band eang mewn ysgolion, neuaddau cymunedol neu safleoedd allweddol eraill. Gallai addasu neuaddau cymunedol fel canolfannau digidol i roi mynediad i wasanaethau band eang a digidol cyflym i breswylwyr mewn ardaloedd â chysylltedd gwael fod yn fesur dros dro priodol, gan adeiladu ar gynllun peilot yn Sir Fynwy (Blwch 6.5).[201]

6.22 *Gwelliannau sylweddol i isadeiledd ffyrdd gwledig*: Mae llawer o drigolion a busnesau yn y Gymru wledig sydd heb fynediad agos at ddewisiadau eraill fel rheilffyrdd yn dibynnu ar rwydwaith ffyrdd sy'n dirywio yn sgil dadfuddsoddi a dadflaenoriaethu. Mae seilwaith ffyrdd gwael yn cynyddu costau i fusnesau gwledig, yn ymestyn amserau teithio i gael gwasanaethau a gall waethygu problemau diboblogi mewn cymunedau gwledig anghysbell. Byddai rhaglen wedi'i thargedu o welliannau i rwydwaith ffyrdd y Gymru wledig yn cefnogi twf economaidd ac yn lleddfu anghydraddoldebau cymdeithasol-ofodol, gyda phwyslais ar uwchraddio llwybrau strategol, gwella diogelwch ar y ffyrdd, lliniaru tagfeydd a llygredd aer lleol, a chynorthwyo hygyrchedd i'r cymunedau mwyaf ymylol. Dylai'r rhaglen hefyd baratoi'r Gymru wledig i drosglwyddo i drafnidiaeth ôl-garbon, gan gynnwys gosod gorsafoedd gwefru i gerbydau trydan (a nodi safleoedd posibl ar gyfer gwasanaethau tanwydd hydrogen yn y dyfodol), y gellir eu cyfuno â chyfleusterau seibiant.

6.23 *Datblygu cludiant cyhoeddus arloesol wedi'i arwain gan y galw a chynlluniau cymunedol i rannu ceir:* Cyfyngedig yw'r gwasanaethau bysiau cyhoeddus mewn llawer o gefn gwlad Cymru (para 4. 51) ac maent yn wynebu crebachu pellach drwy effeithiau disgwyliedig COVID-19, newidiadau mewn patrymau cymudo, gostyngiadau posibl mewn cymorthdaliadau, a threthi tanwydd uwch. Mae colli gwasanaethau bysiau yn effeithio'n arbennig ar drigolion cymunedau gwledig sydd ar y cyrion ac sydd heb fynediad i gar preifat, gan gynnwys llawer o bobl ifanc a thrigolion oedrannus,

[200] 'Seilwaith Cyfathrebu yng Digidol Cymru', Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, 2020.
[201] 'Village Halls as Digital Hubs', Adroddiad Arferion Da ROBUST, 2020.

gan greu rhwystrau ychwanegol ar gyfer mynediad i addysg, gofal iechyd, cyflogaeth a gwasanaethau. Mae cynlluniau trafnidiaeth gymunedol a rhai gweithredwyr masnachol wrthi'n datblygu modelau trafnidiaeth gyhoeddus amgen sy'n seiliedig ar alw, megis cynllun Bwcabus yn y Gorllewin (Blwch 6.6) neu'r rhwydwaith Llwybrau Glaswellt yn Sir Fynwy, gyda lle i dwf pellach gael ei gynnig gan dechnolegau digidol newydd sy'n seiliedig ar apiau a allai ddarparu ar gyfer gwasanaethau mwy ymatebol.[202] Gallai grantiau wedi'u targedu helpu i sefydlu mwy o gynlluniau trafnidiaeth sy'n dilyn y galw, cyflwyno gwasanaethau archebu digidol, a throsi i gerbydau trydan neu gerbydau sy'n cael eu pweru gan hydrogen. Yn yr un modd, gallai cynlluniau ceir cymunedol greu opsiynau trafnidiaeth hyblyg i drigolion cymunedau gwledig sydd angen defnyddio car yn achlysurol, er enghraifft gyda llai yn cymudo oherwydd symud i weithio gartref, ar y cyd â dulliau archebu, allweddau a dulliau tracio digidol. Gallai costau cychwynnol sylweddol, gan gynnwys prynu cerbydau trydan, gael cymorth grant drwy Gynllun Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig, gyda chynlluniau'n dod yn hunangyllidol drwy ffioedd aelodaeth neu ffioedd llogi.

6.24 *Hybu teithio llesol mewn ardaloedd gwledig gan fuddsoddi mewn llwybrau diogel ar gyfer beicio a cherdded*: Mae gwelliannau ym mhellter teithio e-feiciau wedi creu cyfleoedd newydd i feicio gael ei ddefnyddio'n rheolaidd fel ffordd o gymudo a theithio mewn ardaloedd gwledig. Ond, mae diffyg seilwaith ategol priodol a'r angen i feicio ar ffyrdd prysur yn dal yn rhwystro hyn rag cael ei fabwysiadu'n eang. Gallai cynllun teithio llesol gwledig hwyluso newid mewn ymddygiad teithio drwy osod parciau beicio diogel gyda chyfleusterau gwefru mewn trefi bach, a thrwy gefnogi'r broses o greu llwybrau beicio diogel ar wahân sy'n cysylltu trefi a phentrefi bach. Gall llwybrau diogel hefyd hybu mwy o gerdded rhwng cymunedau, ac felly hefyd arwyddion clir a chynnal-a-chadw llwybrau troed strategol gan adeiladu ar y rhwydwaith a nodwyd mewn gwaith gwirfoddol gan y prosiect Slow Ways.[203]

6.25 *Buddsoddi yng ngallu'r grid mewn ardaloedd gwledig*: Mae'r Gymru wledig yn cynhyrchu llawer o ynni adnewyddadwy, ond cyfyngir ar ei gallu i ehangu ymhellach gan gapasiti'r grid trydan sy'n cysylltu cefn gwlad Cymru â rhannau eraill o'r wlad. Mae daearyddiaeth cynhyrchu ynni yn y Deyrnas Unedig yn newid ac mae angen ailgyfeirio'r grid i adlewyrchu hyn. Disgwylir hefyd y bydd angen gwella capasiti'r grid mewn ardaloedd gwledig gan rag-weld y bydd mwy o alw am drydan ar aelwydydd gwledig, yn enwedig i wefru cerbydau trydan a disodli gwres canolog olew, a chefnogi datblygiad technoleg werdd, biodechnoleg a diwydiannau creadigol. Mae cynigion ar gyfer llinellau cebl uwchben newydd wedi wynebu gwrthwynebiad mewn rhai rhannau o'r Gymru wledig oherwydd eu heffeithiau ar y dirwedd, ac er y bydd angen ceblau uwchben mewn rhai achosion, dylid blaenoriaethu buddsoddi mewn ceblau tanddaearol drutach lle bo'n bosibl. Bydd angen cydnabod cost sylweddol y prosiect hwn fel blaenoriaeth seilwaith cenedlaethol strategol i'r Deyrnas Unedig wrth drosglwyddo i gymdeithas ddi-garbon.

6.26 *Nodi dulliau o ddatblygu gwresogi di-garbon ar gyfer eiddo oddi ar y grid, buddsoddi mewn prosiectau peilot tanwydd hydrogen ar gyfer cartrefi gwledig newydd ac ôl-osod mewn cartrefi eraill:* Mae dros 90,000 o aelwydydd yn siroedd gwledig Cymru yn dibynnu ar wres canolog olew, gan gynnwys rhai nad ydynt wedi'u cysylltu â gridiau nwy na thrydan o'r prif gyflenwad.[204] Mae angen strategaeth i drosglwyddo'r eiddo hyn i ffynonellau tanwydd nad ydynt yn rhai carbon. Er y bydd llawer yn cael eu cysylltu â'r grid trydan ac yn gallu newid i wres trydan, efallai y bydd problemau o ran capasiti neu gost a gall rhai adeiladau fod oddi ar y grid. Gall cynhyrchu ynni'r

[202] 'Demand Responsive Transport in Rural Areas', Adroddiad Arferion Da ROBUST, 2020.
[203] Slow Ways – A Network of Walking Routes Connecting Great Britain, https://slowways.uk/
[204] Cyfrifiad 2011, drwy NOMIS

haul neu'r gwynt ar raddfa fach fod yn briodol mewn rhai achosion, gan ddysgu o brosiectau tai cynaliadwy dewisol oddi ar y grid sy'n fach eu heffaith. Mewn achosion eraill gellid ystyried systemau gwresogi ardal, gwres a phŵer cyfun, a chynlluniau peilot gyda gwres sy'n defnyddio hydrogen.

6.27 *Cefnogi dyheadau am Ddyfodol Di-Garbon*: Mae adnoddau adnewyddadwy'r Gymru wledig yn golygu ei bod wrth galon twf economaidd gwyrdd a'r newid i gymdeithas ddi-garbon. Ond, ar hyn o bryd ychydig iawn o'r gwerth a grëir drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y Gymru wledig sy'n aros yn y rhanbarth neu'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu economaidd lleol (para 4.36). Dylai polisïau ar gyfer ehangu ynni adnewyddadwy yn y dyfodol yn y Gymru wledig gynnwys camau i sicrhau a gwella'r manteision i'r cymunedau lleol. Dylid hybu a chefnogi cynlluniau ynni sy'n perthyn i'r gymuned ac yn cael eu rheoli ganddi, ar gyfer hunangynhaliaeth ac i gyflenwi'r grid cenedlaethol, gan gynhyrchu incwm i gymunedau (Blwch 6.7). At hyn, dylai cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd bwysleisio lleoli ar y cyd â seilwaith ynni fel ffermydd gwynt, ffermydd solar a chynlluniau trydan dŵr neu yn agos at y rhain, gydag unedau ar raddfa fach ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu a thechnoleg sy'n fach eu heffaith yn gatalydd i ddatblygu'r economi a chreu cyflogaeth yng nghefn gwlad.

6.28 *Sicrhau fod buddsoddiad mewn isadeiledd Cymreig o'r 'Fargen Newydd i Brydain' i fuddsoddi yng nghyfleusterau gofal iechyd, addysg, a chludiant yr 21ain ganrif ar gyfer cymunedau gwledig*: Cyhoeddwyd y Fargen Newydd i Brydain gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2020 fel strategaeth ymbarél ar gyfer buddsoddi i ysgogi datblygu economaidd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol.[205] Mae'r Fargen Newydd i Brydain yn ddull gweithredu ledled y Deyrnas Unedig a rhagwelir mai dyma fydd y brif ffynhonnell fuddsoddi mewn seilwaith. Mae'n cynnig cyfleoedd i'r Gymru wledig, ond mae angen cynllunio rhagweithiol i sicrhau buddsoddiad ar gyfer y rhanbarth. Gallai'r Fargen Newydd i Brydain ddarparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith digidol, trafnidiaeth ac ynni a amlinellir uchod, yn ogystal ag ar gyfer uwchraddio ysbytai a chyfleusterau iechyd, a gwella cysylltiadau a seilwaith rheilffyrdd, awyr a môr.

**Blwch 6.6: Astudiaeth Achos – Prosiect Hybiau Digidol Sir Fynwy**

Mae prosiect neuaddau pentref Sir Fynwy fel hybiau digidol yn dreial a gychwynnwyd drwy waith datblygu gwledig a chynhwysiant digidol gan Gyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Llanofer. Nod y prosiect yw gwella'r ddarpariaeth band eang, codi ymwybyddiaeth ddigidol ac ehangu sgiliau digidol y preswylwyr, ymgysylltu â chymunedau lleol a gwella hyfywedd neuaddau pentref. Gosodwyd cysylltiadau band eang cyflym iawn ac offer wi-fi mewn pedair neuadd bentref yn Llanofer, Llandewi Rhydderch, Llanfair Cilgedin a'r Bryn. Mae'r cyfleusterau ar gael i drigolion lleol eu defnyddio, yn unigol a thrwy weithgareddau wedi'u trefnu, ac fe'u defnyddir mewn rhaglen o weithgareddau a hyfforddiant i helpu'r trigolion i ddysgu mwy am dechnoleg ddigidol. Ar ben hyn, fel rhan o'r prosiect mae'r neuaddau wedi cael taflunyddion cydraniad uchel, sgriniau a systemau sain amgylchynol, sy'n caniatáu digwyddiadau fel dangos ffilmiau a chynnau cyngherddau, yn ogystal a darlledu digwyddiadau rhwng y lleoliadau. Mae'r mentrau hyn wedi agor y neuaddau i gynulleidfaoedd newydd a phob grŵp oedran.

http://www.rural-urban.eu/sites/default/files/MW_Good-practice_Village-Halls_end.pdf

[205] 'PM: A New Deal for Britain', Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Mehefin 2020.

**Blwch 6.7: Astudiaeth Achos – Bwcabus**

Mae Bwcabus yn wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cael ei arwain gan y galw ac mae'n cael ei redeg fel partneriaeth rhwng cynghorau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y gwasanaeth yn 2009 ac mae wedi cael cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac amryw o ffynonellau eraill. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fflyd o fysiau sy'n hwylus o ran symudedd mewn parthau teithio penodol yn y tair sir. Mae llwybr ac arosfannau pob dydd yn cael eu cynllunio'n ddeinamig yn unol ag anghenion y defnyddwyr, gan ddefnyddio technolegau mapio, paratoi llwybrau a GPS. I archebu lle ar y bws, mae'r defnyddwyr yn ffonio rhif llinell gymorth cyn 7pm i deithio y bore wedyn a chyn 11.30am i deithio yr un prynhawn. Mae angen cofrestru ymlaen llaw am ddim a chyfrifir cost y daith yn ôl y pellter a deithir. Mae'r rhan fwyaf o'r teithwyr yn cael eu codi yn eu safle bws lleol, ond mae modd codi teithwyr sy'n llai abl i symud o gwmpas neu sy'n byw mewn lleoliadau ynysig iawn ar garreg y drws. Mae gwerthusiad wedi dangos bod Bwcabus wedi lleihau galwadau am ymweliadau cartref gan feddygon ac wedi lleihau amserau teithio cyfartalog i'r ganolfan gyflogaeth agosaf o 52 munud i 27 munud. Gall Bwcabus hefyd gysylltu â chyfnewidfeydd ar gyfer llwybrau bysiau TrawsCambria pellter hir, gan ddarparu cysylltiadau â threfi a dinasoedd mwy.

https://www.bwcabus.traveline-cymru.info/

**Blwch 6.8: Astudiaeth Achos – Cymoedd Gwyrdd Llangatwg**

Mae Cymoedd Gwyrdd Llangatwg yn fenter gymunedol a ffurfiwyd yn 2009, a gofrestrwyd fel Cwmni Budd Cymunedol yn 2010 ac sy'n ceisio harneisio adnoddau lleol ym Mannau Brycheiniog i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o ddŵr, yr haul a thanwydd pren, gyda'r nod o wneud pentref Llangatwg yn garbon niwtral. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Cymoedd Gwyrdd Llangatwg wedi cael arian o amryw o ffynonellau at gyfres o brosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladu pum cynllun ynni dŵr meicro, gosod cynllun solar PV ar ysgol gynradd y pentref a phwmp gwres sy'n tarddu o'r aer ar gyfer y neuadd gymunedol, gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi lleol, ac arbrofi gyda threulio anaerobig.

http://www.llangattockgreenvalleys.org/

## Sector Dwristiaeth gynaliadwy sy'n cefnogi cymunedau, busnesau a phobl leol

6.29 Mae twristiaeth yn sector economaidd pwysig yn y Gymru wledig ac yn ffactor pwysig wrth ysgogi newid cymdeithasol a diwylliannol (para 4.28-4.31). Nid yw nifer yr ymwelwyr a manteision economaidd twristiaeth wedi'u dosbarthu'n gyfartal, gyda chrynodiadau yn Sir Benfro ac Eryri (para 4.29-4.30). Yn yr un modd, mae cyfyngiadau COVID-19 a'r haf dwys dilynol yn nhymor 2020 wedi pwysleisio'r heriau sy'n codi o'r crynodiad hwn, gan dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â gorddibyniaeth cymunedau ar dwristiaeth ar gyfer cyflogaeth ac incwm busnes, ac effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gor-dwristiaeth (para 4.88-4.90). Er hynny, mae COVID-19 yn gweithredu fel catalydd ar gyfer ailosod yr economi dwristiaeth yn y Gymru wledig. Mae gwaith a gomisiynwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, er enghraifft, wedi amlinellu strategaeth ar gyfer tyfu'r economi dwristiaeth drwy gynyddu gwerth ac nid nifer yr ymwelwyr a hynny drwy ymestyn y tymor, defnyddio galwadau marchnadoedd newydd am

dwristiaeth gynaliadwy sy'n seiliedig ar brofiadau, ac ymgysylltu ag offer digidol.[206] Yn yr un modd, gallai dull ehangach ar gyfer y Gymru wledig yn ei chyfanrwydd anelu at ailgydbwyso twristiaeth ac ychwanegu gwerth ati, yn ogystal â mynd i'r afael â phwysau penodol sy'n deillio o dwf eiddo gwyliau cyfnod byr a chartrefi gwyliau. Mae pedwar cam penodol wedi'u cynnig.

6.30 *Gwrthdroi effeithiau cyfyngiadau Covid-19 ar y sector dwristiaeth a lletygarwch gydag ymgyrch farchnata i groesawu ymwelwyr yn ôl i Gymru, gan fanteisio ar y cyfle i ailddiffinio ac ail-gydbwyso twristiaeth*: Mae ymgyrch farchnata yn cynnig cyfle nid yn unig i gyhoeddi bod sector twristiaeth Cymru ar agor ar gyfer busnes yn 2021, ond i ailddiffinio'r arlwy gyda mwy o bwyslais ar brofiadau o ansawdd dda ac o werth uchel a thynnu sylw at ardaloedd yn y Gymru wledig sydd â llai o ymwelwyr. Gall datblygu lleoliadau a gweithgareddau twristiaeth newydd ac uwchraddio llety gyfrannu at ymestyn y tymor ac ychwanegu gwerth mewn ardaloedd twristiaeth sefydledig yn ogystal ag adeiladu busnes mewn ardaloedd newydd. Gall offer digidol hefyd i reoli ymwelwyr mewn modd deinamig, megis ap sy'n defnyddio data traffig amser real i gyfeirio ymwelwyr oddi wrth safleoedd gorlawn,[207] systemau archebu ar-lein, a gweithgareddau a theithiau rhithwir sy'n hybu profiadau a chyrchfannau newydd i dwristiaid.

6.31 *Cymorth ar gyfer mentrau a phrosiectau twristiaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n eiddo i'r gymuned:* I fynd i'r afael ag effeithiau negyddol twristiaeth mewn ardaloedd lle ceir llawer o ymwelwyr, mae angen ymagwedd newydd at stiwardio cyrchfannau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n cynnwys y cymunedau lleol wrth lunio'r arlwy i dwristiaid a gosod blaenoriaethau, sy'n hybu datblygiad atyniadau i ymwelwyr sy'n perthyn i'r gymuned ac sy'n rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol (er enghraifft, cynlluniau blychau lleol yn lle nwyddau o archfarchnadoedd i osodiadau hunanarlwyo), ac sy'n gwella ymgysylltiad ymwelwyr â'r diwylliant a'r dreftadaeth leol. Gallai'r posibiliadau gynnwys profiadau diwylliannol drwy drochi, cyrsiau sy'n dysgu crefftau a sgiliau gwledig traddodiadol, a defnyddio'r Gymraeg yn amlwg i hybu bwyd, diod, crefftau a chynhyrchion lleol eraill.

6.32 *Rheoliadau cynllunio ar gyfer gosodiadau cyfnod byr*: Mae prynu tai mewn cymunedau gwledig ac arfordirol ar gyfer gosodiadau gwyliau wedi chwyddo prisiau eiddo ac wedi lleihau'r cyflenwad tai mewn mannau poblogaidd gan gyfrannu at broblemau fforddiadwyedd tai i bobl ifanc leol ac aelwydydd incwm isel, tra bo hyfywedd siopau a gwasanaethau'r gymuned yn cael ei danseilio gan y boblogaeth lai y tu allan i'r tymor (para 4.58-4.59). Er bod defnyddio deddfwriaeth gynllunio i fynd i'r afael â heriau ail gartrefi a gosodiadau gwyliau yn gymhleth, mae cyflwyno darpariaeth i fynnu caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd eiddo preswyl yn osodiad masnachol cyfnod byr (gan gynnwys drwy AirBnB) yn fesur dichonadwy sy'n caniatáu i effeithiau ar gyflenwad tai, seilwaith a bywiogrwydd cymunedol gael eu hasesu. Mae mesurau fel hyn wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn yr Alban, ac wedi'u pasio gan Gyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2020.[208]

6.33 *Adolygu cymhwysedd eiddo 'preswyl' i dderbyn rhyddhad ardrethi busnes 100% ac osgoi talu unrhyw Treth Gyngor*: Mae effeithiolrwydd mesurau i annog pobl i beidio â bod yn berchen ar ail gartref drwy godi premiwm ar Dreth Gyngor wedi'i wanhau drwy gofrestru eiddo fel mangreoedd busnes lle mae'r rhain yn cael eu gosod yn fasnachol am o leiaf ran o'r flwyddyn, neu'n cael eu

[206] 'Reset, Reignite, Reimagine – Tourism Beyond COVID-19: Discussion Paper for the North Wales Economic Ambition Board', Partneriaeth Morgan-Pritchard, 2020.

[207] Gweler er enghraifft yr ap Gwirio Traethau a ddatblygwyd gan Gyngor Bournemouth, Christchurch a Poole i reoli nifer yr ymwelwyr yn haf 2020, https://www.bbha.co.uk/bcp-beach-check-application

[208] 'Gwynedd Council's "three pronged attack" on lack of action over housing crisis', North Wales Chronicle, 14 Rhagfyr 2020.

defnyddio fel arall at ddibenion busnes. Fel busnesau, mae eiddo o'r fath wedi'u heithrio o'r Dreth Gyngor ac mae'r rhan fwyaf yn gymwys fel meicrofusnesau ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gan arwain at golli derbyniadau i'r awdurdod lleol. Gallai'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r rhwymedigaeth i dalu treth eiddo ar ail gartrefi a gosodiadau gwyliau gael eu hadolygu, ochr yn ochr ag ystyried mesurau cyllidol eraill i fynd i'r afael â'r cyflenwad tai a fforddiadwyedd gan gynnwys y cynnydd yn yr ardoll ail gartrefi yn y Dreth Trafodiadau Tir a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020,[209] yn ogystal â chodi neu ehangu rhychwant premiwm y Dreth Gyngor.[210] Ar ben annog pobl i beidio â throi tai yn ail gartrefi neu'n osodiadau gwyliau, gall y refeniw a godir drwy bremiwm y Dreth Gyngor gael ei fuddsoddi mewn prosiect tai fforddiadwy, fel y gwnaeth awdurdodau lleol gan gynnwys Gwynedd a Sir Benfro.

## Tai i adlewyrchu anghenion cymunedau lleol

6.34 Mae'r cyflenwad tai a fforddiadwyedd tai yn her fawr i'r Gymru wledig ac yn sbardun allweddol i allfudiad pobl ifanc a gwanhau cymunedau Cymraeg eu hiaith (para 4.8,4.63). Mae'r system tai gwledig yn cael ei siapio gan nifer o ffactorau ynglŷn â'r cyflenwad a'r a galw, gan gynnwys cyfraddau adeiladu tai newydd, cymhareb prisiau eiddo i enillion lleol, cystadleuaeth o du prynwyr allanol a chyfyngiadau cynllunio. Nid y nifer yn gyffredinol yw'r unig broblemau tai, ond hefyd argaeledd eiddo priodol sy'n adlewyrchu'r galw mewn cymunedau penodol. Mae mynd i'r afael â'r cwestiwn tai yn bwysig er mwyn sicrhau cymunedau gwledig ffyniannus a chytbwys o ran oedran, cryfhau'r Gymraeg, ac adeiladu Cymru fwy cyfartal. Mae'r Weledigaeth Wledig yn cynnig chwe cham penodol tuag at y nod hwn.

*6.35 Cyflwyno polisïau cynllunio hyblyg sy'n adlewyrchu anghenion a chapasiti cymunedau gwledig yn well er mwyn ysgogi economïau lleol a helpu i gadw trigolion iau:* Gall y polisïau cynllunio presennol gyfrannu at broblemau argaeledd tai yng nghefn gwlad, yn enwedig cyfyngiadau afresymol ar adeiladu o'r newydd mewn llawer o bentrefi bach (para 4.55). Dylid ailedrych ar ganllawiau polisi cynllunio gan anelu at ailgydbwyso lles cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Gellid ystyried caniatáu i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud eithriadau ar gyfer adeiladu un annedd i'w feddiannu gan drigolion presennol cymunedau neu aelodau o'u teuluoedd lle gellir dangos nad oes tai priodol ar gael yn y gymuned drwy'r farchnad dai (ac yn amodol ar gyfyngiadau seilwaith). Gallai camau eraill gynnwys darpariaethau i'r awdurdodau cynllunio neilltuo tir datblygu yn benodol i ateb anghenion tai lleol.

6.36 *Lobïo am gyllid digonol ar gyfer cymorthdaliadau cyfalaf i adeiladu tai fforddiadwy ar draws amryw o ddaliadaethau:* Mae'r cyflenwad tai fforddiadwy newydd yn ffactor sy'n cyfrannu at anawsterau argaeledd tai yng nghefn gwlad ac mae angen polisïau i ysgogi datblygiadau priodol. Gallai datgloi cymorthdaliadau cyfalaf ac addasu darpariaethau i gefnogi buddsoddiadau mewn datblygiadau tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau tir cymunedol a datblygwyr preifat helpu i gynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy i'w gwerthu a'u rhentu, a gallai'r cyllid a fyddai ar gael ei reoleiddio drwy asesiad y cytunid arno'n lleol o anghenion ar gyfer mathau a lleoliadau tai.

*6.37 Opsiynau i archwilio tai cydweithredol mewn eiddo cymunedol gwag i gynnig llety fforddiadwy i bobl ifanc i fyw'n annibynnol:* Mae gan gynlluniau tai cydweithredol botensial i ddarparu opsiynau i bobl ifanc ac eraill ddod o hyd i lety fforddiadwy mewn cymunedau gwledig sydd â chyflenwad tai cyfyngedig, a gallent ddod â dibenion newydd i eiddo mawr mewn pentrefi fel hen ysgolion

[209] Treth Trafodiadau Tir, Llywodraeth Cymru, 2020
[210] 'Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor', Cyngor Gwynedd, 2020. Papur Cabinet, 15 Rhagfyr 2020.

neu dafarndai yn hytrach na'u troi'n anheddau sengl neu'n osodiadau gwyliau. Gallai polisïau i gefnogi mentrau tai cydweithredol gwledig gynnwys hybu modelau tai cydweithredol i gynghorau cymuned a grwpiau cymunedol eraill, darparu canllawiau a chyngor i gwmnïau tai cydweithredol newydd, trefniadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu i hwyluso benthyca morgeisi, a pholisïau cynllunio rhagweithiol sy'n ffafrio addasiadau ar gyfer tai cydweithredol.

*6.38 Manteisio ar argaeledd cynhyrchion pren a ffibrau fel gwlân Cymreig, i ddatblygu tai modiwlar cost isel yn seiliedig ar ddulliau adeiladu modern:* Mae darparu tai modiwlaidd yn ffordd o leihau costau ac amserlenni ar gyfer adeiladau newydd, ac mae hefyd yn sicrhau safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd. Byddai canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau o'r Gymru wledig, gan gynnwys gwlân Cymru a phren lleol, hefyd yn glynu wrth egwyddorion economi cylchol, gan gyfrannu at arallgyfeirio dibenion ar gyfer adnoddau gwledig Cymru (para 6.8) a darparu cyfleoedd cyflogaeth gyda busnesau sy'n prosesu deunyddiau ac yn gweithgynhyrchu unedau modiwlaidd.

6.39 *Cyflwyno mesurau i ddiogelu enwau lleoedd ac eiddo Cymraeg:* Mae newidiadau mewn enwau lleoedd ac eiddo Cymraeg gan fuddsoddwyr o'r tu allan a mewnfudwyr wedi ysgogi pryderon ynghylch gwanhau diwylliant a threftadaeth y Gymraeg mewn rhannau o'r Gymru wledig. Er bod rheoleiddio cyffredinol ar enwau eiddo yn debygol o fod yn anymarferol, fe ellid ystyried ymyriadau wedi'u targedu'n fwy, gan gynnwys, er enghraifft, 'gorchmynion cadwraeth ddiwylliannol' (yn debyg i orchmynion cadw coed) y gellid eu neilltuo i eiddo sy'n ddiwylliannol arwyddocaol neu eiddo mewn perygl, gan beri bod angen caniatâd cynllunio er mwyn newid enw.

*6.40 Codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymhlith y rhai hynny sy'n prynu cartrefi o fewn cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg:* Mae'r gostyngiad yng nghyfran y trigolion Cymraeg eu hiaith mewn llawer o gymunedau gwledig, gan leihau gallu'r Gymraeg i gael eu defnyddio fel iaith bywyd cymunedol bob dydd, yn deillio o allfudiad siaradwyr Cymraeg a mewnfudiad di-Gymraeg (para 4.63). Gallai mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg mewnfudwyr a'u hannog i ddysgu'r iaith helpu i fynd i'r afael â'r duedd hon. Gallai camau posibl gynnwys ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am y Gymraeg yn y gymuned gael ei chynnwys mewn Pecynnau Gwybodaeth am y Cartref (HIPs) ar gyfer eiddo a brynir mewn lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ddosbarthiadau Cymraeg. Gallai cynghorau tref a chymuned baratoi deunydd i werthwyr ac asiantau tai eu cynnwys mewn HIPs.

## Trefi gwledig clyfar a ffyniannus

6.41 Mae rôl *draddodiadol* trefi marchnad y Gymru wledig wedi'i lleihau drwy gau marchnadoedd a chyflogwyr mawr a thrwy golli siopau a gwasanaethau cyhoeddus. Er bod rhai trefi'n dal yn arwyddocaol o ran denu cyflogaeth a gwasanaethau, mae eraill wedi mynd yn allforwyr net cymudwyr ac yn cael eu hosgoi gan drigolion gwledig sy'n teithio i ganolfannau mwy ar gyfer siopa a gwasanaethau (para 4. 67). Gall trefi bach gael eu dal hefyd rhwng polisïau datblygu gwledig sydd wedi'u hanelu at bentrefi a menter adfywio Llywodraeth Cymru, Trawsnewid Trefi, sydd â phwyslais ar 'ganol trefi' sy'n amhriodol ar gyfer trefi llai lle mae'r canol yn annelwig.[211] Ond, gallai pwyslais newydd ar yr economi sylfaenol a'r newid ymddygiad a allai ddilyn yn sgil mwy o weithio gartref greu cyfle i drefi bach adfer eu swyddogaeth hanesyddol fel hoelion wyth yr economi a'r gymdeithas wledig. Mae'r Weledigaeth Wledig yn amlinellu pedwar cam penodol.

6.42 *Menter Trefi Clyfar:* Mae dulliau digidol yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu modelau busnes newydd mewn trefi bach a chefnogi cynlluniau, darpariaeth gwasanaethau a dulliau marchnata mwy

[211] 'Transforming Towns', Adroddiad Arferion Da ROBUST, 2020.

hyblyg ac ymatebol drwy ddefnyddio data digidol (Blwch 6.8). Byddai Menter Trefi Clyfar yn darparu cyllid i drefi bach gwledig osod a gweithredu systemau wi-fi cyhoeddus a hyfforddiant ar ddefnyddio'r data a gynhyrchir yn effeithiol, yn ogystal â chymorth i brosiectau a allai gynnwys systemau archebu ar-lein; llwyfannau e-fasnach i gynyddu gwerthiant ac incwm siopau lleol; apiau ar gyfer archebu mewn caffis, bwytai a thafarndai; marchnata digidol i ddenu twristiaid; a systemau archebu ac olrhain digidol ar gyfer cynlluniau llogi e-feiciau; gyda lle ar gyfer arloesi lleol. Gellid cyfeirio cyllid hefyd at greu canolfannau swyddfa i'w rhannu a fyddai'n rhoi mynediad i unig fasnachwyr, meicrofentrau a gweithwyr cartref at offer digidol uwch yn ogystal â chyfleusterau fel argraffu laser a llungopïo, mannau cyfarfod a desgiau poeth. Gallai cyd-leoli canolfannau swyddfa a rennir gyda llyfrgelloedd cyhoeddus helpu i sicrhau hyfywedd y rhain mewn trefi bach.

6.43 *Buddsoddiadau cyfalaf mewn safleoedd cyflogaeth addas a modern i gefnogi datblygiad a thwf busnesau:* Mae pwyslais strategol ar ehangu'r sectorau biotechnoleg, technoleg werdd, gweithgynhyrchu uwch a phrosesu bwyd yn y Gymru wledig yn cynnig cyfleoedd i drefi bach ddenu busnesau newydd. Gallai'r camau gynnwys datblygu unedau ffatri ymlaen llaw mewn trefi bach a'r rheiny wedi'u cynllunio'n unswydd i ateb anghenion y sectorau hyn, gan gynnwys cysylltiadau band eang cyflym ac o ansawdd dda (neu uwchraddio safleoedd presennol), ac unedau cychwyn ar gyfer busnesau newydd ac entrepreneuriaid lleol.

6.44 *Sefydlu hybiau creadigol mewn mannau yn y Gymru wledig:* Mae'r economi creadigol yn sector cynyddol bwysig yn y Gymru wledig sydd â'r potensial ar gyfer twf, ond gall datblygu'r farchnad, mynediad i seilwaith a rhwydweithiau cymorth fod yn heriau, yn enwedig i feicrofusnesau ac unig weithredwyr.[212] Gallai datblygiad strategol canolfannau creadigol mewn trefi bach yng nghefn gwlad Cymru, yn dilyn model yr Egin yng Nghaerfyrddin (Blwch 6.9), ysgogi twf yn y sector creadigol a chefnogi datblygiad busnes. Gallai pob canolfan ganolbwyntio ar ddiwydiant penodol, gan gynnwys ffilm, cerddoriaeth, dylunio a gemau cyfrifiadur, gyda chwmni neu sefydliad angori (yn debyg i S4C yn yr Egin) ond hefyd darparu gweithdai, gofod rhwydweithio, gwerthiannau e-fasnach a gwasanaethau anfon a mynediad at dechnoleg a seilwaith arbenigol ar gyfer clystyrau o fentrau bach a gweithwyr llawrydd yn yr ardal leol.

6.45 *Cefnogi'r fenter Banc Cambria ac undebau credyd lleol i ariannu cyfleusterau bancio mewn cymunedau lle mae canghennau banciau masnachol wedi cau:* Mae'r penderfyniad i gau canghennau banciau 'y stryd fawr' ar raddfa eang yn nhrefi bach y Gymru wledig dros y degawd diwethaf (para 4.50) wedi erydu swyddogaeth trefi fel gwasanaeth ac wedi cynyddu costau a heriau logistaidd i fusnesau bach. Mae mynediad i gyfleusterau bancio priodol yn bwysig ar gyfer denu a chadw busnesau mewn trefi bach, yn enwedig mewn ardaloedd lle gall cysylltiadau band eang annigonol gyfyngu ar y defnydd o fancio ar-lein mewn cymunedau gwledig. Dylai ymatebion polisi geisio cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth amgen, gan gynnwys menter Banc Cambria o bosibl i sefydlu rhwydweithiau bancio yn y gymuned,[213] undebau credyd lleol, unedau bancio symudol, darparu gwasanaethau bancio drwy swyddfeydd post neu fannau eraill, a gosod ATMs mewn adeiladau sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus neu gymunedol.

[212] 'Artists as workers in the rural', Marie Mahon et al., *Journal of Rural Studies*, 2018.
[213] Banc Cambria, https://www.cooperatives-wales.coop/banc-cambria/

**Blwch 6.8: Astudiaeth Achos – 4CG a Rhwyd Teifi Cardigan**

Mae 4CG yn fenter gymdeithasol sy'n perthyn i'r gymuned yn Aberteifi ac a sefydlwyd i hybu datblygiad y dref ac i wella dulliau adeiladu cyfoeth cymunedol drwy gadw gwerth yn lleol. Gan weithio gydag eraill, gan gynnwys fel rhan o Bartneriaeth Canol Tref, mae 4CG wedi gweithredu nifer o brosiectau, gyda phwyslais ar ddefnyddio offer digidol. Mae'r rhain yn cynnwys gosod rhwydwaith talu-wrth-fynd wi-fi cyhoeddus drwy'r dref, Rhwyd Teifi, ar sail cysylltiad band eang cyflym iawn, a datblygu ap tref ar gyfer tabledi a ffonau clyfar. Mae'r ap yn darparu gwybodaeth am Aberteifi, ei hanes, ei siopau, ei bwytai a'i gwasanaethau, ac mae'n rhyngweithiol gydag i-dywyswyr o amgylch y dref sy'n anfon hysbysiadau gyda gwybodaeth hanesyddol neu gynigion i ddenu defnyddwyr i mewn i fusnesau lleol. Mae'r rhwydwaith wi-fi a'r ap yn creu data dadansoddol sy'n caniatáu monitro niferoedd ymwelwyr, eu tarddiad, patrymau tymhorol a dyddiol nifer yr ymwelwyr, a symudiadau o amgylch y dref. Defnyddir y data hyn gan 4CG, cyngor y dref a grwpiau cymunedol eraill i lywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau, rheoli gwasanaethau a chyfleusterau, ac i gefnogi ceisiadau am gyllid. Mae busnesau lleol hefyd yn defnyddio'r data wrth wneud penderfyniadau ar stoc, amserau agor a marchnata. Mae'r ap a'r data hefyd yn helpu i reoli ymwelwyr yn ddeinamig. Er enghraifft, anogir partïon sy'n ymweld o longau mordeithio sydd wedi docio yn Abergwaun i lawrlwytho'r ap ar ôl gadael y llong ac mae busnesau yn Aberteifi yn gallu defnyddio data o'r ap i rag-weld niferoedd, teilwra'u stoc a hysbysebu a denu busnes drwy hysbysiadau i-dywyswyr. Mae rhwydwaith wi-fi Rhwyd Teifi hefyd yn cefnogi cylchlythyr ar-lein dewisol sy'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a chynigion ar-lein i danysgrifwyr ar gyfer busnesau lleol.

https://www.4cg.cymru/

**Blwch 6.9: Astudiaeth Achos – Yr Egin**

Mae'r Egin yn ganolfan greadigol a digidol sydd wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac a agorwyd yn 2018. Ac yntau wedi'i angori gan bencadlys S4C, a symudodd yno o Gaerdydd, mae'r Egin hefyd yn cynnal nifer o fentrau llai yn y diwydiannau creadigol, llawer yn gweithio'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau cynnwys teledu neu gwmnïau cynhyrchu Boom Cymru, Capten Jac a Lens 360, cyfleuster ôl-gynhyrchu Gorilla Group, darparwyr gwasanaethau digidol Cwmni Dysgu Mawr, Moilin ac Optimwm, asiantaeth brand creadigol Uchel a chwmni cyfieithu Trywydd. Mae'r Egin hefyd yn darparu cyfleusterau stiwdio, cyfarfod ac ôl-gynhyrchu i'w llogi, yn ogystal â chanolfan fenter sy'n cynnig gwasanaethau a gofod deori i entrepreneuriaid lleol. Darparwyd cyllid ar gyfer yr Egin drwy gronfa datblygu lleol LEADER Sir Gaerfyrddin yn yr RhDG, gyda chymorth ychwanegol i'r ganolfan fenter gan Lywodraeth Cymru a'r ERDF.

Homhttps://yregin.cymru/

## Adeiladu Cyfoeth Cymunedol a mynd i'r afael â'r Canol Coll

6.46 Mae cryn dipyn o gyfoeth yn gollwng o'r Gymru wledig drwy dan-wireddu gwerth cynhyrchion amaethyddol ac adnoddau naturiol, prosesu cynnyrch y tu allan i'r rhanbarth, trosglwyddo elw i berchnogion nad ydynt yn lleol, ac allforio llafur i weithio mewn dinasoedd ac ardaloedd cyfagos. Ar yr un pryd, effeithiwyd ar gymunedau gwledig a threfi bach gan benderfyniadau i dorri neu leihau gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, sef penderfyniadau a wneir y tu allan i'r ardal heb fawr ddim ymgynghori, os o gwbl, ac maent wedi'u cyfyngu yn eu gallu i gryfhau gwytnwch

oherwydd diffyg perchnogaeth ac atebolrwydd lleol. Gall y cysyniad o 'adeiladu cyfoeth cymunedol' gynnig fframwaith ar gyfer cadw mwy o gyfoeth a gwerth yn y Gymru wledig, gan ganolbwyntio ar bum egwyddor, sef perchnogaeth luosog yr economi, gwneud i bŵer ariannol weithio i leoedd lleol, cyflogaeth deg a marchnadoedd llafur teg, caffael nwyddau a gwasanaethau'n flaengar, a defnydd cymdeithasol cynhyrchiol ar dir ac eiddo.[214] Mae'r Weledigaeth Wledig yn amlinellu pum cam sy'n adlewyrchu amcanion adeiladu cyfoeth cymunedol.

6.47 *Cydnabod rôl y sector cyhoeddus fel sefydliadau angori yn yr economi wledig a mabwysiadu polisïau caffael deinamig sy'n cefnogi busnesau gwledig*: Gall cyflogwyr a sefydliadau mawr, y cyfeirir atynt fel sefydliadau angori, gael effaith o bwys ar economïau lleol drwy eu harferion prynu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Yn y Gymru wledig, cyrff y sector cyhoeddus yw'r sefydliadau angori yn bennaf, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysbytai, prifysgolion a cholegau AB, sy'n dod o dan reoliadau caffael cyhoeddus ond sydd hefyd â chyfrifoldebau penodol tuag at gymunedau. Er bod polisïau caffael lleol-yn-gyntaf gwahaniaethol wedi'u gwahardd gan ddarpariaethau yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, mae nifer o gamau y gellir eu cymryd i ddatblygu systemau caffael deinamig, gan gynnwys arferion sydd eisoes wedi'u treialu gan awdurdodau yng Nghymru ac mewn mannau eraill ac a gefnogir gan waith Llywodraeth Cymru ar dirwedd gaffael newydd i Gymru.[215] Mae'r rhain yn cynnwys rhannu contractau'n gydrannau llai sy'n fwy ymarferol i fusnesau lleol wneud cais amdanynt, ymgorffori ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn meini prawf dyfarnu, a digwyddiadau gwybodaeth i gyflenwyr lleol er mwyn gwella'u dealltwriaeth o anghenion y prynwyr a'r prosesau caffael.

6.48 *Cymorth i ddiwydiant bwyd Cymru, gan gynnwys prosesu bwyd a rhwydweithiau bwyd lleol:* Mae cryfhau rhwydweithiau bwyd lleol a hunangynhaliaeth system fwyd Cymru yn cynnig ffyrdd o gynyddu a chadw'r gwerth a gynhyrchir yn y Gymru wledig, yn ogystal â chyfrannu at nodau cynaliadwyedd.[216] Mae llawer o brosiectau bwyd lleol llwyddiannus yn gweithredu yn y Gymru wledig ar hyn o bryd, gyda chyfleoedd i ehangu ymhellach drwy adeiladu ar ddatblygiadau arloesol a fabwysiadwyd yn ystod argyfwng COVID-19 megis cynlluniau marchnad ffermwyr drwy gyfrwng 'clicio a chasglu' (para 4.95), yn ogystal â datblygiadau arloesol diweddar eraill megis cyflwyno peiriannau gwerthu sy'n gwerthu llaeth ffres a chynnyrch lleol arall (Blwch 6.10). Mae camau polisi posibl pellach a allai helpu i gefnogi rhwydweithiau bwyd lleol yn cynnwys cyflwyno cynlluniau ardystio ar gyfer siopau, bwytai a lleoliadau lletygarwch sy'n sicrhau dros 50 y cant o'u cynnyrch gan dyfwyr a chyflenwyr lleol. Mae'r potensial ar gyfer ehangu rhwydweithiau bwyd lleol a chadw gwerth wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan gapasiti prosesu bwyd yng Nghymru (para 4. 27). Gallai polisïau cefnogol gynnwys cymorth busnes wedi'i dargedu ar gyfer proseswyr a mentrau bwyd ar raddfa fach i hybu entrepreneuriaeth a darparu hyfforddiant perthnasol mewn gwyddor bwyd (para 6.13 a 6.17), yn ogystal ag annog buddsoddi mewn gweithfeydd prosesu gwerth uchel ar gyfer cynhyrchion fel llaeth fel blaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru.

6.49 *Datblygu cynlluniau gweithredu i wella gofal plant a darpariaeth gofal arall mewn cymunedau gwledig*: Mae argaeledd gofal plant mewn cymunedau gwledig yn fater arwyddocaol sydd â goblygiadau ar gyfer gallu pentrefi i ddenu a chadw teuluoedd ifanc, gyda'r galw'n debygol o gynyddu gyda chynnydd mewn gweithio gartref. Gallai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu i nodi ffyrdd o ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys drwy gyfuno

[214] 'The principles of community wealth building', CLES.

[215] 'Cynnydd tuag at ddatblygu tirwedd caffael newydd yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020.

[216] 'System Fwyd Gymreig sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', Adroddiad gan y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy ar redeg WWF Cymru, 2020

darpariaeth y sector masnachol, sefydliadol a gwirfoddol a rhwydweithiau cymunedol anffurfiol, fel y bo'n briodol ar gyfer anghenion cymunedol penodol.

6.50 *Yr economi sylfaenol a thwf busnes*: Gall pwyslais ar yr economi sylfaenol helpu i adeiladu cyfoeth cymunedol drwy ychwanegu gwerth at wasanaethau craidd sydd wedi'u gwreiddio ym mywyd bob dydd y cymunedau. Yn benodol, fel y cydnabyddir yn economi sylfaenol Llywodraeth Cymru, gall helpu i dyfu 'canol coll' cwmnïau canolig eu maint sydd wedi'u gwreiddio yn y Gymru wledig, gyda'r penderfyniadau a wneir yn cael eu gwreiddio mewn cymunedau lleol.[217] Fe allai cyflawni'r amcan hwn fynd i'r afael â thuedd strwythurau busnes y Gymru wledig tuag at fentrau meicro a bach, cynyddu cyflogaeth mewn trefi bach a chymunedau gwledig, a gwella'r cyfoeth a grëir yng nghefn gwlad. I sicrhau bod y dull hwn yn cael yr effaith fwyaf posibl, dylai dull yr economi sylfaenol weithredu ochr yn ochr â'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a bwydo rhaglenni ar gyfer cymorth busnes, hyfforddiant a datblygu sy'n seiliedig ar leoedd, gan gynnwys canolbwyntio ymdrechion i adfywio trefi bach ar eu swyddogaethau yn yr economi sylfaenol fel darparwyr gwasanaethau iechyd, addysg, gofal a gwasanaethau craidd eraill a manwerthu bwyd.

6.51 *Datblygu cynllun buddsoddi lleol*: Gwneud i gyllid weithio dros gymunedau lleol yw un o egwyddorion allweddol adeiladu cyfoeth cymunedol a gall hyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau mynediad at gredyd a chyllid a wynebir gan fusnesau yg nghefn gwlad. Mae'r cyfraddau llog isel presennol yn gyfle i ddatblygu cynllun buddsoddi lleol i gefnogi twf busnesau drwy fenthyca rhwng cymheiriaid gyda'r llywodraeth yn gwarantu benthyciadau. Gallai cynllun buddsoddi lleol ddatgloi buddsoddiad i fusnesau, a hefyd cynnig enillion ffafriol i bobl leol sy'n awyddus i gynilo neu i wella'u henillion yn ystod ei hymddeoliad.

6.52 Ar ben y blaenoriaethau a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig, gall cymunedau gael eu grymuso i ddatblygu gwytnwch drwy gefnogi mentrau a phrosiectau cymunedol. Mae nifer o gymunedau ledled y Gymru wledig wedi llwyddo i ysgogi adnoddau mewnol sy'n ysgogi cyfalaf, amser a llafur gwirfoddolwyr, a gwybodaeth broffesiynol mewn mentrau cymunedol sydd wedi ymgymryd â chyfleusterau a gwasanaethau lleol allweddol megis siopau, tafarndai, swyddfeydd post a gorsafoedd petrol (Blwch 6.11). Bydd mentrau o'r fath yn helpu i adennill rheolaeth gymunedol dros asedau hanfodol, adeiladu cydlynedd a gwydnwch y gymuned, a chadw cyfoeth o fewn y gymuned, ac efallai y bydd ganddynt rôl gynyddol i'w chwarae os bydd cyfyngiadau gwariant y llywodraeth yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau cyhoeddus. Mae cymorth i fentrau cymunedol y gellir eu darparu drwy'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a phrosiectau CLLD yn cynnwys cyngor a mentora dechrau busnes, cymorth grant ar gyfer prynu ac eiddo ac offer a hyfforddiant. Gall mentrau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n anelu at wneud defnydd cymdeithasol gynhyrchiol ar dir megis tyfu cymunedol a phrosiectau ffermio elwa'n ychwanegol drwy ddyrannu tir sy'n eiddo i'r cyhoedd. Gallai opsiynau pellach ar gyfer grymuso cymunedau gwledig y gellid eu hystyried gynnwys deddfwriaeth i gyflwyno 'hawl gymunedol i brynu' asedau allweddol cofrestredig os deuant i'r farchnad, a allai gynnwys eiddo a chyfleusterau o bwysigrwydd strategol i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, er mwyn cynnal perchnogaeth leol a'u defnyddioldeb i'r gymuned.

[217] 'Yr economi sylfaenol', Llywodraeth Cymru, 2019.

**Blwch 6.10: Astudiaeth Achos – Cynllun Gweithredu Integredig Amaeth-Drefol y Fenni**

Mae 'Thought for Food', sef Cynllun Gweithredu Integredig Amaeth-Drefol y Fenni, yn weledigaeth gyffredin ar gyfer bwyd lleol a luniwyd gan grwp defnyddwyr lleol fel rhan o gyfranogiad Cyngor Sir Fynwy yn y prosiect Ewropeaidd URBACT yn 2016-18. Nod y cynllun yw gwneud y Fenni a'r cyffiniau yn fan lle mae cysylltiad cynhenid rhwng Diwylliant, Bwyd a Chymuned a lle mae'r cynnyrch lleol yn cael eu dewis yn gyntaf wrth i'r trigolion brynu. Un o'r amcanion craidd yw datblygu Sir Fynwy fel 'canolfan fwyd' sy'n cynnwys dull cydgysylltiedig o gysylltu cynhyrchwyr, proseswyr a defnyddwyr, marchnata a dosbarthu. Mae'r camau arfaethedig eraill yn cynnwys academi hyfforddiant ieuenctid, gwella mynediad i dir gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i ffermio, ac unedau deor ar gyfer mentrau prosesu bwyd.

https://urbact.eu/sites/default/files/agri-urban_iap_abergavenny_en_full.pdf

**Blwch 6.11: Astudiaeth Achos – Cletwr**

Agorodd siop a chaffi Cletwr yn 2013 ym mhentref Tre'r Ddôl yng ngogledd Ceredigion. Datblygwyd Cletwr fel menter gymdeithasol ddi-elw gan grŵp o drigolion ar ôl i garej y pentref gau, a oedd hefyd yn gwasanaethu fel siop. Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid, disodlwyd safle gwreiddiol y garej gan adeilad pwrpasol ac amgylcheddol gynaliadwy yn 2017. Mae Cletwr hefyd yn darparu gwasanaethau lleol pwysig gan gynnwys WiFi am ddim, codi arian, syndicet prynu olew, man gollwng parseli, ymweliadau llyfrgell symudol, a sesiynau cynghori gan yr heddlu a'r cyngor. Mae'r staff yn cynnwys cydlynydd cymunedol cyflogedig. Mae nodau Cletwr yn cynnwys: 1) creu canolbwynt i'r gymuned leol; 2) darparu cyfleoedd gwirfoddoli a chymdeithasu i breswylwyr hŷn; 3) helpu pobl ifanc i ennill profiad gwaith a sgiliau newydd; 4) creu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys i gynhyrchwyr lleol.

https://cletwr.com/



# 7. Cyflawni'r Weledigaeth

7.1 O ran trosolwg holistig, mae'r gofynion a'r cynigion allweddol a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig yn rhychwantu nifer o feysydd polisi a chymwyseddau ac maent wedi'u cyfeirio yn eu tro at Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a nifer o asiantaethau a sefydliadau eraill. Y brif gynulleidfa yw Llywodraeth Cymru, a rhagwelir mai'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yw'r prif gyfrwng gweithredu ond mae nifer o gynigion hefyd yn ymwneud â meysydd polisi eraill o fewn Llywodraeth Cymru gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd, cynllunio, tai, iechyd, addysg, trafnidiaeth a diwylliant. At hynny, mae goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn rhoi mwy o rôl o ran cyflawni amcanion y Weledigaeth Wledig a'r gofynion allweddol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal â'r Cytundebau Twf presennol.

7.2 Mynegodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw wrth ddatblygu'r Weledigaeth Wledig bwysigrwydd dulliau wedi'u seilio ar le a mewnbwn lleol i raglenni, yn ogystal â dewisiadau ar gyfer dulliau darparu symlach ac integredig gan osgoi creu strwythurau newydd. Mae'r dewisiadau hyn yn cyd-fynd ag argymhellion adroddiad diweddar yr OECD ar 'The Future of Regional Development and Public Investment in Wales', sy'n pwysleisio'r angen am ddull gweithredu sy'n defnyddio strategaeth a pholisïau integredig; yn cefnogi'r gwaith o ddarparu polisi a gwasanaethau gan amrywiaeth eang o actorion ar raddfeydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; sy'n optimeiddio'i hadnoddau – cyllid, adnoddau dynol a seilwaith – mewn cyd-destun cyllidol cyfyngedig; ac sy'n cydbwyso dulliau o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny, gan ffafrio partneriaethau sydd yn ddelfrydol yn cyfarfod hanner ffordd.[218]

7.3 Mae gan awdurdodau lleol rôl hanfodol a chanolog i'w chwarae wrth weithredu'r Weledigaeth Wledig, drwy hwyluso ac arwain datblygiadau sy'n seiliedig ar le, gan alluogi safbwyntiau integredig sy'n cysylltu datblygu economaidd â gwasanaethau megis addysg a thai, a darparu atebolrwydd i gymunedau lleol yn y Gymru wledig. Gellir ymestyn gallu'r awdurdodau lleol drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill mewn cydbwyllgorau; gydag asiantaethau cyhoeddus eraill, busnesau, sefydliadau yn y trydydd sector a grwpiau cymunedol; a lle bo'n briodol gyda chynghorau tref a chymuned. Mae gan gynghorau tref a chymuned eu rolau penodol eu hunain i'w chwarae o ran hwyluso a chydlynu mentrau a arweinir gan y gymuned mewn ymateb i nifer o'r cynigion a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig.

7.4 Tanlinellodd yr ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd y dull Datblygu Lleol a Arweinir gan y Gymuned (CLLD) yn y Gymru wledig. Rhoddodd y rhanddeiliaid groeso i'r cadarnhad o'r dull CLLD yn y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol, gan gynnwys y gydnabyddiaeth y bydd gweithgareddau a arweinir gan gymunedau gwledig, gyda'u cyfranogiad gweithredol, yn allweddol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol i hwyluso gwaith cynllunio a darparu ar sail lle mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd a nodwyd yn lleol ar draws cefn gwlad , yn ogystal ag ymrwymiadau i hwyluso ymatebion arloesol ac i ddarparu cyllid i brif-ffrydio syniadau llwyddiannus ac ehangu eu graddfa.[219] Er hynny, cafodd y diffyg clustnodi ynglŷn ag adnoddau penodol ar gyfer CLLD mewn ardaloedd gwledig ei nodi a

---

[218] 'The Future of Regional Development and Public Investment in Wales, United Kingdom', Astudiaethau Llywodraethiant Aml-lefel yr OECD, 2020.
[219] 'Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol', Llywodraeth Cymru, 2020, tudalen 8.

mynegwyd pryder y gallai maint y rhaglen 'LEADER' bresennol gael ei leihau drwy gystadleuaeth am gyllid yn erbyn ceisiadau trefol gyda chanlyniadau posibl ar gyfer parhad y prosiectau a gefnogir ac arbenigedd y cyfranogwyr. Mae CLLD yn fecanwaith cyflawni delfrydol ar gyfer nifer o'r cynigion a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig a dylid ymrwymo i barhau i'w ddefnyddio'n helaeth ar draws cefn gwlad Cymru.

7.5 Pwysleisiodd nifer o'r rhanddeiliaid hefyd y rhyng-gysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig a threfol a'r angen am gynllunio a chydgysylltu strategol ar draws y ddwy ardal. Mae'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a'r Cytundebau Twf rhanbarthol yn darparu fforymau ar gyfer integreiddio trefol-gwledig, ond ni ddylen nhw wahardd datblygu rhwydweithiau eraill sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau rhanbarthol hyn, gan gynnwys ymgysylltu â dinasoedd a rhanbarthau cyfagos yn Lloegr lle bo'n briodol. At hynny, mae angen cydbwyso arferion gwaith, amcanion a pholisïau partneriaethau rhanbarthol, cydnabod cyd-ddibyniaeth ardaloedd trefol a gwledig, a rhoi cynrychiolaeth deg i fuddiannau gwledig os ydynt am sicrhau dilysrwydd a chefnogaeth ymysg poblogaethau gwledig.

7.6 Un mater cyson a godwyd gan y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw wrth ddatblygu'r Weledigaeth Wledig oedd yr argraff bod yna ddiffyg dealltwriaeth o effeithiau penderfyniadau polisi ar gymunedau gwledig. Mae'r Weledigaeth Wledig yn argymell felly y dylid ailddechrau defnyddio 'prawfesur gwledig' fel gofyniad gorfodol wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni newydd ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru ac yn y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a'r Cytundebau Twf. Dylai prawfesur gwledig rychwantu meysydd polisi sy'n cynnwys cymorth amaethyddol a rheoli amgylcheddol fel dull i asesu effeithiau cymdeithasol a diwylliannol polisïau a rhaglenni arfaethedig ar gymunedau gwledig.

